

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

34/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

25/03/2021

Teitl: Diweddariad o'r Rhagasesiad o Gronfa Busnes Cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-014-5

Diweddariad o'r Rhagasesiad o Gronfa Busnes Cymru
Adroddiad Terfynol gan Hatch



Adroddiad Ymchwil Llawn: Hatch (2020) *Diweddariad o'r Rhagasesiad o Gronfa Busnes Cymru* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 34/2021

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/rhagasesiad-o-gronfa-busnes-cymru-cbc-diweddariad>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Keri Nicholls

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Llywodraeth Cymru

Rhydycar

Merthyr Tydfil

CF48 1UZ

Ffôn: 03000 628354

E-bost: RME.Mailbox@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol.....	6
2.	Cyflwyniad	14
3.	Perfformiad Cronfa Busnes Cymru.....	23
4.	Perthnasedd Parhaus a Chysondeb - Cyd-destun Polisi.....	36
5.	Perthnasedd Parhaus a Chysondeb - Cyd-destun Economaidd	57
6.	Asesiad o Farchnad Gyllid BBaChau	71
7.	Goblygiadau COVID-19 i Farchnadoedd Cyllid BBaChau	88
8.	Goblygiadau i'r Bwlch Cyllid	101
9.	Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi.....	121

Rhestr o'r tablau

Tabl 1.1: Crynodeb o'r Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi	11
Tabl 2.1: Dyraniadau Cronfa Busnes Cymru.....	14
Tabl 3.1: Cyfraddau Buddsoddi Blynnyddol Cronfa Busnes Cymru (erbyn Ch1 2020, £m)	27
Tabl 3.2: Buddsoddiad Cronfa Busnes Cymru Hyd Yma, yn ôl Ardal y Rhaglen (erbyn Ch1 2020, £m).....	30
Tabl 3.3: DPA Datblygu Economaidd Cronfa Busnes Cymru (erbyn Ch1 2020).....	33
Tabl 3.4: Costau Gweithredu Cronfa Busnes Cymru (erbyn Ch1 2020, £m).....	35
Tabl 4.1: Sectorau Blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.....	39
Tabl 4.2: Mesurau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi BBaChau mewn ymateb i COVID-19.....	42
Tabl 4.3: Cronfeydd a Reolir ar hyn o bryd gan BDC	53
Tabl 5.1: Twf Cynnyrch Domestig Gros y DU ar gyfer Senarios Amgen (% y newid o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).....	68
Tabl 5.2: Crynodiad Sectoraidd a Rhagolygon Rhanbarthol y DU	70
Tabl 6.1: Canlyniad y Ceisiadau am Gyllid, Busnesau'r DU.....	73
Tabl 6.2: Canlyniad y ceisiadau am gyllid, BBaChau nad ydynt yn ficrofusnesau yn y DU	73
Tabl 6.3: Gwerth cyfartalog fesul borgen ecwiti BBaChau y DU, fesul cam	84
Tabl 8.1: Crynodeb o Amodau'r Farchnad yn ôl Math o Gyllid	102
Tabl 9.1: Newidiadau i Gyfansoddiad Dyraniadau Buddsoddi Cronfa Busnes Cymru (£m)	123
Tabl 9.2: Cyfansoddiad Cronfa Busnes Cymru wedi'i Ddiweddarau	123
Tabl 9.3: Rhagdybiaethau Diwygiedig o'r Gyfradd Dileadau	127
Tabl 9.4: Prawf Sensitifrwydd Cyfradd Diffygdlu Cronfa Busnes Cymru	128
Tabl 9.5: DPA Craidd Diwygiedig Cronfa Busnes Cymru.....	130
Tabl 9.6: Dangosyddion Gwerth am Arian Cronfa Busnes Cymru	134
Tabl 9.7: Crynodeb o'r Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi	137

Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 3.1: Nifer a Gwerth Buddsoddiadau yng Nghymru, Ch3 2016 i Ch1 2020	25
Ffigur 3.2: Gwerth y Buddsoddiadau yn ardal DC, Ch3 2016 i Ch1 2020	26
Ffigur 3.3: Gwerth y Buddsoddiadau yn ardal GCC, Ch3 2016 i Ch1 2020	26
Ffigur 3.4: Gwerth (£m) a chyfran y Buddsoddiad, yn ôl Sector erbyn Ch1 2020	28
Ffigur 3.5: Cyfran o Gyfanswm y Buddsoddiad fesul Awdurdod Lleol, erbyn Ch1 2020	29
Ffigur 3.6: Math o Fuddsoddiad yn ôl Maes y Rhaglen (erbyn Ch1 2020)	30
Ffigur 3.7: Gwerth Buddsoddiadau Cronfa Busnes Cymru yn ardal DC.....	31
Ffigur 3.8: Gwerth Buddsoddiadau Cronfa Busnes Cymru yn ardal GCC.....	31
Ffigur 3.9: Cymhareb y Buddsoddiad a Ysgogwyd, erbyn Ch1 2020	32
Ffigur 3.10: Cyfradd diffygdlu ar gyfer Cronfa Busnes Cymru.....	34
Ffigur 5.1: Twf mewn gwerth ychwanegol gros yng Nghymru a'r DU 2011-18, wedi'i fynegio ar lefelau 2011	58
Ffigur 5.2: Gwerth ychwanegol gros fesul cyflogai amser llawn yng Nghymru a Phrydain Fawr, 2009-2018	59
Ffigur 5.3: Gwerth ychwanegol gros fesul cyflogai amser llawn yn ôl rhanbarth y DU (£), 2018	59
Ffigur 5.4: Mynegai Twf Busnes (2011 = 100)	60
Ffigur 5.6: BBaChau yn ôl sector fel cyfran o gyfanswm y BBaChau, 2019.....	61
Ffigur 5.7: Twf yn nifer y busnesau yng Nghymru yn ôl sector 2011 i 2019	62
Ffigur 5.8: Twf mewn cyflogaeth 2011-2018 yn ôl rhanbarth yng Nghymru, wedi'i fynegio i lefelau 2011.....	63
Ffigur 5.9: Lefel cyflogaeth yn ôl sector yn 2019 a thwf canrannol ers 2013.....	64
Ffigur 5.10: Senarios ar gyfer Adferiad Economaidd yn y Dyfodol.....	67
Ffigur 6.1: Microfusnesau fesul 10,000 o'r boblogaeth oedran gweithio	72
Ffigur 6.2: Sylfaen busnes, cyflogaeth a throsiant yng Nghymru yn ôl maint busnes	72
Ffigur 6.3: Cyfran y BBaChau yng Nghymru a'r DU sy'n defnyddio pob math o gyllid, 2019	74
Ffigur 6.4: Canlyniad ceisiadau am orddrafft yng Nghymru	75
Ffigur 6.5: Canlyniad ceisiadau am fenthyciad yng Nghymru	75
Ffigur 6.6: Mynegai Gwariant Addysg Uwch a Busnesau ar Ymchwil a Datblygu, 2019d	77
Ffigur 6.7: Cyfran y busnesau arloesedd gweithredol yn ôl gwlad, 2014-16 a 2016-18	77

Ffigur 6.8: Cwmnïau Deillio a Busnesau Newydd fesul 1m o bobl oedran gweithio yn ôl rhanbarth y DU, 2020	78
Ffigur 6.9: Ffynhonnell Cyllid Ecwiti BBaChau, Cymru a'r DU, 2019.....	80
Ffigur 6.10: Gwerth Cyfartalog Benthyciadau Banciau'r Stryd Fawr a Gymeradwywyd i Fusnesau Bach yng Nghymru	81
Ffigur 6.11: Gwerth Benthyciadau Chwarterol gan Fanciau'r Stryd Fawr i BBaChau 2013-19	82
Ffigur 6.12: Gwahaniaeth mewn benthyciadau gros sefydliadau ariannol i fusnesau bach a chanolig y DU rhwng Mai 2019 a Mai 2020, £m yn ôl diwydiant.....	83
Ffigur 6.13: Twf yn nifer y bargeinion ecwiti yn y DU rhwng 2017 a 2019.....	84
Ffigur 6.14: Buddsoddiad ecwiti ehangu yng Nghymru	85
Ffigur 6.15: Buddsoddiad Ecwiti cam cynnar yng Nghymru (cyfartaleddau 3 blynedd)..	86
Ffigur 7.1: Newidiadau yn nhrosiant busnesau sy'n parhau i fasnachu.....	89
Ffigur 7.2: Cyfran y busnesau yn y DU a arolygwyd nad ydynt wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol ac sy'n credu y bydd cronfeydd arian parod eu mentrau yn para llai na 3 mis, yn ôl diwydiant.....	91
Ffigur 7.3: Cyfran y cyflogwyr a roddodd staff ar ffyrlo yn ôl sector, Mehefin 2020 DU..	92
Ffigur 7.4: Yr amser y disgwylir i gronfeydd arian parod bara i BBaChau	94
Ffigur 7.5: Ceisiadau gan y cwmnïau a arolygwyd am becynnau cymorth y llywodraeth i gynorthwyo gydag effeithiau COVID-19	97
Ffigur 7.6: Newid yng ngallu busnesau'r DU i gael gafael ar gyllid.....	98
Ffigur 7.7: Nifer y bargeinion cyfalaf menter yn y DU yn ôl cam cyfalaf menter 2006 i 2012, wedi'u mynegeo i lefelau H1 2008	99
Ffigur 9.1: Cyfraddau Buddsoddi Blynnyddol Diwygiedig yn GCC (£m).....	125

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
BBLS	Cynllun Benthyciad Adfer
BDC	Banc Datblygu Cymru
BICS	Arolwg o Effeithiau COVID-19 ar Fusnesau
CBILS	Cynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes yn Sgil y Coronafeirws
CE	Y Comisiwn Ewropeaidd
CJRS	Y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
CRII	Menter Buddsoddi Mewn Ymateb i'r Coronafeirws
CRII +	Menter Buddsoddi Mewn Ymateb i'r Coronafeirws a Mwy
CWBLS	Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru
DC	Dwyrain Cymru
ERDF	Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
FSB	Ffederasiwn Busnesau Bach
GCC	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
SEISS	Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

1. Crynodeb Gweithredol

Cronfa Busnes Cymru

- 1.1 Mae Cronfa Busnes Cymru yn parhau ag ymrwymiad hirdymor gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd, i ddefnyddio offerynnau ariannol ad-daladwy i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran darparu cyllid busnes allanol i fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar lwyddiant Cronfa JEREMIE Cymru a oedd ar waith yn ystod y cyfnod 2009-15, gan ddarparu cyllid i fusnesau cam cynnar a busnesau'n seiliedig ar dwf ledled Cymru a sicrhau buddion economaidd sylweddol.
- 1.2 Mae Cronfa Busnes Cymru wedi'i rhannu'n bedwar gweithrediad wedi'u diffinio gan ddaearyddiaethau dwy raglen ERDF 2014-20 yng Nghymru (rhaglen Dwyrain Cymru a rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a ffocws buddsoddi thematig y rhaglenni hyn. Mae'r ffocws buddsoddi yn ymwneud â darparu cyllid ar gyfer:
- Dechrau busnesau ac ehangu busnesau (Amcan Penodol 2.1 Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau)
 - BBaChau sy'n canolbwyntio ar Arloesi ac Ymchwil a Datblygu sy'n fusnesau cam cynnar ac sy'n canolbwyntio ar dwf (Amcan Penodol 2.5 Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau).
- 1.3 Felly mae gwerth buddsoddiad y gronfa ddiwygiedig yn £181m, wedi'i rannu'n £55.4m a £125.5m rhwng Dwyrain Cymru (DC) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC), ac £88.5m a £92.5m rhwng cyllid benthyciad a chyllid ecwiti.

Rhan A - Asesiad o'r Farchnad

Perfformiad Cronfa Busnes Cymru

- 1.4 Mae perfformiad buddsoddi cyffredinol Cronfa Busnes Cymru wedi bod yn gryf yn gyffredinol, gan ragori fwy nag 20% ar ei tharged buddsoddi hyd yma. Mae'r Gronfa wedi perfformio'n dda yn ardal DC lle y bu galw mawr am gyllid dyled ac ecwiti, ac mae'r gronfa gyfan bron wedi'i buddsoddi'n llawn. Fodd bynnag, cafwyd rhai problemau o ran perfformiad buddsoddi yn ardal GCC lle mae'r gyfradd buddsoddiadau ecwiti yn is na'r gyfradd yn y cynllun cyflawni. Mae

oddeutu £46m o ecwiti ar ôl i'w fuddsoddi yn ardal GCC dros y tair blynedd nesaf er mwyn cyflawni'r gyfradd fuddsoddi (sy'n cyfateb i £15m y flwyddyn).

- 1.5 Mae'r perfformiad ariannol wedi bod yn gryf ar y cyfan, gyda'r cyfraddau diffygddalu yn gyson is na'r cyfraddau a ragamcanwyd. Fodd bynnag, o ystyried COVID-19 mae hyn wedi codi'n sydyn dros y chwarter diwethaf gan fod BDC wedi creu darpariaethau ar gyfer buddsoddiadau yr ystyrir eu bod mewn perygl mawr. Y gyfradd ddiffygddalu yw 7%.
- 1.6 Mae'r perfformiad o ran datblygiad economaidd wedi bod yn gryf ar y cyfan, ond mae'r gronfa ar ei hôl hi o ran ei tharged creu swyddi hyd yma. Gellid priodoli peth o'r tanberfformiad hwn i'r oedi sy'n gysylltiedig â chasglu data gan fusnesau y buddsoddwyd ynddynt, yn hytrach na dim ond perfformiadau datblygu economaidd gwael o fuddsoddiadau.

Perthnasedd Parhaus a Chysondeb - Cyd-destun Polisi

- 1.7 Mae'r datblygiadau polisi allweddol yn y DU yn canolbwyntio ar Strategaeth Ddiwydiannol sy'n cydnabod yr angen i wella mynediad at gyllid i BBaChau.
- 1.8 Yng Nghymru, mae blaenoriaethau polisi yn canolbwyntio ar fodel datblygu economaidd mwy rhanbarthol, gyda phwyslais ar nifer llai o sectorau trawsbynciol, thematig, ac ymrwymiad i gefnogi'r economi sylfaen. Bydd mynediad at gyllid twf yn dal i fod yn ofynnol ar gyfer yr holl flaenoriaethau hyn.
- 1.9 Mae ymadawiad y DU o'r UE hefyd yn ddatblygiad polisi allweddol. Er ei bod yn dal yn aneglur pa flaenoriaethau buddsoddi a dull dyrannu adnoddau a fydd yn cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth y DU ar ôl Brexit, mae cystadleurwydd BBaChau a mynediad at gyllid yn debygol o barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.
- 1.10 Mae COVID-19 wedi sbarduno ymateb sylweddol gan lywodraethau'r UE, y DU a Chymru i helpu i liniaru'r effaith. Ffocws allweddol yr ymateb hwn fu darparu cymorth ariannol i BBaChau (e.e. y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, y Gronfa Cadernid Economaidd, y Cynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes yn Sgil y Coronafeirws (CBILS), Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru (CWBLs)).

- 1.11 Mae gan BDC gryn afael ar yn y farchnad a phresenoldeb ynddi. Ar hyn o bryd mae'n gyfrifol am 17 o gronfeydd gyda chyfanswm gwerth o fwy na £650m ac mae wedi chwarae rhan allweddol yn ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, gan gyflwyno Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru gwerth £100m.

Perthnasedd Parhaus a Chysondeb - Cyd-destun Economaidd

- 1.12 Cyn COVID-19, gwelwyd twf cymharol gryf mewn allbwn, cynhyrchiant, a nifer y busnesau yn economi Cymru, ond roedd y cyfraddau twf yn dal i fod yn is na chyfartaledd y DU. Fodd bynnag, mae'r pandemig COVID-19 wedi taflu economi'r byd i sefyllfa ddigynsail. Yn fyd-eang, mae Diweddariad Cronfa Ariannol Ryngwladol yr IMF o'r Rhagolwg Byd-eang yn rhagweld y bydd twf mewn allbwn yn gostwng i -4.9% yn 2020. Yn y DU, mae cynnyrch domestig gros wedi gostwng bron 20% rhwng mis Mawrth a mis Mai.
- 1.13 Ochr yn ochr â cholledion sylweddol mewn allbwn, bu cynnydd sylweddol mewn diweithdra - yng Nghymru gwelwyd cynnydd o 95% yn nifer yr hawlwyd rhwng mis Mawrth a mis Mehefin (gyda 117,000 o hawlwyd erbyn mis Mehefin).
- 1.14 O ystyried y sefyllfa ddynamig iawn gyda COVID-19, mae'n anodd bod yn fanwl gywir ynghylch effaith economaidd COVID-19 hyd yn hyn. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, mae cryn ansicrwydd ynghylch lefelau'r allbwn yn y dyfodol. Y consensws ymhlith llawer o ddarogawyr economaidd yw ei bod yn annhebygol y bydd yr economi'n adfer yn gyflym i'r un lefel ag yr oedd cyn y pandemig (adferiad ar ffurf v). Mae'r senario adfer yn y dyfodol yn dibynnu i raddau ar ddatblygu brechlyn a llacio'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn sgil hynny.
- 1.15 Mae hefyd yn amlwg o'r rhagolygon bod yr heriau i fusnesau yn amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol sectorau. Masnach gyfanwerthu a manwerthu; amaethyddiaeth; adeiladu; a sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol yw'r rhan helaethaf o sylfaen fusnes BBaChau yng Nghymru. Hefyd, mae nifer anghymesur o ficrofusnesau yn parhau i fod mewn sectorau gwerth ychwanegol is, fel amaethyddiaeth, cyfanwerthu a manwerthu.

Asesiad o Farchnad Gyllid BBaChau

- 1.16 Mae'r galw cynyddol, cryf am gyllid dyled (benthyciadau, gorddrafftiau a chardiau credyd) gan BBaChau yng Nghymru yn parhau. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y microfusnesau newydd a'r stoc ohonynt yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- 1.17 Mae perfformiad Cymru'n gryf o ran dangosyddion arloesi, sy'n brocsi ar gyfer y galw am gyllid cam cynnar. Mae hyn yn amrywio yn ôl ardal ofodol o ystyried cyfansoddiad sectoraidd sylfaen fusnes BBaChau. Yn ardal DC, gallai'r galw fod yn uwch, lle mae twf yn cael ei ysgogi gan gwmnïau gwasanaethau proffesiynol. Gallai'r galw fod yn is yn ardal GCC lle mae'r gyfran uchaf o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r meysydd gweithgynhyrchu ac adeiladu.
- 1.18 O ran cyflenwad, gwelwyd gostyngiad ledled Cymru mewn benthyciadau gan fanciau. Mae anghenion cyllid microfusnesau'n cael eu diwallu i raddau helaeth gan fentrau a gefnogir gan y sector cyhoeddus. O ran cyllid ecwiti cam cynnar a cham diweddarach, mae'r data'n dangos bod y farchnad yn aeddfedu, gyda symudiad tuag at drefniadau cyllido mwy o faint i fusnesau ar gamau diweddarach. Yng Nghymru, BDC yw prif ddarparwr benthyciadau ecwiti i BBaChau.
- 1.19 Mae cryn ansicrwydd ynghylch goblygiadau COVID-19 i farchnadoedd cyllid BBaChau. Nid yw llawer o'r effaith wedi'i ategu gan y data eto, ac mae'n ddarlun dynamig i raddau helaeth. Mae hyn yn cael ei ddwysáu ymhellach gan y ffaith bod cynlluniau cymorth y llywodraeth yn dal i fod ar waith ac mae'n ansicr pryd y byddant yn dod i ben (a sut olwg fydd ar y farchnad pan fydd hynny'n digwydd).
- 1.20 Busnesau yng Nghymru sydd wedi dioddef waethaf yn sgil y pandemig, gyda chyfrannau uwch o fusnesau yn nodi colledion mewn trosiant, a'r gyfran uchaf o weithwyr ar ffyrlo o gymharu â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. O ganlyniad, mae busnesau wedi colli cryn dipyn o hyder, a bu newid yn y galw am gyllid allanol yn amrywio o gyllid twf, i gyllid goroesi a chyfalaf gweithio.
- 1.21 Yng Nghymru yr oedd y gyfradd uchaf o ymgeiswyr ar gyfer pecynnau cymorth y llywodraeth, gyda chyfraddau uchel iawn o weithwyr ar ffyrlo a defnydd mawr o grantiau argyfwng. Mae peth tystiolaeth bod banciau'r stryd fawr yn fwy parod i fenthycu o gymharu â dirwasgiad 2008, ond mae pethau dal yn ansicr o ystyried

bod llawer o becynnau cymorth y llywodraeth yn dal i fod ar waith. Gallai buddsoddiad ecwiti cam cynnar yn benodol fod dan fygythiad, gan fod llawer o fuddsoddwyr yn dal eu gafael ar eu cyfalaf buddsoddi neu'n gwneud buddsoddiad dilynol yn eu cwmni presennol. Mae'n bosibl hefyd bod symudiad tuag at gynnig bargeinion sy'n llai o risg i fusnesau sydd ar gam diweddarach.

Goblygiadau i Strategaeth Fuddsoddi Cronfa Busnes Cymru

1.22 Yn seiliedig ar y canfyddiadau yn Rhan A o'r asesiad, mae'r goblygiadau canlynol i strategaeth fuddsoddi Cronfa Busnes Cymru:

- Newid yn y galw am gyllid dyled o gyllid twf i gyfalaf gweithio
- Cynnydd mewn cyfraddau diffygdlu a gostyngiad mewn enillion etifeddiaeth a datblygu economaidd
- Caniatáu rhywfaint o fuddsoddiad cam cynnar ar gyfradd cyd-gyllid is
- Ailddyrannu buddsoddiad ecwiti ar gyfer twf i gyllid dyled yn ardal GCC (£20m- £26m yn gyffredinol)
- Cynyddu swm y cyfalaf buddsoddi yn ardaloedd GCC ac DC (£5m- £10m y flwyddyn yn y ddwy ardal)
- Parhau i ddefnyddio hyblygrwydd o ran ad-daliadau i gynorthwyo busnesau i fenthycu
- Addasu targedau DPA o ystyried y newid mewn amodau economaidd.

1.23 Yn seiliedig ar y goblygiadau hyn, adolygodd BDC y strategaeth fuddsoddi. Adolygir hyn yn Rhan B o'r Rhagasesiad.

Rhan B - Adolygiad o Newidiadau Arfaethedig i'r Strategaeth Fuddsoddi

1.24 Mae'r adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi yn canolbwyntio ar y newidiadau allweddol o gymharu â'r strategaeth fuddsoddi flaenorol a adolygwyd yn niweddariad 2018 o'r rhagasesiad. Mae crynodeb o'n barn am bob un o elfennau allweddol y strategaeth wedi'i amlinellu isod.

Tabl 1.1: Crynodeb o'r Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi

Metrig/Diwygiad	Y Strategaeth Fuddsoddi Flaenorol	Y Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig	Sylwadau Cryno
Cyfalaf Buddsoddi Ychwanegol yn ardal GCC	£125.5m	£140.5m	Wedi'i gyfiawnhau ar sail y galw disgwylidiedig am gyfalaf gweithio a chyllid dyled fel yr amlinellir yn yr asesiad hwn o'r farchnad
Ailddyrannu cyllid yn ardal GCC o ecwiti ar gyfer twf i ddyled	Trosglwyddiad o £25.4m o gyfalaf buddsoddi o ecwiti ar gyfer twf i gyllid dyled		Wedi'i gyfiawnhau ar sail yr asesiad hwn o'r farchnad a natur ddisgwylidiedig y galw am gyllid
Ailddyrannu cyllid yn ardal DC o gyllid dyled i ecwiti	Trosglwyddo £1.6m o gyllid dyled i ecwiti		Nid yw'r asesiad o'r farchnad yn cefnogi'r gwelliant hwn ond gellir cyfiawnhau hyn ar sail ffrwd buddsoddiadau BDC (ynghyd â bargeinion a gwblhawyd ers mis Mawrth 2020)
Cyfradd Fuddsoddi	£4.5m ar ôl i'w fuddsoddi yn ardal DC		Dylai fod yn gyraeddadwy o ystyried y gyfradd buddsoddi hyd yma a'r sianel fuddsoddi yn ardal DC
	£70.5m ar ôl i'w fuddsoddi yn ardal GCC (£17.5m y flwyddyn)		Y gyfradd fuddsoddi ofynnol ar gyfer cyllid dyled yw £13m y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfraddau buddsoddi JEREMIE Cymru a hefyd yr hyn a gyflawnwyd gan y gronfa hyd yma. Ar gyfer ecwiti, y cyfraddau buddsoddi gofynnol yw £3.6m y flwyddyn. Mae hyn yn is na'r cyfraddau a gyflawnwyd hyd yma, a dylai fod yn gyraeddadwy. Hyd yn oed pe bai'r amodau economaidd yn fwy heriol (gan arwain at gwymp yn y galw am ecwiti am weddill y flwyddyn), dylai'r gyfradd hon, er ei bod yn heriol, fod yn gyraeddadwy o hyd.
Cyfradd Dileadau	15% o fenthyciadau 40% o ecwiti	20% o fenthyciadau 40% o ecwiti	Mae'r cyfraddau hyn yn debygol o fod yn heriol i'w cyflawni o ystyried yr amodau economaidd ansicr (yn enwedig ar gyfer ecwiti sydd wedi'i osod yn is nag alldro JEREMIE). Rydym yn argymhell cynllun BDC ar sail y senario mwy pesimistaidd (30% o fenthyciadau a 50% o ecwiti)

Tabl 1.1: Crynodeb o'r Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi

Metrig/Diwygiad	Y Strategaeth Fuddsoddi Flaenorol	Y Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig	Sylwadau Cryno
Swyddi a Gaiff eu Creu	4,208	2,160	Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r tanberfformiad hyd yma o ran y gronfa, a hefyd addasiadau i ystyried y ffaith bod llai o swyddi na'r disgwyl wedi'u creu o ganlyniad i COVID-19. Mae angen ymchwilio'n ofalus i'r rhesymau dros danberfformiad drwy fonitro a gwerthuso, gan fod i hynny oblygiadau i werth am arian y gronfa
Swyddi a Gaiff eu Diogelu	-	1,865	Mae hwn bellach yn DPA craidd, felly nid oedd targed yn y strategaeth fuddsoddi flaenorol. Yn gyffredinol, yn ein barn ni, amcangyfrif ceidwadol yw hwn, o ystyried ei fod yn seiliedig ar berfformiad y gronfa yn y gorffennol a oedd yn is na'r disgwyl, ac mae'r newid yn natur y galw o gyllid twf i gyllid goroesi yn debygol o arwain at ddiogelu rhagor o swyddi.
Nifer y Busnesau sy'n Cael Cymorth	522	488	Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu gwerthoedd buddsoddi cyfartalog uwch na'r disgwyl hyd yma. Byddem yn disgwyl i'r cyfartaledd hwn ostwng (o gofio y disgwylir i'r galw fod am gyfalaf gweithio) ond mae ffrwd buddsoddiadau BDC yn awgrymu y bydd alw am fargeinion mwy yn y tymor byr. Mae angen monitro hyn yn fanwl iawn.
Trosoledd y Sector Preifat	£139m	£333m	Yn adlewyrchu perfformiad uwchlaw'r targed hyd yma. Dylai fod yn gyraeddadwy
Enillion Etifeddiaeth	£99m	£107m (achos sylfaenol) £82m gyda chyfradd dileadau uwch	Mae'r enillion etifeddiaeth yn dibynnu ar y gyfradd dileadau. Mae'r senario achos sylfaenol yn uwch na'r strategaeth fuddsoddi flaenorol o ystyried (yn ein barn ni) rhagdybiaethau cymharol optimistaidd ar gyfer dileadau. O ystyried yr amodau economaidd ansicr a heriol, rydym yn argymhell y dylid defnyddio'r cyfraddau dileadau uwch ar gyfer y rhagolwg etifeddiaeth.

Tabl 1.1: Crynodeb o'r Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi

Metrig/Diwygiad	Y Strategaeth Fuddsoddi Flaenorol	Y Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig	Sylwadau Cryno
Gwerth am Arian	Cost gros fesul swydd = £31,800 Cost Net fesul swydd net = £9,500	Cost gros fesul swydd = £76,800 Cost Net fesul swydd net = £31,700 - £45,100	Mae gostyngiad mewn gwerth am arian yn deillio o ffigurau creu swyddi is o ganlyniad i'r rhesymau a amlinellir uchod (h.y. tanberfformiad hyd yma, addasiadau COVID-19), ynghyd ag enillion etifeddiaeth is oherwydd cyfraddau dileadau uchel. Nid yw hyn yn ystyried manteision cynorthwyo busnesau i oroesi/diogelu busnesau a swyddi. Bydd angen ymchwilio i effaith lawn y gronfa (a gwerth am arian) drwy'r gwerthusiad canol tymor a therfynol.

2. Cyflwyniad

Cronfa Busnes Cymru

- 2.1 Mae Cronfa Busnes Cymru yn parhau ag ymrwymiad hirdymor gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd, i ddefnyddio offerynnau ariannol ad-daladwy i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran darparu cyllid busnes allanol i BBaChau yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar lwyddiant Cronfa JEREMIE Cymru a oedd ar waith yn ystod y cyfnod 2009-15, gan ddarparu cyllid i fusnesau cam cynnar a busnesau'n seiliedig ar dwf ledled Cymru a sicrhau buddion economaidd sylweddol.
- 2.2 Mae Cronfa Busnes Cymru wedi'i rhannu'n bedwar gweithrediad wedi'u diffinio gan ddaearyddiaethau dwy raglen ERDF 2014-20 yng Nghymru (rhaglen Dwyrain Cymru a rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a ffocws buddsoddi thematig y rhaglenni hyn. Mae'r ffocws buddsoddi yn ymwneud â darparu cyllid ar gyfer:
- Dechrau busnesau ac ehangu busnesau (Amcan Penodol 2.1 Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau)
 - BBaChau sy'n canolbwyntio ar Arloesi ac Ymchwil a Datblygu sy'n fusnesau cam cynnar ac sy'n canolbwyntio ar dwf (Amcan Penodol 2.5 Echel Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau).
- 2.3 Cynigiwyd Cronfa Busnes Cymru i ddechrau fel cronfa £136m yn dilyn y rhagasesiad gwreiddiol. Yna adolygwyd y cynllun busnes i ystyried £45m ychwanegol o ganlyniad i argaeledd grant ERDF ychwanegol. Cafwyd £35m o'r swm hwn i ddechrau yn 2018 a £10m y flwyddyn ganlynol.
- 2.4 Felly mae gwerth buddsoddi'r gronfa ddiwygiedig yn £181m, wedi'i rannu'n £55.4m a £125.5m rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac £88.5m a £92.5m rhwng cyllid benthygiad a chyllid ecwiti.

Tabl 2.1: Dyroniadau Cronfa Busnes Cymru

	Contract ERDF gwreiddiol	Cynllun Busnes Diwygiedig
DC	45.1	55.4 (+23%)
<i>Benthyciad</i>	30.2	27.9 (-8%)
<i>Ecwiti</i>	14.9	27.5 (+85%)
GCC	90.8	125.5 (+38%)
<i>Benthyciad</i>	34.7	60.6 (+75%)
<i>Ecwiti</i>	56.1	64.9 (+16%)
Cyfanswm	135.9	180.9 (+33%)
<i>Benthyciad</i>	64.9	88.5 (+36%)
<i>Ecwiti</i>	71	92.4 (+30%)

Ffynhonnell: Diweddariad o'r Rhagasesiad o Gronfa Busnes Cymru, 2018 (Saesneg yn unig)

Noder: Mae'r gostyngiad yn nyroniad y benthyciad yn ardal DC yn deillio o ailbroffilio cyllid (ychwanegu cyllid ERDF a gostyngiad mewn Cyfalaf Trafodion Ariannol ac etifeddiaeth).

Canfyddiadau Rhagasesiadau 2016 a 2018

- 2.5 Darparodd y rhagasesiad gwreiddiol o Gronfa Busnes Cymru asesiad manwl o'r farchnad yn seiliedig ar:
- Ddadansoddiad o'r cyd-destun economaidd a pholisi
 - Dadansoddiad manwl o'r galw a'r cyflenwad mewn perthynas â chyllid a'r dystiolaeth o fwch yn y cyllid
 - Ymgynghoriad helaeth i lywio'r elfennau uchod o weithgaredd ac i brofi opsiynau a chynigion manwl
 - Adolygiad o'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth werthuso i lywio asesiad o arfer da mewn cyllid busnes a gefnogir gan y sector cyhoeddus.
- 2.6 Cadarnhaodd yr asesiad o'r farchnad fod methiannau yn y farchnad o ran cyllid dyled ac ecwiti yn parhau, er bod natur y methiannau hyn yn y farchnad yn amrywio i ryw raddau rhwng camau datblygu busnesau a'r math o gyllid. Daeth i'r casgliad hefyd fod y modd y mae methiannau yn y farchnad yn cyfyngu ar y cyflenwad o gyllid busnes wedi dwysáu'n sylweddol yn sgil yr argyfwng ariannol byd-eang a'r dirwasgiad ar ddechrau'r degawd diwethaf.
- 2.7 Cyfeiriodd yr asesiad gwreiddiol at fuddsoddiad mewn BBaChau Cymru o rhwng £24m a £32m y flwyddyn neu £120m i £160m dros bum mlynedd (ac eithrio cyllid dyled ar gyfer microfusnesau) a daeth i'r casgliad fod y gronfa arfaethedig

o £136m wedi'i chyfiawnhau a'i chefnogi'n briodol gan y strategaeth fuddsoddi. Fodd bynnag, nododd fod cadernid a phriodoldeb parhaus y casgliad hwn yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys: amodau cyffredinol y farchnad; datrys unrhyw ansicrwydd sy'n parhau ynghylch y rheolau cymhwysra i BBaChau; a'r proffil risg ac enillion a fabwysiadwyd yn ymarferol yn ystod y cyfnod buddsoddi (gan gydnabod y gall y cydbwysedd rhwng risg a gwobr amrywio o fewn canllawiau gweithredu'r strategaeth fuddsoddi).

- 2.8 Ystyriodd y rhagasesiad wedi'i ddiweddarau a gynhaliwyd yn 2018 y cyfiawnhad dros y cynnydd ym maint y gronfa i £181m. Ysgogwyd y diweddariad hwn gan gyfradd fuddsoddi uwch na'r disgwyl, cyfraddau buddsoddi gofodol gwahanol rhwng ardaloedd DC a GCC, a chynigion ar y pryd i addasu'r rhaglen ERDF. Daeth i'r casgliad fod cyfiawnhad dros gynyddu maint y gronfa o ystyried y dystiolaeth ynghylch y farchnad, gan gynnwys methiannau yn y farchnad, a'r diwygiadau yn y strategaeth fuddsoddi. Fodd bynnag, nododd yr heriau posibl o gyflawni'r lefel arfaethedig o fuddsoddiad yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd y rhaglen, yn ogystal â'r lefel ddisgwyliedig o gydfuddsoddi ar gyfer buddsoddiad ecwiti ar draws dwy ardal y rhaglen. Yn ogystal, nododd fod yr un amlygiad i risgiau ac ansicrwydd ag a nodwyd yn y rhagasesiad gwreiddiol yn dal i fod yn berthnasol.

Y Sail Resymegol dros Ragasesiad wedi'i Ddiweddarau

Effaith COVID-19

- 2.9 Mae COVID-19 wedi creu nifer o heriau mawr i BBaChau yng Nghymru gyda llawer ohonynt wedi gorfod cau yn ystod y cyfyngiadau symud. Er bod eraill wedi parhau i weithredu, maent wedi wynebu galw sylweddol is, yn ogystal â llw o broblemau'n ymwneud â'u cadwyni cyflenwi a darparu gwasanaethau/cynnyrch. Er bod Llywodraethau'r DU a Chymru wedi gallu cynorthwyo llawer o fusnesau drwy drefniadau hyblyg (e.e. rhent, ardrethi busnes, gostyngiad dros dro mewn trethi busnes), y Cynllun Cadw Swyddi a chyfuniad o grantiau a benthyciadau, byddant serch hynny yn parhau i wynebu problemau mawr o ran masnachu a llif arian.
- 2.10 Yn y tymor byr, mae'r sefyllfa'n dyngedfennol. Mae busnesau wedi nodi bod y Cynllun Cadw Swyddi a phecynnau cymorth eraill wedi helpu i liniaru rhai o'r

effeithiau hyn dros dro. Fodd bynnag, mae llawer o berchnogion busnes yn nodi y bydd diswyddiadau yn anochel ar ôl i'r mesurau cymorth dros dro ddod i ben. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, fodd bynnag, mae busnesau eraill mewn rhai sectorau wedi gallu addasu'n gymharol dda i'r amgylchedd newydd, gan gynnwys elwa o'r galw ychwanegol am fathau penodol o nwyddau a gwasanaethau y mae'r argyfwng wedi'u cynhyrchu.

2.11 Mae gan hyn y potensial i effeithio ar Gronfa Busnes Cymru mewn sawl ffordd:

- Mae'r gronfa wedi perfformio'n dda hyd yma gyda chyfraddau buddsoddi cryf, cyfraddau ad-dalu da a chyfraddau diffygdlu isel. Bydd mwy o fethiannau a phroblemau'n ymwneud â llif arian ymhlith cwmnïau portffolio yn cael effaith negyddol ar ad-daliadau ac enillion ar fuddsoddiad, yn ogystal â'r hyblygrwydd a gynigir gan BDC o ran gohirio ad-daliadau ar fenthyciadau.
- Bydd llawer o fusnesau portffolio benthyciadau ac ecwiti presennol Cronfa Busnes Cymru yn symud eu ffocws o dwf i oroesi, gyda rhai yn chwilio am hwb ariannol (a hyblygrwydd) ychwanegol gan y Banc Datblygu, yn ogystal â gohirio buddsoddiadau busnes mawr. Bydd hyn, yn ei dro, yn effeithio ar amseriad enillion cyfalaf ac incwm llog i'r gronfa, yn ogystal ag ar nifer y swyddi a gaiff eu creu wrth i gwmnïau symud i'r modd goroesi.
- Efallai y bydd patrwm y galw am gyllid o Gronfa Bunses Cymru yn newid o fuddsoddiad ecwiti i gyllid dyled (a fydd yn golygu y bydd y targed ecwiti, sydd eisoes yn heriol, yn fwy heriol byth).

Hyblygrwydd Ychwanegol

2.12 Mae diweddaru'r rhagasesiad yn un o ofynion eitem 9f) Erthygl 32 y Rheoliad Darpariaethau Cyffredin. Yn fwy penodol, argymhellodd y Rhagasesiad ar gyfer Cronfa Busnes Cymru y dylid craffu ar y model ariannol a'r strategaeth fuddsoddi yn rheolaidd, gan gynnwys diweddaru'r asesiad o'r farchnad ac adolygu'r strategaeth fuddsoddi mewn ymateb i newidiadau yn y farchnad neu newidiadau polisi os yw'n briodol.

2.13 Mae hyblygrwydd o fewn rheoliadau Menter Buddsoddi mewn Ymateb i'r Coronafeirws (CRII) sy'n llacio'r gofynion i ddiweddaru'r rhagasesiad os gwneir

newidiadau penodol i'r Offerynnau Ariannol presennol er mwyn mynd i'r afael ag ymateb ar unwaith i'r argyfwng iechyd cyhoeddus. Fodd bynnag, mae posibilrwydd o ad-drefnu rhywfaint o gyllid ERDF o dan Amcan Blaenoriaeth 2, y gellid ei ddyrannu i Gronfa Busnes Cymru yn dibynnu ar gasgliad yr asesiad hwn. Gan y gallai hyn fod gyfystyr a newid sylweddol yn ffocws y Gronfa, mae angen adolygiad i sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn seiliedig ar dystiolaeth.

Gofynion Asesu

2.14 Nod trosfwaol yr adolygiad hwn yw asesu a yw **Strategaeth Fuddsoddi Cronfa Busnes Cymru, ar ei ffurf bresennol, yn parhau i fod yn addas at y diben** yng ngoleuni effaith COVID-19. O gofio hyn, mae angen i'r asesiad ystyried y pwyntiau penodol a ganlyn:

- Ai ffocws Cronfa Busnes Cymru yw'r ffocws gorau posibl? Mae angen i hyn gael ei lywio gan ddadansoddiad o farchnad gyllid BBaChau i asesu a oes unrhyw gynnydd yn y methiannau yn y farchnad neu'r bylchau yn y ddarpariaeth o gyllid i BBaChau neu fethiannau neu fylchau ychwanegol. Mae angen iddo ystyried:
 - A yw'r math o gyllid a gynigir, a'r ystod o ddibenion y mae'n cael eu defnyddio ar eu cyfer, yn dal i fod yn briodol? Gallai hyn fod yn gyllid dyled, ecwiti neu gymorth grant, neu gyfuniad o'r rhain, yn ogystal â'r graddau y gall Cronfa Busnes Cymru ariannu cyfalaf gweithio.
 - A yw'r gronfa'n targedu'r cam priodol o ddatblygiad busnes a'r math o fusnes? Mae'r gronfa wedi canolbwyntio ar fusnesau twf, ond gallai hefyd newid ei ffocws i flaenoriaethu goroesiad busnesau ac i gefnogi unig fasnachwyr.
 - A yw telerau'r fargen yn dal i fod yn briodol? Mae angen i hyn ystyried gallu BBaChau i ad-dalu cyllid ychwanegol ar delerau cyfredol neu a oes angen adolygu'r telerau hyn yn y dyfodol.
- A yw maint y cyllid a gynigir gan Gronfa Busnes Cymru yn briodol? Mae hyn yn canolbwyntio ar faint cyffredinol Cronfa Busnes Cymru ac mae

angen iddo ystyried cymorth ariannol newydd a phresennol sydd ar gael ledled Cymru, y DU ac Ewrop.

- A oes angen rhagor o gyllid ar gyfer Cronfa Busnes Cymru? Mae angen i'r asesiad ddod i gasgliad ynghylch a oes cynnydd yn y galw am gyllid gan BBaChau (yn enwedig gan fod yr opsiynau cyllido mewn argyfwng sydd ar waith ond ar ggael am gfnod penodol), ai Cronfa Busnes Cymru yw'r mecanwaith cywir i gyflawni'r cynnydd hwn mewn benthyciadau i BBaChau, gallu BBaChau i ysgwyddo rhagor o gyllid.
- A oes angen llai o gyllid? Mae ffynonellau cyllid eraill ar gael (er mai dim ond am gyfnod penodol y byddant ar gael o bosibl) ac, fel yr amlinellir uchod, gall gallu BBaChau i ysgwyddo unrhyw gyllid allanol ychwanegol fod yn gyfyngedig. Hefyd, gallai uchelgeisiau'r busnesau (canolbwyntio ar oroesi yn hytrach na thwff neu ehangu) arwain at lai o alw am gyllid allanol.
- A yw'r DPA yn briodol o ystyried yr amodau economaidd? Mae DPA cyfredol y gronfa ar gyfer datblygu economaidd yn canolbwyntio ar dwf busnes (o ystyried nodau a blaenoriaethau Cronfa Busnes Cymru ar yr adeg y cafodd ei sefydlu), ond gall yr amodau presennol olygu bod angen adolygu'r targedau cyfredol a chyflwyno dangosyddion eraill (e.e. megis swyddi a gaiff eu diogelu, busnesau sy'n goroesi, nifer yr unig fasnachwyr a gefnogir ac ati).

2.15 Ar sail yr uchod, mae angen i'r asesiad ddarparu argymhellion ynghylch a ddylid mabwysiadu unrhyw newidiadau i'r strategaeth fuddsoddi gyfredol. Dylai hyn gynnwys manyleb y canlyniadau disgwyledig y byddai hyn yn eu cyflawni o ran:

- Yr effaith ar ragolygon cyfredol ar gyfer enillion o fewn ystod o senarios.
- Yr effaith ar ragolygon cyfredol ar gyfer DPA o fewn ystod o senarios.
- Cyfraniad at amcanion sy'n flaenoriaeth ar gyfer Cronfa Busnes Cymru a rhaglenni ERDF gan gynnwys ystyried yr allbynnau newydd a osodwyd gan y Comisiwn mewn ymateb i COVID-19.

Cafeatau Pwysig o ran yr Asesiad

2.16 Mae angen cofio nifer o ffactorau wrth gynnal y rhagasesiad, sy'n canolbwyntio ar ddelio â'r ansicrwydd a achosir gan COVID-19:

- Mae cryn ansicrwydd o ran y modd y bydd COVID-19 yn effeithio ar berfformiad, rhagolygon ac, yn y pen draw, goroesiad BBaChau. Bydd yn dibynnu'n fawr ar lwyddiant yr ymateb i'r pandemig, yn ogystal â dyfnder y dirwasgiad a'r adferiad economaidd dilynol. Mae rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos yn glir natur ddofn a hirfaith bosibl yr effeithiau hyn.
- Dim ond dros gyfnod hwy y bydd effaith dirwasgiad ar gyflenwi cyllid yn dod i'r amlwg, wrth i fanciau a buddsoddwyr ymateb i risg uwch a mwy o ansicrwydd drwy newid eu hymddygiad benthyca a'u prisiau mewn ymateb i risg uwch (er bod hyn yng nghyd-destun cyfraddau llog isel yn hanesyddol). Nid yw'n glir ar hyn o bryd a oes potensial ar gyfer gwasgfa gredyd yn y dyfodol.
- Ni fydd y newidiadau mewn amodau economaidd a'r cyllid galw a chyflenwad wedi dod i'r amlwg mewn llawer o setiau data eto ac felly bydd angen edrych ar ddangosyddion blaenllaw hefyd (er y bydd perthnasedd a chadernid ystadegol y rhain yn amrywio).
- Mae llawer o'r mesurau cymorth ariannol a roddwyd ar waith ar gyfer BBaChau yn rhai sydd ond yn para am gyfnod penodol, ond mae'n bosibl y bydd y rhain yn cael eu disodli gan fesurau tymor hwy maes o law.
- Er bod canllawiau'r rhagasesiad yn ceisio mesur y bwlch cyllid, mae'n her mesur maint a natur y bwlch sydd i'w brodoli i fethiant y farchnad yn fanwl gywir ac yn yr un modd y newid ym maint a natur y bwlch hwn oherwydd newidiadau yn yr amodau economaidd ac amodau'r farchnad. O'r herwydd, mae gwneud argymhellion ynghylch y maint a'r math gorau o ymyrraeth gan y sector cyhoeddus hefyd yn her. Un o'r prif resymau am hyn yw nad yw'r bwlch cyllid yn uniongyrchol weladwy a'i fod hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y ffaith bod y sector cyhoeddus ei hun yn ffafrio cydbwysu risg ac enillion (ariannol a datblygiad economaidd) mewn ymateb i sioc economaidd.

- Mae angen i'r broses o brofi unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strategaeth fuddsoddi fod yn broses ailadroddol gyda BDC a Llywodraeth Cymru yn rhan ohoni. Er y bydd yr asesiad o'r farchnad wedi'i ddiweddaru yn darparu tystiolaeth bwysig i lywio'r broses o ddiweddaru'r strategaeth, BDC sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu'r cynigion penodol. Rôl y rhagasesiad yw profi priodoldeb ac effaith y newidiadau hyn o safbwynt busnesau, economi a chymdeithas Cymru.

Cwmpas yr Adroddiad

2.17 Mae'r adroddiad yn ymdrin â:

- Rhan A: Diweddariad o'r Asesiad o'r Farchnad
 - Dadansoddiad o berfformiad Cronfa Busnes Cymru hyd yma, gan edrych ar berfformiad buddsoddi, ariannol a datblygiad economaidd
 - Asesiad i benderfynu a yw ffocws cyfredol Cronfa Busnes Cymru yn dal i fod yn gyson â blaenoriaethau'r polisi datblygu economaidd
 - Asesiad o'r perfformiad economaidd yng Nghymru, gan gynnwys trosolwg o effaith COVID-19 a senarios ar gyfer adferiad yn y dyfodol
 - Asesiad o'r galw a'r cyflenwad o gyllid BBaChau hyd at ddechrau 2020.
 - Asesiad o'r effaith sy'n dod i'r amlwg yn sgil COVID-19 ar y galw a'r cyflenwad am gyllid i BBaChau
 - Goblygiadau unrhyw newidiadau i bolisiâu, yr economi a marchnadoedd cyllid BBaChau i Gronfa Busnes Cymru
- Rhan B: Adolygiad o Newidiadau Arfaethedig i'r Strategaeth Fuddsoddi
 - Asesiad o'r newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth Fuddsoddi, gan ganolbwyntio ar berthnasedd, cysondeb a phriodoldeb parhaus y Strategaeth Fuddsoddi ac felly'r contract ERDF

RHAN A - Diweddariad o'r Asesiad o'r Farchnad

3. Perfformiad Cronfa Busnes Cymru

Pwyntiau allweddol

- Mae perfformiad buddsoddi cyffredinol Cronfa Busnes Cymru wedi bod yn gryf, gan ragori mwy nag 20% ar ei tharged buddsoddi hyd yma.
- Mae'r Gronfa wedi perfformio'n dda yn ardal DC lle y bu galw mawr am gyllid dyled ac ecwiti, ac mae'r gronfa gyfan bron wedi'i buddsoddi'n llawn.
- Cafwyd rhai problemau gyda pherfformiad buddsoddi yn ardal GCC lle mae'r gyfradd buddsoddi ecwiti yn is na'r gyfradd yn y cynllun cyflawni. Mae oddeutu £46m o ecwiti ar ôl i'w fuddsoddi yn ardal GCC dros y tair blynedd nesaf er mwyn cyflawni'r gyfradd fuddsoddi (sy'n cyfateb i £15m y flwyddyn).
- Mae'r perfformiad ariannol wedi bod yn gryf ar y cyfan, gyda'r cyfraddau diffygdlu yn gyson is na'r cyfraddau a ragamcanwyd. Fodd bynnag, o ystyried COVID-19 mae hyn wedi codi'n sydyn dros y chwarter diwethaf gan fod BDC wedi creu darpariaethau ar gyfer buddsoddiadau yr ystyrir eu bod mewn perygl mawr. Y gyfradd ddiffygdlu yw 7%.
- Mae'r perfformiad o ran datblygiad economaidd wedi bod yn gryf ar y cyfan, ond mae'r gronfa ar ei hôl hi o ran ei tharged creu swyddi hyd yma. Gellid priodoli peth o'r tanberfformiad hwn i'r oedi sy'n gysylltiedig â chasglu data gan fusnesau y buddsoddwyd ynddynt, yn hytrach na dim ond perfformiadau datblygu economaidd gwael o fuddsoddiadau.

Perfformiad Buddsoddi

Addasiadau i'r Cynllun Busnes


- 3.1 Gwnaed cyfres o addasiadau i Gronfa Busnes Cymru, yn ymwneud â'i maint, ffynonellau cyllid a phroffil y cyllid ers iddi gael ei lansio'n wreiddiol. Cynigiwyd Cronfa Busnes Cymru yn gronfa £136m i ddechrau yn dilyn y Rhagasesiad gwreiddiol. Ym mis Awst 2016, rhyddhawyd mwy o arian ERDF o fewn Blaenoriaeth 2 ac yn sgil hynny penderfynodd WEFO a Cyllid Cymru drafod yr opsiwn o gynyddu maint y gronfa.

- 3.2 O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, addaswyd y cynllun busnes i gynnwys £45m o gyllid ychwanegol ERDF. Cadarnhawyd £35m o'r cyllid ERDF ychwanegol hwn ym mis Rhagfyr 2016 (£30m GCC, £5m DC), gan gynyddu cyfanswm y gronfa i £170.9m.
- 3.3 Ym mis Rhagfyr 2018, cafwyd y £10m ychwanegol o gyllid ERDF, a disodlwyd y cyllid etifeddiaeth o £13m gyda chyllid ERDF. Cynyddodd hyn gyfanswm y gronfa i £180.9m, gyda'r proffil cyflawni a thargedau cysylltiedig yn cael eu hadolygu yn unol â hynny.
- 3.4 Mae 30.6% (£55.4m) o'r gronfa ddiwygiedig wedi'i ddyrannu i ardal DC a 69.4% (£125.5m) wedi'i ddyrannu i GCC gyda 49% (£88.5m) yn gyllid dyled a 51% (£92.5m) yn gyllid ecwiti.

Cyfradd Buddsoddi Gyffredinol Gref Hyd Yma

- 3.5 Mae Cronfa Busnes Cymru wedi gwneud cynnydd cryf hyd yn hyn, gan ragori ar broffil cyflawni'r Cynllun Busnes ar gyfer nifer y cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt a'r swm a fuddsoddwyd. Erbyn mis Mawrth 2020 (y ffigurau diweddaraf a ddarparwyd), roedd wedi buddsoddi mewn 283 o gwmnïau yn erbyn targed o 278, gan fuddsoddi £120.9m, yn erbyn targed o £100m. Mae'r gyfradd buddsoddi gyffredinol hon 21% yn uwch na'r proffil.


Ffigur 3.1: Nifer a Gwerth Buddsoddiadau yng Nghymru, Ch3 2016 i Ch1 2020



Ffynhonnell: Pro-Forma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2020


3.6 Dengys FfigurFfigur 3.2 a Ffigur 3.3 fuddsoddiad chwarterol yn ôl rhanbarthau DC a GCC yn erbyn proffil y Cynllun Busnes.

Ffigur 3.2: Gwerth y Buddsoddiadau yn ardal DC, Ch3 2016 i Ch1 2020



Ffynhonnell: Proffil Data Perfformiad a Phroffil Cyflawni Cronfa Busnes Cymru
 Noder: O Ch2 2018 mae gwerthoedd y Cynllun Busnes yn seiliedig ar Ddiweddariad o Strategaeth Fuddsoddi 2018

Ffigur 3.3: Gwerth y Buddsoddiadau yn ardal GCC, Ch3 2016 i Ch1 2020



Ffynhonnell: Proffil Data Perfformiad a Phroffil Cyflawni Cronfa Busnes Cymru
 Noder: O Ch2 2018 mae gwerthoedd y Cynllun Busnes yn seiliedig ar Ddiweddariad o Strategaeth Fuddsoddi 2018

3.7 Dengys Tabl 4.1 isod y gyfradd fuddsoddi flynyddol gyffredinol gref a gyflawnwyd hyd yma.

- Mae'r gronfa wedi perfformio'n arbennig o dda yn ardal DC ar gyfer cyllid dyled a chyllid ecwiti gyda chyfraddau buddsoddi cyfartalog blynyddol yn uwch na'r cynllun cyflawni.
- Mae'r gronfa wedi perfformio'n dda yn ardal GCC o ran cyllid dyled, gan gyflawni cyfradd fuddsoddi gyfartalog flynyddol sy'n uwch na'r cynllun cyflawni.
- Mae'r gyfradd buddsoddi ecwiti flynyddol yn gyffredinol yn is na chyfartaledd blynyddol y cynllun cyflawni, wedi'i ysgogi gan ddiffyg yn yr ecwiti blynyddol a fuddsoddir yn GCC.

3.8 Dylid nodi nad yw'r cyfartaleddau blynyddol a gyflwynir yn y tabl isod yn ystyried y cynnydd a ragwelir yn y gyfradd fuddsoddi flynyddol yn nes ymlaen yn y cyfnod buddsoddi (yn enwedig ar gyfer buddsoddiadau ecwiti), y mae BDC wedi'u proffilio yn ei gynllun cyflawni.

Tabl 3.1: Cyfraddau Buddsoddi Blynyddol Cronfa Busnes Cymru (erbyn Ch1 2020, £m)


	Cyfanswm y Buddsoddiad (hyd yma)	Buddsoddiad Blynyddol (hyd yma)	Cyfartaledd Blynyddol y Cynllun Cyflawni	Amrywiant
DC	50.9	13.6	7.9	+5.7
<i>Dyled</i>	23.3	6.2	4.0	+2.2
<i>Ecwiti</i>	27.7	7.4	3.9	+3.5
GCC	70.0	18.7	17.9	+0.8
<i>Dyled</i>	51.4	13.7	8.7	+5.0
<i>Ecwiti</i>	18.6	5.0	9.3	-4.3
Cyfanswm	120.9	32.2	25.8	+6.4
<i>Dyled</i>	74.7	19.9	12.6	+7.3
<i>Ecwiti</i>	46.3	12.3	13.2	-0.9

Ffynhonnell: Pro-Forma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, Adroddiadau Monitro a Phroffil Cyflawni Cronfa Busnes Cymru ym mis Gorffennaf 2020

Mae Buddsoddiad wedi Amrywio yn ôl Sector

3.9 O'r £120.9m a fuddsoddwyd hyd yma, mae'r rhan fwyaf (62%) wedi'i fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu, a'r sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

Ffigur 3.4: Gwerth (£m) a chyfran y Buddsoddiad, yn ôl Sector erbyn Ch1 2020



Ffynhonnell: Adroddiadau Monitro Cronfa Busnes Cymru


Noder: Mae sectorau sy'n cyfrif am <1% o fuddsoddiad hyd yma wedi'u grwpio gyda'i gilydd o dan "Arall", sy'n cynnwys trydan, nwy, stêm ac awyru, mwyngloddio a chwarela, addysg a gwasanaethau eraill.

3.10 O'r 283 o fentrau sydd wedi cael buddsoddiad hyd yma, mae 20% (57 o gwmnïau) yn gweithredu yn y sector gweithgynhyrchu, 13% (36 o gwmnïau) yn y meysydd gwybodaeth a chyfathrebu ac 13% (37) mewn gweithgareddau gwyddonol a thechnegol proffesiynol. Mae llety a bwyd (30 o gwmnïau) a chyfanwerthu a manwerthu (29 o gwmnïau) hefyd yn cyfrif am gyfran fawr o'r cwmnïau sydd wedi cael buddsoddiad hyd yma (21% ar draws y ddau sector).

Mae'r Gyfran Uchaf o Fuddsoddiad yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin a Gogledd Port Talbot

3.11 Yr awdurdod lleol sydd wedi cael y buddsoddiad mwyaf hyd yma yw Caerdydd, gyda buddsoddiad o £23.1m ar draws 51 o fentrau (19% o'r holl fuddsoddiad), ac yna Sir Gaerfyrddin (£12.7m) a Chastell-nedd Port Talbot (£10.1m).

Ffigur 3.5: Cyfran o Gyfanswm y Buddsoddiad fesul Awdurdod Lleol, erbyn Ch1 2020




Ffynhonnell: Adroddiadau Monitro Cronfa Busnes Cymru

- 3.12 Gan edrych ar y buddsoddiad hyd yma fesul 10,000 o Bobl Oedran Gweithio, Castell-nedd Port Talbot sydd wedi cael y buddsoddiad mwyaf hyd yma (£1.15m fesul 10,000 o Bobl Oedran Gweithio), ac yna Sir Gaerfyrddin (£1.14m) a Chaerdydd (£0.94m).

Cyfradd Is o Fuddsoddiad Ecwiti yn GCC

- 3.13 Roedd y Cynllun Busnes yn rhagweld rhaniad o 49:51 rhwng cyllid dyled ac ecwiti (yn ôl gwerth y buddsoddiad). Mae'r adroddiad chwarterol diweddaraf yn dangos bod buddsoddiadau benthyciad yn cyfrif am 62% o gyfanswm y buddsoddiad hyd yma.
- 3.14 Mae'r rhaniad rhwng cyllid dyled ac ecwiti yn DC hyd yma yn agos at yr hyn a ragwelwyd yn y Cynllun Busnes. Fodd bynnag, fel y dengys Ffigur 3.6, benthyciadau yw mwyafrif (73%) y buddsoddiadau hyd yma yn GCC.

Ffigur 3.6: Math o Fuddsoddiad yn ôl Maes y Rhaglen (erbyn Ch1 2020)



Ffynhonnell: Pro-Forma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2020

- 3.15 Mae gwerth y buddsoddiadau ecwiti hyd yma yn ardal GCC yn sylweddol is nag yn ardal DC (£19m yn GCC, o'i gymharu â £28m yn DC).

Rhagori ar Dargedau Buddsoddi

- 3.16 Mae Cronfa Busnes Cymru yn cwmpasu pob rhan o Gymru ond mae wedi'i dyrannu rhwng dwy ardal y rhaglen ERDF (DC a GCC). O'i gymharu â'r buddsoddiad a broffiliwyd ar gyfer Ch1 2020, mae'r buddsoddiadau yn ardaloedd DC a GCC ill dwy yn fwy na gwerth y buddsoddiad a ragwelir.


Tabl 3.2: Buddsoddiad Cronfa Busnes Cymru Hyd Yma, yn ôl Ardal y Rhaglen (erbyn Ch1 2020, £m)

	Swm a Fuddsoddwyd	Buddsoddiad a Broffiliwyd	% o'r Proffil Cyflawni
DC	50.9	37.6	136%
GCC	70.0	62.8	112%
Cyfanswm	120.9	100.0	121%

Ffynhonnell: Pro-Forma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2020


- 3.17 Dengys Ffigur 3.7 a Ffigur 3.8 fod gwerth y buddsoddiad yn ardaloedd GCC ac DC wedi rhagori ar broffil y Cynllun Busnes yn gyson ers Ch2 2018. Dylid nodi bod y Cynllun Busnes wedi'i ailbroffilio ym mis Mehefin 2018 (ond nid adolygwyd ffigurau'r Cynllun Busnes cyn y dyddiad hwn). Yn ardal GCC, mae'r buddsoddiad wedi cyd-fynd â thargedau'r cynllun busnes neu wedi rhagori arnynt drwy gydol y cyfnod buddsoddi.

Ffigur 3.7: Gwerth Buddsoddiadau Cronfa Busnes Cymru yn ardal DC



Ffynhonnell: Pro-Forma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2020. Noder: ailbroffiliwyd ffigurau'r cynllun busnes yn Ch2 2018, ond ni chafodd y ffigurau eu hadolygu ar gyfer y cyfnod cyn hyn.

Ffigur 3.8: Gwerth Buddsoddiadau Cronfa Busnes Cymru yn ardal GCC




Ffynhonnell: Pro-Forma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2020. Noder: ailbroffiliwyd ffigurau'r cynllun busnes yn Ch2 2018, ond ni chafodd y ffigurau eu hadolygu ar gyfer y cyfnod cyn hyn.

Buddsoddiad a Ysgogwyd

- 3.18 Roedd y Cynllun Busnes yn rhagweld erbyn diwedd Ch1 2020, y byddai £139.9m (wedi'i ailbroffilio ym mis Mehefin 2018) yn cael ei drosgoli ochr yn ochr â buddsoddiad uniongyrchol Cronfa Busnes Cymru. Mae'r gronfa wedi rhagori ar y targed hwn yn sylweddol, gan ysgogi tua £250.7m o fuddsoddiad o'r sector preifat.
- 3.19 Mae swm a chymhareb y buddsoddiad a ysgogwyd wedi bod yn uwch yn ardal DC nag yn ardal GCC. Mae'r gwahaniaeth yn arbennig o amlwg ar gyfer buddsoddiadau benthygiad, ble mae cymhareb y buddsoddiad a ysgogwyd yn ardal DC yn fwy na dwbl y ffigur ar gyfer ardal GCC. Mae tua £158m o'r buddsoddiad (neu 63% o'r holl fuddsoddiad a ysgogwyd) wedi bod yn ardal DC, o'i gymharu â £92m yn ardal GCC. Mae'r cymarebau'n uwch ar gyfer buddsoddiadau ecwiti, sy'n rhannol oherwydd y gofyniad bod yn rhaid i'r holl fuddsoddiad ecwiti gynnwys 30% o gydfuddsoddiad gan bartner annibynnol preifat.

Ffigur 3.9: Cymhareb y Buddsoddiad a Ysgogwyd, erbyn Ch1 2020



Ffynhonnell: Pro-Forma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2020

Perfformiad Datblygu Economaidd

- 3.20 Dengys Tabl 3.3 isod fod Cronfa Busnes Cymru ar y trywydd iawn neu'n rhagori ar y targedau hyd yma ar gyfer mwyafrif y DPA datblygu economaidd. Mae'r

perfformiad wedi bod yn arbennig o gryf yn erbyn y targedau ar gyfer cynhyrchion newydd-i'r-cwmni, nifer y mentrau sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil a chynhyrchion sy'n newydd i'r farchnad, lle mae'r perfformiad presennol yn fwy na dwbl y targed hyd yn hyn.

- 3.21 Ar hyn o bryd mae Cronfa Busnes Cymru ar ei hôl hi o gymharu ag un o'r targedau craidd, sef swyddi a gaiff eu creu, gyda dim ond 77% o'r targed hyd yma a 28% o'r targed oes wedi'i gyflawni erbyn Ch1 2020. Mae nifer o resymau posibl dros y tanberfformiad hwn sydd wedi cael eu harchwilio mewn ymgynghoriadau, gan gynnwys buddsoddiad is na'r disgwyl yn GCC (y disgwyliwyd iddo greu cyfran fawr o'r swyddi), yn ogystal â buddsoddiadau a arweiniodd at lai o swyddi, ond mwy o swyddi o ansawdd uchel (er ei bod yn anodd gweld hyn yn ymarferol). Bydd angen archwilio hyn yn y Gwerthusiad Canol Tymor.
- 3.22 O ran swyddi a gaiff eu diogelu, mae perfformiad Cronfa Busnes Cymru ychydig yn is na'r targed (3%) ar hyn o bryd ac mae wedi cyflawni 47% o'r targed oes erbyn Ch1 2020 sy'n ymddangos yn gymharol isel o gymharu â chyfradd y buddsoddiad hyd yma a chyfradd cyflawni'r DPA eraill hyd yma (awgrymodd yr ymgynghoreion y gallai hyn fod oherwydd dibyniaeth ar fusnesau'n hunan-adrodd ar ddechrau'r buddsoddiad, ynghyd â'r targedau optimistaidd a osodwyd).
- 3.23 Dylid nodi bod adroddiad monitro perfformiad diweddaraf Cronfa Busnes Cymru yn nodi bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar ffurflenni holiadur ar effaith buddsoddiad lle y cafwyd cyfradd ymateb o 79%.

Tabl 3.3: DPA Datblygu Economaidd Cronfa Busnes Cymru (erbyn Ch1 2020)

	Cyflawnwyd hyd yma	Targed		% o'r Targed	
		Hyd Yma	Oes	Hyd Yma	Oes
Swyddi a Gaiff eu Creu	1,169	1,513	4,208	77%	28%
Swyddi a Gaiff eu Diogelu	3,516	3,615	7,482	97%	47%
Cynhyrchion newydd-i'r-cwmni	43	19	47	226%	91%
Cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gefnogir	41	15	26	272%	158%
Cynhyrchion sy'n Newydd i'r Farchnad	44	16	34	282%	129%
Patentau wedi'u Cofrestru	21	16	30	134%	70%


Ffynhonnell: Profforma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2020

Perfformiad Ariannol

Diffygddalu a Dileadau

- 3.24 Mae'r gyfradd diffygddalu gyffredinol ar gyfer Cronfa Busnes Cymru wedi bod yn gyson is na'r targed a nodwyd yn y Cynllun Busnes.
- 3.25 Dylid nodi, fodd bynnag, o Ch4 2019 i Ch1 2020, bod y lefelau diffygddalu (sy'n cynnwys darpariaethau penodol a dileadau) wedi cynyddu £3.4m (o £5.1m i £8.5m).
- 3.26 Mae adroddiadau monitro perfformiad yn nodi bod hyn i'w brodoli i adolygiad sector cyfan a gynhaliwyd yn dilyn dyfodiad y pandemig COVID-19, pan adolygwyd pob cwmni portffolio a phan roddwyd darpariaeth gyffredinol o 50% i'r rhai yr ystyriwyd eu bod yn agored iawn i ddioddef effaith negyddol yn sgil COVID-19 (h.y. y rhai sy'n gweithredu mewn sectorau sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd fel y sectorau manwerthu, hamdden, bwyd a diod a llety, oni bai bod perfformiad gan gwmni portffolio penodol yn awgrymu fel arall). Dilëwyd dyledion o £0.07m hefyd ar draws 3 chwmni yn ystod Ch1 2020.

Ffigur 3.10: Cyfradd diffygddalu ar gyfer Cronfa Busnes Cymru



Ffynhonnell: Profforma Data Perfformiad Cronfa Busnes Cymru, a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2020.

Noder: ailbroffiliwyd ffigurau'r cynllun busnes yn Ch2 2018, ond ni chafodd y ffigurau eu hadolygu ar gyfer y cyfnod cyn hyn

Costau Gweithredu

- 3.27 Cyflwynir cyfanswm costau gweithredu'r gronfa erbyn Ch1 2020 yn Nhabl Tabl 3.4. At ei gilydd, mae'r costau hyn yn unol â'r rhagamcanion yn y Cynllun Busnes, er y cafwyd cyfradd uwch o fuddsoddiad. Ar hyn o bryd mae ffioedd proffesiynol oddeutu £300k yn uwch na'r rhagamcanion yn y Cynllun Busnes.
- 3.28 Ar hyn o bryd mae cyfanswm y costau gweithredu gros yn cynrychioli tuag 18% o'r swm a fuddsoddwyd. Mae hyn yn unol â chyfartaledd o 18% ar draws 20 o Gronfeydd Cyfalaf a Benthyciadau Menter a gefnogir gan ERDF a adolygwyd fel rhan o waith gwerthuso cenedlaethol Hatch Regeneris ac fe'i ystyrir yn isel o'i gymharu â'r 27% ar gyfer Cronfa JEREMIE Cymru.

Tabl 3.4: Costau Gweithredu Cronfa Busnes Cymru (erbyn Ch1 2020, £m)

	Cynllun Busnes	Gwirioneddol	Amrywiant (%)
Ffioedd Rheoli	12.8	12.7	99%
Ffi Cronfa Ddaliannol	7.7	7.6	99%
Ffi Broffesiynol	0.7	1.0	158%
Cyfanswm	21.2	21.4	101%

Ffynhonnell: Adroddiadau Monitro Cronfa Busnes Cymru

4. Perthnasedd Parhaus a Chysondeb - Cyd-destun Polisi

Pwyntiau allweddol

- Mae'r datblygiadau polisi allweddol yn y DU yn canolbwyntio ar Strategaeth Ddiwydiannol sy'n cydnabod yr angen i wella mynediad at gyllid i BBaChau.
- Yng Nghymru, mae blaenoriaethau polisi yn canolbwyntio ar fodel datblygu economaidd mwy rhanbarthol, sy'n canolbwyntio ar nifer llai o sectorau trawsbynciol, thematig, ac ymrwymiad i gefnogi'r economi sylfaen. Bydd mynediad at gyllid twf yn dal i fod yn ofynnol ar gyfer yr holl flaenoriaethau hyn.
- Mae ymadawiad y DU o'r UE hefyd yn ddatblygiad polisi allweddol. Er ei bod dal yn aneglur pa flaenoriaethau buddsoddi a dull dyrannu adnoddau a fydd yn cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth y DU ar ôl Brexit, mae cystadleurwydd BBaChau a mynediad at gyllid yn debygol o barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.
- Mae COVID-19 wedi sbarduno ymateb sylweddol gan lywodraethau'r UE, y DU a Chymru i helpu i liniaru'r effaith. Un ffocws allweddol i'r ymateb hwn oedd darparu cymorth ariannol i BBaChau.
- Mae gan BDC gryn afael ar yn y farchnad a phresenoldeb ynddi. Ar hyn o bryd mae'n gyfrifol am 17 o gronfeydd gyda chyfanswm gwerth o fwy na £650m ac mae wedi chwarae rhan allweddol yn ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, gan gyflwyno Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru gwerth £100m.

- 4.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun polisi yn y DU a Chymru y mae Cronfa Busnes Cymru yn gweithredu ynddo, gan edrych yn benodol ar ddatblygiadau polisi allweddol ar gyfer cystadleurwydd BBaChau a'u mynediad at gyllid.

Y DU - Y Strategaeth Ddiwydiannol

- 4.2 Cyhoeddwyd Strategaeth Ddiwydiannol y DU ym mis Tachwedd 2017 ac mae'n goruchwyllo polisi economaidd cenedlaethol hirdymor, gan gynnwys y cynllun i oresgyn problem y DU o gynhyrchiant isel parhaus. Mae'r strategaeth yn

cynnwys ymyriadau amrywiol i wella'r cyflenwad cyllid i fusnesau a chadarnhaodd fod llunwyr polisi yn dal i gydnabod mynediad at gyllid fel her fawr y mae BBaChau yn ei hwynebu. Ymhlith yr ymyriadau a gyhoeddwyd mae:

- Cynllun Gweithredu i helpu i ddatgloi dros £20bn o fuddsoddiad cyfalaf tymor estynedig i ariannu twf mewn busnesau arloesol.
- Buddsoddiad newydd o £2.5bn gan y sector cyhoeddus i Fanc Busnes Prydain, a fyddai'n cael ei gyd-fuddsoddi gyda'r sector preifat gan arwain at gyfanswm buddsoddiad o £7.5bn. Ffocws y buddsoddiad yw ei gwneud yn haws cyllido arloesedd a darparu'r cyfalaf menter sydd ei angen ar gyfer busnesau mawr eu twf sy'n dibynnu'n drwm ar wybodaeth.
- Rhaglen fuddsoddi fasnachol sy'n cael ei rhedeg gan Fanc Busnes Prydain i gefnogi datblygiad clystyrau o angylion busnes y tu allan i Lundain.
- Estyn cynllun gwarantu cyllid menter Banc Busnes Prydain tan fis Mawrth 2022.

Cymru - Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

- 4.3 Yn 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol¹, darn arloesol o ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru roi cynaliadwyedd hirdymor flaenaf yn eu meddyliau. Adlewyrchir egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhaglen bum mlynedd gyfredol Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen (2016-2021). Ers hynny, cynlluniwyd y rhaglen hon yn fanylach yn y strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi sy'n cyd-fynd â hi ym mis Rhagfyr 2017.
- 4.4 Mae Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn amlinellu dull newydd o gyflawni amcanion Ffyniant i Bawb. Wrth wraidd y dull newydd hwn mae'r "contract economaidd" newydd rhwng busnesau a'r Llywodraeth, sy'n seiliedig ar yr egwyddor bod sicrhau llesiant yn gyfrifoldeb a rennir rhwng busnesau a'r Llywodraeth, ac y dylai'r cymorth i fusnesau fod yn amodol ar

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn weithredol o 1 Ebrill 2016

ymrwymiad i gynnal egwyddorion gwaith teg, buddsoddi mewn sgiliau, hybu iechyd a lleihau eu hól troed carbon.

4.5 Mae newidiadau pwysig eraill yn y cynllun gweithredu yn cynnwys:

- model datblygu economaidd ag iddo fwy o ffocws rhanbarthol, sy'n rhoi mwy o rym i gyrff lleol wneud penderfyniadau gan anelu at adeiladu ar gryfderau a galluoedd unigryw pob rhanbarth.
- ffocws ar nifer llai o sectorau trawsbynciol, thematig, gan symud oddi wrth sectorau â blaenoriaeth sydd wedi'u diffinio'n gul. Mae hyn yn cydnabod yn well y ffiniau cynyddol niwlog rhwng gwahanol sectorau megis technoleg a gwasanaethau ariannol.
- ymrwymiad i gefnogi'r economi sylfaen, gan gynnwys sectorau twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal sy'n gwneud cyfraniad pwysig at lesiant Cymru, fel cyflogwyr mawr a darparwyr gwasanaethau.

4.6 Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn nodi rhai blaenoriaethau cyfarwydd a hirsefydlog ar gyfer economi Cymru (lleihau anweithgarwch, cynyddu cynhyrchiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol), ac mae'n nodi cefnogi busnesau fel un o sawl bloc adeiladu hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

4.7 O ran cystadleurwydd BBaChau, mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn amlinellu'r Contract Economaidd newydd rhwng busnesau a'r llywodraeth i ysgogi twf. I ddechrau, bydd y Contract Economaidd ond yn berthnasol i gymorth ariannol uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ond mae'n bosibl y caiff ei ymestyn i rannau eraill o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru.

4.8 Mae'r Contract Economaidd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n gofyn am fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ddangos yr ymrwymadau canlynol cyn y darperir cymorth: y potensial i dyfu; gwaith teg; hyrwyddo iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle; a chamu ymlaen at leihau eu hól troed carbon. Bydd gofyn i fusnesau hefyd ddangos eu bod yn cyflawni un o'r camau gweithredu canlynol: datgarboneiddio; arloesi, entrepreneuriaeth a phencadlysoedd; allforio a masnachu; swyddi o ansawdd da, datblygu sgiliau a gwaith teg; ymchwil a datblygu, awtomeiddio a digidoleiddio.

- 4.9 Hefyd yn berthnasol i gystadleurwydd BBaChau mae'r dull sectoraidd o ddarparu cymorth i fusnesau. Mae'r sectorau blaenoriaeth a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi wedi'u rhannu'n ddau grŵp: sectorau thematig a sectorau sylfaen. Sectorau blaenoriaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n rhagweithiol â nhw yw'r sectorau thematig. Sectorau sylfaen yw'r rhai sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol i breswylwyr, ac mewn rhai ardaloedd (h.y. ardaloedd gwledig) dyma brif ffynhonnell gweithgaredd economaidd.

Tabl 4.1: Sectorau Blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

Sectorau Thematig:	Sectorau Sylfaen:
Gwasanaethau y gellir eu masnachu (e.e. Technoleg ariannol)	Twristiaeth
Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth (e.e. gweithgynhyrchu cyfansoddion lled-ddargludyddion cyfansawdd)	Bwyd
Galluogwyr (e.e. y sector digidol, arbed ynni, ynni adnewyddadwy)	Manwerthu
	Gofal

Ffynhonnell: Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, Llywodraeth Cymru, 2018

- 4.10 Cyflwynodd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi hefyd fwy o bwyslais ar gynllunio gofodol mewn perthynas â datblygu economaidd ac adfywio. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ymrwmo i fodel datblygu economaidd ar sail ranbarthol, gyda'r nod o "[d]atblygu'r cryfderau unigryw sydd gan bob rhanbarth wrth inni fynd ar drywydd twf, ond gan wneud hynny mewn ffordd gynhwysol a chan gydnabod a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhanbarthol o ran cyfoeth a chyfleoedd rhwng rhannau gwahanol o Gymru."
- 4.11 Nod y dull hwn yw cyflawni:
- Y gallu i gydgyssylltu gwaith cynllunio ym maes datblygu economaidd
 - Cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol cryfach
 - Trafnidiaeth fwy integredig
 - Y gallu i gynllunio'n strategol ar amryfal faterion yn amrywio o ddefnydd tir, i dai, i sgiliau
 - Y gallu i gydweithio mwy ar yr economi ac ar draws ffiniau, a hynny mewn ffyrdd a fydd yn ategu'i gilydd

Brexit

- 4.12 Bydd ymadawiad y DU o'r UE yn golygu bod rôl y Cronfeydd Strwythurol a rhaglenni ymchwil ac arloesi eraill yr UE yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Er y bu dimensiwn thematig a gofodol cryf i'r rhaglenni hyn a'u bod wedi chwarae rhan allweddol mewn gwaith datblygu yng Nghymru, mae blaenoriaethau buddsoddi a'r dull o ddyrannu adnoddau y bydd Llywodraeth y DU yn eu mabwysiadu ar ôl Brexit (drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU neu fecanweithiau amgen) yn dal i fod yn aneglur.
- 4.13 Bwriad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yw lleihau anghydraddoldeb rhwng ar draws gwledydd y DU a sicrhau twf cynaliadwy a chynhwysol. Ymrwymodd Maniffesto 2019 y Blaid Geidwadol i ddarparu cyllid a fyddai o leiaf yn cyfateb â maint cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ym mhob gwlad yn y DU. Ar gyfartaledd dros y cyfnod 2014-2020, roedd gwariant yr UE yng Nghymru yn cyfateb i oddeutu £0.4 biliwn neu £123 y pen (Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin, 2020). Fodd bynnag, yn y gyllideb lawn ddiwethaf ym mis Mawrth 2020 (a chyn COVID-19), nid yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i unrhyw gynlluniau cyflawni manwl na chyllid heblaw am fynd i'r afael â'r mater yn y gyllideb nesaf.
- 4.14 O ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch natur y Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau helaeth am y trefniadau olynol yng Nghymru gyda rhanddeiliaid. Mae wedi cytuno ar bedwar maes blaenoriaeth cyffredinol i ddarparu ffocws ar gyfer gwaith datblygu pellach (lleihau anghydraddoldebau incwm, busnesau mwy cynhyrchiol a chystadleuol; trosglwyddo i economi ddi-garbon; cymunedau iachach a mwy cynaliadwy). Y bwriad yw datblygu set o ganlyniadau ym mhob maes, mesurau llwyddiant addas, a nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi. Mae ymrwymiad parhaus i gynnal dull gweithredu trawsbynciol cryf ar gydraddoldeb, datblygu cynaliadwy a chefnogi'r Gymraeg.
- 4.15 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynllunio ei dull gweithredu ar ddatblygiad economaidd rhanbarthol yng Nghymru, gan gynnwys datblygu'r fframweithiau rhanbarthol, cysylltu cyllidebau datganoledig ag anghenion a chyfleoedd gofodol, a rôl prosesau llywodraethu aml-lefel. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r OECD a CLILC ar astudiaeth o arfer da ar waith rhanbarthol a llywodraethu i helpu i lywio penderfyniadau ynglŷn â gweithredu. Mae

Llywodraeth Cymru hefyd yn ymchwilio i fethodolegau dyrannu cyllideb ranbarthol fel rhan o'i dull o ranbartholi.

COVID-19

- 4.16 Mae argyfwng byd-eang COVID-19 wedi sbarduno ymatebion sylweddol gan lywodraeth yr UE, y DU a Chymru dros gyfnod byr. Noda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod llywodraeth y DU wedi ymrwymo £82.2 biliwn o gymorth i fusnesau mewn ymateb i argyfwng COVID-19 ar ddiwedd mis Mai 2020 (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020). Gan ragweld y bydd chwyddiant yn gostwng i 0.6% yn 2020, fe wnaeth Banc Lloegr hefyd ostwng cyfraddau llog i'r lefel isaf erioed, sef 0.1%, ym mis Mawrth i helpu i ysgogi benthyca. Cynigiodd Llywodraeth Cymru hefyd £1 biliwn o gymorth i fusnesau ym mis Mai 2020.
- 4.17 Mae Tabl 4.2 yn rhestru ymyriadau cymorth busnes wedi'u harwain gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sydd ar gael i BBaChau Cymru² fel rhan o'r ymateb i COVID-19.

² Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Chyllid a Thollau EM, Cymorth ariannol i fusnesau yn ystod coronafeirws (COVID-19)

Tabl 4.2: Mesurau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi BBaChau mewn ymateb i COVID-19

Cynllun, disgrifiad	Y sefydliad cyfrifol, corff cyflawni	Gofynion y buddiolwyr	Y gwerth fesul busnes	Gwerth sy'n weddill o gyfanswm y gwerth	Cyfnod gweithredu
Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ³ (CJRS) - grantiau trethadwy i ddarparu cyfran o gyflog i weithwyr ar ffyrlo	Llywodraeth y DU, CThEM	-Pob busnes yn y DU gyda chynlluniau TWE y DU a chyfrif banc yn y DU -Rhaid eu bod wedi defnyddio'r cynllun erbyn 30 Mehefin 2020 er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol	80% o'r cyflog hyd at £2,500 fesul cyflogai sydd ar ffyrlo, ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol a chyfraniad pensiwn	Amc. £12bn y mis Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn parhau tan 31 Gorffennaf 2020	19 Mawrth 2020 i 31 Gorffennaf 2020, ar hyn o bryd
Cynllun Ad-dalu Tâl Salwch Statudol Coronafeirws - grantiau i dalu cost salwch oherwydd coronafeirws	Llywodraeth y DU, CThEM	-Cyfrif TWE y DU wedi'i greu cyn mis Mawrth 2020 -BBaChau yn unig -Rhaid i'r tâl salwch ddeillio o'r coronafeirws	Hyd at £95.85 yr wythnos o dâl salwch cyflogai am hyd at 2 wythnos	Yn dibynnu ar nifer yr hawliadau i ddiwedd y cynllun	13 Mawrth 2020, yn parhau
Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) - grantiau trethadwy i ddarparu cyfran o'r elw masnachu misol cyfartalog i'r hunangyflogedig sy'n masnachu llai oherwydd y coronafeirws	Llywodraeth y DU, CThEM	-Unigolion/partneriaethau hunangyflogedig yr effeithir yn andwyol arnynt gan y coronafeirws -Elw masnachu o lai na £50k neu o leiaf swm sy'n hafal i incwm nad yw'n incwm masnachu -Ar gau i hawliadau newydd ers 14 Gorffennaf 2020	-Grant cyntaf - elw masnachu cyfartalog 2016 i 2019 -Ail grant - 70% o elw masnachu misol ar gyfartaledd am gyfanswm o 3 mis, hyd at £6,570	Yn dibynnu ar nifer yr hawliadau i ddiwedd y cynllun	26 Mawrth i 19 Hydref 2020

³ <https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wage-costs-through-the-coronavirus-job-retention-scheme.cy>

Cynllun, disgrifiad	Y sefydliad cyfrifol, corff cyflawni	Gofynion y buddiolwyr	Y gwerth fesul busnes	Gwerth sy'n weddill o gyfanswm y gwerth	Cyfnod gweithredu
Gohirio Taliadau Hunanasesu - hyblygrwydd er mwyn lleihau'r pwysau ar lif arian parod cwmnïau o ystyried y coronafeirws	Llywodraeth y DU, CThEM	-Wedi cofrestru yn y DU ar gyfer hunanasesiad - Anawsterau'n gwneud yr ail daliad erbyn 31 Gorffennaf oherwydd y coronafeirws	Yn gallu gwneud ail daliad hyd at 31 Ionawr 2021	-	15 Mai 2020 i 31 Ionawr 2021
Cynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes yn Sgil y Coronafeirws (CBILS) - benthyciadau i BBaChau y mae'r coronafeirws wedi amharu ar eu llif arian	Llywodraeth y DU, BEIS a Banc Busnes Prydain Mae 50 o fenthycwyr yn darparu benthyciadau	-BBaChau y DU -Trosiant blynyddol hyd at £45m -Busnes hyfyw heblaw am y coronafeirws ac y mae'r coronafeirws wedi cael effaith andwyol arno - Ar gyfer benthyciadau dros £30k, rhaid nad oedd y busnes yn wynebu anawsterau ar 31 Rhagfyr 2019 - Ddim ar gael i fanciau/yswirwyr/ailyswirwyr a'r sector cyhoeddus	-Hyd at £5m, 80% o warant y Llywodraeth, ynghyd â llog a benthyciadau am 12 mis -Cyfleusterau cyllid ar gyfer Gorddrafftiau ac Anfonebau hyd at 3 blynedd -Cyfleusterau benthycia a chyllid asedau hyd at 6 blynedd	£12.2bn	23 Mawth 2020 i 23 Medi 2020
Cronfa'r Dyfodol - buddsoddiad ecwiti cam cynnar drwy nodiadau benthyciad trosiadwy yn amodol ar arian cyfatebol	Llywodraeth y DU, BEIS, Trysorlys Ei Mawrhydi a Banc Busnes Prydain	-Wedi'i ymgorffori yn y DU cyn 1 Ionawr 2020 - O leiaf hanner y cyflogeion yn gweithio yn y DU, o leiaf hanner y refeniw o werthiannau yn y DU	£125k i £5m, angen o leiaf yr un swm o arian cyfatebol, isafswm benthyciad cyfanredol o £250k	Gordanysgriwyd yd Darparwyd dros £250m o arian cyhoeddus, ynghyd ag	20 Mai 2020 i Fedi 2020

Cynllun, disgrifiad	Y sefydliad cyfrifol, corff cyflawni	Gofynion y buddiolwyr	Y gwerth fesul busnes	Gwerth sy'n weddill o gyfanswm y gwerth	Cyfnod gweithredu
		- ecwiti gwerth £250k gan fuddsoddwyr trydydd parti yn ystod y 5 mlynedd diwethaf -Dim cyfranddaliadau ar y farchnad stoc		arian cyfatebol i ddechrau. Ar hyn o bryd £468.7m	
Cynllun Benthyciad Adfer (BBLs) - benthyciadau llai i fusnesau sy'n wynebu problemau gyda llif arian parod oherwydd y coronafeirws	Llywodraeth y DU, BEIS, 11 benthyciwr	-BBaChau y DU sydd wedi'u sefydlu cyn mis Mawrth 2020 -y coronafeirws wedi cael effaith andwyol arnynt -os oedd busnes mewn anhawster ar 31 Rhagfyr 2020 rhaid cydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol -Ddim ar gael i fanciau/yswirwyr/adyswirwyr a'r sector cyhoeddus -Ddim ar gael os ydych yn hawlio Cyfleuster Ariannu Corfforaethol CBILs neu COVID-19 ond gellid trosglwyddo i BBLs erbyn 4 Tachwedd 2020	-Trosiant rhwng £2k a 25% hyd at £50k, 100% wedi'i warantu gan y llywodraeth, dim ffioedd na llog am y 12 mis cyntaf, yna llog o 2.5% y flwyddyn -Benthyciad chwe blynedd, ond dim ffi am ad-daliad cynnar	£32.79bn ⁴	4 Mai 2020 i 4 Tachwedd 2020
Gohirio Taliadau TAW - hyblygrwydd er mwyn lleihau pwysau ar lif arian parod cwmnïau o ystyried y coronafeirws	Llywodraeth y DU CThEM	-Pob busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW yn y DU	Oedi cyn talu heb unrhyw log na chosbau	-	26 Mawrth 2020 i 31 Mawrth 2021

⁴ <https://www.gov.uk/government/collections/hm-treasury-coronavirus-COVID-19-business-loan-scheme-statistics>, ar 19 Gorffennaf

Cynllun, disgrifiad	Y sefydliad cyfrifol, corff cyflawni	Gofynion y buddiolwyr	Y gwerth fesul busnes	Gwerth sy'n weddill o gyfanswm y gwerth	Cyfnod gweithredu
Gohirio Taliadau Hunanasesu - hyblygrwydd er mwyn lleihau'r pwysau ar lif arian parod cwmnïau o ystyried y coronafeirws	Llywodraeth y DU, CThEM	-Busnesau'r DU sydd wedi cofrestru ar gyfer hunanasesiad TAW ac yn ei chael hi'n anodd cwrdd â therfyn amser taliadau hunanasesiad oherwydd y coronafeirws	Oedi cyn talu heb unrhyw log na chosbau	-	15 Mai 2020 i 31 Ionawr 2021
Rhyddhad Ardrethi Busnes - rhyddhad ardrethi busnes wedi'i dargedu yn dibynnu ar galedi oherwydd y coronafeirws	Llywodraeth Cymru, Awdurdodau lleol	-Penodol i Gymru -Adeiladau wedi'u meddiannu yn unig -Yn cwmpasu tir ac adeiladau amaethyddol gan gynnwys ffermydd pysgod, adeiladau ar gyfer hyfforddi neu les pobl anabl, adeiladau sydd wedi'u cofrestru fel man addoli cyhoeddus a neuaddau eglwys -Cynlluniau eraill sy'n fwy addas ar gyfer rhai busnesau (rhyddhad i fusnesau manwerthu, lletygarwch a hamdden; rhyddhad i sefydliadau elusennol a dielw; rhyddhad i fusnesau ag eiddo gwag, rhyddhad ardrethi busnesau bach) -Gwerth ardrethol o hyd at £12k	Rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer eiddo â gwerth ardrethol hyd at £6k, ar sail raddedig hyd at £12k	-	Yn dibynnu ar y math o fusnes: Adeiladau Gofal Plant Cofrestredig - hyd at 31 Mawrth 2022
Rhyddhad ardrethi i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch - rhyddhad	Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru	Pob busnes manwerthu, hamdden a lletygarwch sydd â gwerth ardrethol o £500k neu lai	Rhyddhad ardrethi annomestig o 100% yn 2020-21	-	1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

Cynllun, disgrifiad	Y sefydliad cyfrifol, corff cyflawni	Gofynion y buddiolwyr	Y gwerth fesul busnes	Gwerth sy'n weddill o gyfanswm y gwerth	Cyfnod gweithredu
ardrethi busnes penodol i'r sector					
Cronfa Cadernid Economaidd - grantiau i BBaChau nad ydynt yn hawlio un o grantiau eraill Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru	Rhaid i fusnesau Cylch 1 fod wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ond nid oes cyfyngiad TAW ar gylch 2. I ficrofusnesau: -Gostyngiad o 40% yn y trosiant ers 1 Mawrth 2020 Dim hawl i grantiau rhyddhad ardrethi busnes -Yn gallu dangos ymdrechion i gynnal gweithgaredd busnes -Ddim ar gael os yn hawlio grantiau Llywodraeth Cymru nad oes rhaid eu had-dalu I fusnesau bach a chanolig: -Cynllun busnes cynaliadwy ar ôl Covid -Gostyngiad o 60% mewn trosiant ers 1 Mawrth 2020 -Ddim yn gymwys ar gyfer grantiau rhyddhad ardrethi busnes, neu caiff swm ei ddiwynnu -Ddim ar gael os yn hawlio grantiau Llywodraeth Cymru nad oes rhaid eu had-dalu	Grantiau o £10k i ficrofusnesau, £100k i fusnesau bach a chanolig	Nawr ar gau oherwydd niferoedd mawr o geisiadau Cylch 1 £300m Cylch 2 £100m	Cylch cyntaf: Ebrill 2020 Ail gylch: Mehefin 2020
Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru	Llywodraeth Cymru.	-	-	Wedi'i danysgrifio'n llawn (£100m)	Ebrill-Gorffennaf 2020

Cynllun, disgrifiad	Y sefydliad cyfrifol, corff cyflawni	Gofynion y buddiolwyr	Y gwerth fesul busnes	Gwerth sy'n weddill o gyfanswm y gwerth	Cyfnod gweithredu
Grant Busnesau Newydd - grantiau bach a chynghor i gefnogi busnesau newydd	Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru ac awdurdodau lleol	- Busnesau newydd a sefydlwyd rhwng 1 Ebrill 2019 a 1 Mawrth 2020 nad ydynt yn gymwys ar gyfer SEISS - Trosiant o lai na £50k - Cwmp o dros 50% mewn incwm Ebrill - Mehefin 2020 - Rhaid cyd-fynd ag egwyddorion Contract Economaidd Llywodraeth Cymru - Ddim ar gael os derbyniwyd cyllid gan y Gronfa Cadernid Economaidd neu'r grant Cyfraddau Annomestig	£2.5k ynghyd â chymorth a chynghor i fufsnesau newydd gan Busnes Cymru	£5mm	29 Mehefin 2020 i l'w Gadarnhau
Y Gronfa Cydnerthedd Diwylliannol - grantiau ar gyfer sectorau penodol	Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru	- Yn addas ar gyfer amgueddfeydd, casgliadau, gwasanaethau cadwraeth hunangyflogedig, archifau a llyfrgelloedd	-	£1m	-
Cronfa Gwytnwch y Celfyddydau gan gynnwys Cronfa Ymateb Brys i Unigolion, Cronfa Ymsefydlogi i Unigolion a Chronfa Ymsefydlogi i Sefydliadau - grantiau bach sector-benodol	Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru	Cronfa Ymateb Brys i Unigolion - Ar gael ar gyfer ymarferwyr creadigol ar eu liwt eu hunain - Dim ond ar gael os nad oes opsiwn arall Cronfa Ymsefydlogi i Unigolion - ar gael ar gyfer artistiaid a gweithwyr llawrydd unigol a gollodd incwm oherwydd COVID-19 ac sy'n awyddus i addasu eu gwaith/ymarfer creadigol yn y dyfodol	Cronfa Ymateb Brys i Unigolion - grant o hyd at £2.5k Cronfa Ymsefydlogi i Unigolion - grant o £1k i £10k Cronfa Ymsefydlogi i Sefydliadau - grant o hyd at £35k	£7m (£1.5m i unigolion, £5.5m i sefydliadau)	Ceisiadau i'r Gronfa Ymateb Brys i Unigolion ar agor 14 Ebrill 2020 i 6 Mai 2020 Ceisiadau ar gyfer y Gronfa Ymsefydlogi i Unigolion

Cynllun, disgrifiad	Y sefydliad cyfrifol, corff cyflawni	Gofynion y buddiolwyr	Y gwerth fesul busnes	Gwerth sy'n weddill o gyfanswm y gwerth	Cyfnod gweithredu
		Cronfa Ymsefydlogi i Sefydliadau -sefydliadau yn y sector dielw sy'n colli incwm oherwydd COVID-19			ar agor 29 Mai 2020 i 15 Mehefin 2020 a dylid cwblhau prosiectau o fewn 6 mis Ceisiadau ar gyfer y Gronfa Ymsefydlogi i Sefydliadau ar agor 29 Mai 2020 i 15 Mehefin 2020 a dylid cwblhau prosiectau o fewn 6 mis
Cronfa Cymorth Mewn Argyfwng ar gyfer Chwaraeon - grantiau bach di-elw yn benodol ar gyfer y sector	Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru	-Ar gael ar gyfer clybiau chwaraeon dielw	Hyd at £5k y clwb	£400k (£200k Llywodraeth Cymru, £200k Chwaraeon Cymru)	Ceisiadau ar agor Ebrill 2020

- 4.18 Yn rhannol, mae'r cymorth a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Chymru i BBaChau wedi cael ei ategu gan ymateb a hyblygrwydd rheoliadol yr Undeb Ewropeaidd. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r Comisiwn Ewropeaidd (EC) wedi cyflwyno hyblygrwydd rheoliadol i'w Gronfeydd Strwythurol, gan gynnwys y Fenter Buddsoddi mewn Ymateb i'r Coronafeirws (CRII), Menter Buddsoddi mewn Ymateb i'r Coronafeirws a Mwy (CRII +) a'r Fframwaith Dros Dro ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol. O dan y CRII mae'r CE yn darparu hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau ailddyrannu adnoddau ariannol i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth, sef gofal iechyd, cynlluniau gwaith tymor byr a chyfalaf gweithio ar gyfer BBaChau⁵. Mae'r CRII+ yn caniatáu trosglwyddo cyllid rhwng y cronfeydd polisi cydlyniant sy'n weddill (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Gronfa Cydlyniant) i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng ar economïau a chymdeithasau'r UE ac mae'n symleiddio'r gofynion ar gyfer trosglwyddo adnoddau.
- 4.19 Mae'r Fframwaith Dros Dro ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol yn ceisio sicrhau hylifedd a mynediad at gyllid i fusnesau'r UE ac yn benodol i BBaChau (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2020), a allai fel arall gael eu hatal o dan reolau Cymorth Gwladwriaethol. Rhaid i unrhyw gymorth a roddir o dan y Fframwaith Dros Dro ddangos i'r CE bod y mesurau'n angenrheidiol, yn briodol ac yn gymesur â'r effaith bosibl ar yr economi.
- 4.20 Cyflwynodd diwygiad i'r Fframwaith Dros Dro y potensial ar gyfer cymorth wedi'i dargedu⁶ ac ehangu benthyciadau di-log, ecwiti neu warantau 100% ar fenthyciadau hyd at €800,000 fesul cwmni. Gall aelod-wladwriaethau'r UE ddarparu cymorth o dan y Fframwaith Dros Dro i bob microgwmni a chwmni bach, hyd yn oed os oedd ganddynt eisoes anawsterau ariannol ar 31 Rhagfyr 2019. Estynnwyd y Fframwaith Dros Dro hefyd i annog buddsoddwyr preifat i gyfrannu at fesurau cymorth ailgyfalafu.

⁵ Y Comisiwn Ewropeaidd, Camau'r Polisi Cydlyniant yn Erbyn Coronafeirws

⁶ H.y. Cymorth drwy ohirio taliadau treth, cymorthdaliadau cyflog, gwaith Ymchwil a Datblygu yn gysylltiedig â'r coronafeirws neu adeiladu neu wella cyfleusterau, a chynhyrchu cynhyrchion i fynd i'r afael â'r brigiad.

- 4.21 Defnyddiwyd hyblygrwydd y Fframwaith Dros Dro gan Lywodraeth Cymru i ddarparu Cynllun Benthyciadau Busnes COVID-19 Cymru gwerth £100m (darperir manylion yn y tabl uchod).

Banc Datblygu Cymru

- 4.22 Buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru (14) Cyf yw rheolwr penodedig y Gronfa Ddaliannol ar gyfer Cronfa Busnes Cymru (h.y. rheoli a gweinyddu'r gronfa ar ran Llywodraeth Cymru), a benodir gan Lywodraeth Cymru fel Endid a Ymddiriedwyd. Dewiswyd BDC FM Cyf, un o is-gwmnïau Banc Datblygu Cymru, fel rheolwyr Cronfa Busnes Cymru drwy broses gaffael gystadleuol ac mae'n gyfrifol am reoli'r buddsoddiad gyda BBaChau.
- 4.23 Penodwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ym mis Mehefin 2014 i lunio adroddiad ar ffurf, swyddogaeth a dichonoldeb posibl Banc Datblygu Cymru. Nododd yr adroddiad nifer o faterion yn ymwneud â darparu cyllid i BBaChau Cymru, a nododd fod gogwydd daearyddol ynghylch argaeledd credyd banc, buddsoddiad anffurfiol a chyfalaf menter i fusnesau yng Nghymru.
- 4.24 Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai'r llywodraeth gyflwyno ymyrraeth fwy effeithlon o'i gymharu â'r hyn a oedd ar waith ar y pryd. Felly, cynigiwyd creu sefydliad newydd - BDC- a oedd yn integreiddio swyddogaethau Cyllid Cymru ac a fyddai'n Fanc datblygu rhanbarthol cyntaf y DU. Yn dilyn hynny, sefydlwyd BDC yn ffurfiol ym mis Hydref 2017.
- 4.25 Bwriad BDC oedd cyflwyno newid sylweddol ym maint a hyblygrwydd cyllid er mwyn diwallu anghenion BBaChau newydd a rhai sy'n tyfu. Mae'r BDC yn dilyn model hybrid lle mae'r prif ffocws ar fynd i'r afael â methiant yn y farchnad mewn sectorau allweddol o'r gymuned BBaChau drwy weithio'n agosach mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i ddarparu ystod ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol i BBaChau Cymru. Mae BDC hefyd yn rheoli ei gronfeydd ei hun, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Mae'r rhanddeiliaid wedi croesawu newid o Gyllid Cymru i BDC. Awgryma'r ymgylgoreion ei fod wedi parhau i feithrin lefel uchel o ymwybyddiaeth a bod ganddo bresenoldeb a gaffael sylweddol ym marchnad BBaChau Cymru, ac mae ei gyfraddau buddsoddi uchel ar draws y gronfeydd y mae BDC yn eu rheoli yn dystiolaeth o hynny. Rhoddir crynodeb o'r gronfeydd y mae BDC yn eu rheoli yn y tabl isod.

- 4.26 Chwaraeodd BDC ran bwysig yn ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu, rheoli a darparu Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru gwerth £100m, sydd bellach wedi'i fuddsoddi'n llawn. O ran ei gronfeydd eraill, darparodd BDC hyblygrwydd i fusnesau y buddsoddwyd ynddynt er mwyn eu cynorthwyo drwy'r argyfwng. O ran Cronfa Busnes Cymru, roedd hyn yn cynnwys gostyngiad mewn cyfraddau llog ar bob buddsoddiad newydd (i oddeutu 4-5%), ac egwyl tri mis o ad-dalu ffioedd cyfalaf a monitro ar gyfer buddsoddiadau newydd a'r rhai a oedd eisoes ar waith ac ers hynny cynigiwyd hyn am dri mis arall.

Tabl 4.3: Cronfeydd a Reolir ar hyn o bryd gan BDC

Cronfeydd Cyfredol a chyfanswm y gwerth	Ystod y Fargen	Cylch Bywyd Busnesau				Ystod y fargen			Math o fargen		Maint	
		Cam cynnar	Twf	Olyniaeth	Gwyrddroi	Hyd at 10+ mlynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 18 mis	Ecwiti	Dyled	BBaCh	Nid BBaCh
Cronfa Microfenthyciadau Cymru £16.2m	£1k- £50k	✓	✓			✓				✓	✓	
Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru £100m (ynghyd â £30m o gyfalaf wedi'i ailgylchu)	£25k- £5m	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cronfa Busnes Cymru £180.9m	£50k- £2m	✓	✓	✓			✓		✓	✓	✓	

Cronfeydd Cyfredol a chyfanswm y gwerth	Ystod y Fargen	Cylch Bywyd Busnesau				Ystod y fargen			Math o fargen		Maint	
Cronfa Twf Cyfalaf Cymru £25m	£50k- £2m	✓	✓					✓		✓	✓	✓
Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru £25m	£500k- £3m			✓			✓		✓		✓	✓
Cronfa Eiddo Cymru II £42m	£150k- £5m	✓	✓				✓ (24 mis fesul prosiect)			✓	✓	✓
Cronfa Sbarduno Technoleg Cymru II £20m	£50k- £250k	✓				✓			✓		✓	
Cronfa Safleoedd Segur Cymru £40m (gellir ei ailgylchu 4x)	£250k- £4m	✓	✓				✓			✓	✓	

Cronfeydd Cyfredol a chyfanswm y gwerth	Ystod y Fargen	Cylch Bywyd Busnesau				Ystod y fargen			Math o fargen		Maint	
Cronfa Dros Dro Cymru ar gyfer Buddsoddiadau Mentrau Technoleg	£50k- £1m	✓	✓			✓			✓		✓	
Cronfa Cyd- fuddsoddi Angylion Cymru £8m	£25k- £250k	✓	✓				✓		✓		✓	
Cronfa Achub ac Ailstrwythuro Cymru £10-15m	£25k- £2m				✓		✓			✓	✓	
Cronfa Eiddo Masnachol Cymru £55m	£250k - £5m		✓				✓			✓	✓	✓

Cronfeydd Cyfredol a chyfanswm y gwerth	Ystod y Fargen	Cylch Bywyd Busnesau				Ystod y fargen			Math o fargen		Maint	
Cronfa Buddsoddi Mewn Twristiaeth Cymru £50m	£100k- £5m	✓	✓			✓				✓	✓	
Cronfa Ynni Lleol	£50k to £2m		✓			✓				✓	✓	
Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru £100m	£5k to £250k	Cwmnïau sy'n cael problemau gyda llif arian o ganlyniad i'r pandemig.					✓			✓	✓	✓ mewn amgylchiadau eithriadol

5. Perthnasedd Parhaus a Chysondeb - Cyd-destun Economaidd

Pwyntiau allweddol


- Cyn COVID-19, gwelodd economi Cymru dwf cymharol gryf mewn allbwn, cynhyrchiant, a nifer y busnesau, ond roedd y cyfraddau twf yn dal i fod yn is na chyfartaledd y DU.
- Fodd bynnag, mae'r pandemig COVID-19 wedi taflu economi'r byd i sefyllfa ddigynsail. Yn fyd-eang, mae Diweddariad Cronfa Ariannol Ryngwladol yr IMF o'r Rhagolwg Byd-eang yn rhagweld y bydd twf mewn allbwn yn gostwng i -4.9% yn 2020. Yn y DU, mae cynnyrch domestig gros wedi gostwng bron 20% rhwng mis Mawrth a mis Mai.
- Ochr yn ochr â cholledion sylweddol mewn allbwn, bu cynnydd sylweddol mewn diweithdra - yng Nghymru gwelwyd cynnydd o 95% yn nifer yr hawl wyr rhwng mis Mawrth a mis Mehefin (gyda 117,000 o hawl wyr erbyn mis Mehefin).
- O ystyried y sefyllfa ddynamig iawn gyda COVID-19, mae'n anodd bod yn fanwl gywir ynghylch effaith economaidd COVID-19 hyd yn hyn. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, mae cryn ansicrwydd ynghylch lefelau'r allbwn yn y dyfodol. Y consensws ymhlith llawer o ddaroganwyr economaidd yw ei bod yn annhebygol y bydd yr economi'n adfer yn gyflym i'r un lefel ag yr oedd cyn y pandemig (adferiad ar ffurf v). Mae'r senario adfer yn y dyfodol yn dibynnu i raddau ar ddatblygu brechlyn a llacio'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn sgil hynny.
- Mae hefyd yn amlwg o'r rhagolygon bod yr heriau i fusnesau yn amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol sectorau. Masnach gyfanwerthu a manwerthu; amaethyddiaeth; adeiladu; a sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol yw'r rhan helaethaf o sylfaen fusnes BBaChau yng Nghymru. Hefyd, mae nifer anghymesur o ficrofusnesau yn parhau i fod mewn sectorau gwerth ychwanegol is, fel amaethyddiaeth, cyfanwerthu a manwerthu.

5.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn adolygu'r economi y mae BBaChau Cymru wedi gweithredu ynddi dros y cyfnod hyd at 2020 ac a yw Cronfa Busnes Cymru yn parhau i fod yn gyson ac yn briodol o ystyried y tueddiadau hyn. Aiff ymlaen i ystyried y modd y mae COVID-19 wedi effeithio ar berfformiad a rhagolygon economi Cymru a goblygiadau posibl hyn i berthnasedd a chysondeb Cronfa Busnes Cymru.

Allbwn a Chynhyrchiant

- 5.2 Yn 2018, cynhyrchodd economi Cymru £65.1 biliwn mewn nwyddau a gwasanaethau (ONS, 2018b), sy'n cyfateb i 3.4% o werth ychwanegol gros y DU yn 2018. Mae'n gartref i 3.2 miliwn o breswylwyr (ONS, 2019a) a 106,000 o fusnesau (ONS, 2019b) gan ddarparu 1.3 miliwn o swyddi (ONS, 2018c).
- 5.3 Ers 2011 mae economi Cymru wedi tyfu dros 25%. Er bod hwn yn dwf rhesymol gryf yng nghyd-destun dirwasgiad mawr ar ddechrau'r degawd, mae'n is na'r twf ledled y DU yn y cyfnod hwn (30%) gyda chynnydd o ganlyniad yn y bwlch allbwn rhwng Cymru a'r DU, fel y dangosir yn **Error! Reference source not found.**


Ffigur 5.1: Twf mewn gwerth ychwanegol gros yng Nghymru a'r DU 2011-18, wedi'i fynegeo ar lefelau 2011



Ffynhonnell: ONS, Gwerth ychwanegol gros (wedi' gydbwyso) ar brisiau sylfaenol cyfredol, 2018a


- 5.4 Mae Cymru hefyd wedi gweld twf da mewn cynhyrchiant er 2009 (a ddiffinnir fel gwerth ychwanegol gros fesul cyflogai amser llawn) sy'n fwy na'r twf mewn cynhyrchiant ym Mhrydain Fawr (ONS, 2018b a 2018c), fel y dangosir gan Ffigur 5.2 (26% yng Nghymru o gymharu â 22% ym Mhrydain Fawr). Fodd bynnag, mae cynhyrchiant Cymru wedi aros ymhell islaw lefelau Prydain Fawr ac, fel y dengys Ffigur 5.3, yn 2018 roedd cynhyrchiant Cymru yn bedwerydd o'r gwaelod o blith holl ranbarthau'r DU.

Ffigur 5.2: Gwerth ychwanegol gros fesul cyflogai amser llawn yng Nghymru a Phrydain Fawr, 2009-2018



Ffynhonnell: ONS, Gwerth ychwanegol gros (wedi'i gydbwyso), amcangyfrif o'r pris cyfredol 2018b ac ONS, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth 2018c

Ffigur 5.3: Gwerth ychwanegol gros fesul cyflogai amser llawn yn ôl rhanbarth y DU (£), 2018




Ffynhonnell: ONS, Gwerth ychwanegol gros (wedi'i gydbwyso), amcangyfrif o'r pris cyfredol 2018b ac ONS, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth 2018c

Busnes

- 5.5 Yn 2019, roedd 106,000 o fusnesau yng Nghymru, sy'n cyfrif am 4% o gyfanswm busnesau'r DU yn 2016. Gyda phoblogaeth Cymru yn cyfateb i 5% o drigolion y DU, mae gan Gymru nifer llai o fusnesau fesul preswlydd na'r DU gyfan.
- 5.6 Rhwng 2011 a 2019, tyfodd nifer busnesau'r DU 31% o'i gymharu â 21% yng Nghymru. Mae'r twf mewn busnesau ledled Cymru wedi amrywio, gyda thwf o 36% yn Ne-ddwyrain Cymru a dim ond 11% yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Ffigur 5.4: Mynegai Twf Busnes (2011 = 100) Ffigur 5.4Dengys Ffigur 5.4 sut y bu i dwf yn nifer y busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru gyd-fynd â'r twf yn y DU neu ragori arno er 2014, tra bod niferoedd y busnesau yng Ngogledd a Chanolbarth a De-orllewin Cymru wedi tyfu'n arafach dros y cyfnod hwn.
- 5.7 Mae'r twf yn y sylfaen fusnes yng Nghymru wedi bod yn gryfach ymhlith microfusnesau (+20% ledled Cymru rhwng 2014-19)⁷. O'u cymharu â'r DU, mae busnesau o faint canolig wedi tyfu ar gyfradd lawer cyflymach o gymharu â'r DU, ar draul y twf yn nifer y busnesau bach sydd wedi bod yn sylweddol is nag ar draws y DU.

Ffigur 5.4: Mynegai Twf Busnes (2011 = 100)




Ffynhonnell: Cyfrif Busnesau y DU ONS, 2019b

⁷ Yn seiliedig ar Ddata Cyfrif Busnesau y DU ONS. Yng Nghymru, yn ôl data StatsCymru bu diwygiadau i'r data ar gyfer 2018-19 ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn nata cyfres amser ONS a ddangosir yma.

Mae mwyafrif y BBaChau yng Nghymru yn y sectorau cyfanwerthu a manwerthu; amaethyddiaeth; adeiladu; a sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, fel y dangosir yn **Error! Reference source not found.** Mae nifer anghymesur o ficrofusnesau yn parhau i fod mewn sectorau gwerth ychwanegol is, fel amaethyddiaeth, cyfanwerthu a manwerthu. Mae cyfran fawr o gwmnïau proffesiynol sy'n gwasanaethu marchnadoedd lleol (fel cyfreithwyr a chyfrifwyr), yn ogystal â chwmnïau adeiladu, hefyd yn ficrofusnesau. O gymharu â sylfaen fusnes y DU, y sectorau BBaChau mwyaf amlwg yng Nghymru yw amaethyddiaeth, gweinyddiaeth gyhoeddus, mwynogloddio a chwarela a gwasanaethau llety a bwyd - mae gan y sectorau hyn i gyd gyniferydd lleoliad uwchlaw 1.


Ffigur 5.5: BBaChau yn ôl sector fel cyfran o gyfanswm y BBaChau, 2019



Ffynhonnell: Cyfrif Busnesau y DU, 2019b

5.8 Ymddengys fod y gwahaniaethau yng nghyfansoddiad sectoraidd economi Cymru a'r DU yn lleihau. Mae twf yn niferoedd y busnesau yng Nghymru rhwng 2011 a 2019 wedi cael ei ysgogi i raddau helaeth gan dwf yn sectorau cyniferydd lleoliad isel y sector proffesiynol, gwyddonol a thechnegol a gweithgareddau gweinyddol a chymorth (a ddangosir isod).

Ffigur 5.6: Twf yn nifer y busnesau yng Nghymru yn ôl sector 2011 i 2019




Ffynhonnell: Cyfrif Busnesau y DU, 2019b

Cyflogaeth

5.9 Mae economi Cymru yn cefnogi 1.3 miliwn o swyddi, gyda thwf o 7% ers 2013, sy'n llawer is na'r DU (10%; ONS, 2018c). O'r swyddi hyn, mae 48% yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru, 28% yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru a 23% yng Ngogledd Cymru. Er 2011, mae Gogledd Cymru wedi profi twf cyflogaeth uwch na'r cyffredin yng Nghymru, ond yn 2017 profodd Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru ostyngiad sydyn mewn twf cyflogaeth (cyn profi adferiad sydyn) - mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys ansicrwydd gwleidyddol ynghylch y trafodaethau ar Ymadael â'r UE ac effaith hynny ar hyder busnesau a buddsoddiad.


Ffigur 5.7: Twf mewn cyflogaeth 2011-2018 yn ôl rhanbarth yng Nghymru, wedi'i fyneguio i lefelau 2011



Ffynhonnell: ONS, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth, 2018c

- 5.10 Y tri sector mwyaf yn economi Cymru o ran cyflogaeth yw iechyd a gwaith cymdeithasol, y fasnach cyfanwerthu a manwerthu, a gweithgynhyrchu. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl is-ranbarth. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae cyfran uwch o gyflogaeth ym maes iechyd a gwaith cymdeithasol (sy'n tueddu i fod yn gyflogaeth yn y sector cyhoeddus ac felly mae llai o dueddiad i ddefnyddio cyllid allanol). Yn Nwyrain Cymru, mae cyfran fwy o gyflogaeth mewn sectorau gwerth uwch, megis gweithgareddau gwyddonol a thechnegol proffesiynol, gwasanaethau gweinyddol a chymorth, a gwybodaeth a chyfathrebu (sy'n tueddu i fod â galw uwch am gyllid allanol).

Ffigur 5.8: Lefel cyflogaeth yn ôl sector yn 2019 a thwf canrannol ers 2013



Ffynhonnell: ONS, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth, 2018c

Effaith COVID-19

- 5.11 Fodd bynnag, mae'r pandemig COVID-19 wedi taflu economi'r byd i sefyllfa ddigynsail. Yn fyd-eang, mae Diweddariad Cronfa Ariannol Ryngwladol yr IMF o'r Rhagolwg Byd-eang yn rhagweld y bydd twf mewn allbwn yn gostwng i -4.9% yn 2020. O ganol mis Mawrth 2020, cyfyngwyd ar economi'r DU i waith hanfodol a'r hyn y gellid ei wneud gartref, gan arwain at gwymp hanesyddol o 20% yn allbwn y DU ym mis Ebrill (yn dilyn gostyngiad o 6.9% ym mis Mawrth; ONS 2020a). Wrth i gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol lacio, cododd cynnyrch domestig gros y DU 1.8% yn unig ym mis Mai (llawer is na rhagfynegiadau twf yr economegwyr o tua 5%). Arweiniodd hyn at ostyngiad cyffredinol o 19.1% mewn cynnyrch domestig gros rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020. Mae'r ONS wedi adrodd bod nifer y cyflogeion ar gyflogresi'r DU wedi gostwng 650,000 rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 a bod Cyfrif Hawlwyr y DU wedi cynyddu 112% i 2.6m rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 (ONS, 2020b). Yng Nghymru, cynyddodd y Cyfrif Hawlwyr 93% dros yr un cyfnod i 117,000 o bobl.

Y tymor byr

- 5.12 O ystyried y sefyllfa ddynamig iawn gyda COVID-19, mae'n anodd bod yn fanwl gywir ynghylch effaith economaidd COVID-19 hyd yma ac yn arbennig yr effaith bosibl yn y dyfodol o ran ei ddifrifoldeb a'i hyd. Mae hyn yn cael ei ddwysáu ymhellach gan ansicrwydd ynghylch perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Yn y tymor byr iawn, mae Banc Lloegr yn rhagweld y bydd economi'r DU yn crebachu 14% yn gyffredinol yn 2020 (ac y bydd diweithdra'n cynyddu o 4% yn 2019 i 8% yn 2020).

Mae'r IMF yn rhagweld gostyngiad o 6.5% mewn cynnyrch domestig gros yn y DU yn 2020, gyda diweithdra yn codi i 4.8% yn 2020. Mae'r rhagolygon tymor byr hyn yn cael eu llywio gan:

- Gwypm mewn gwariant defnyddwyr: Mae cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol wedi cyfyngu ar allu aelwydydd i wario ar rai mathau o nwyddau a gwasanaethau. Mae patrymau defnydd nwyddau wedi newid wrth i bobl dreulio mwy o amser gartref, ond bu newid mewn gwariant hefyd gan symud o'r stryd fawr i bryniannau ar-lein. Yn ogystal, mae llai o incwm, sicrwydd swydd a chynnydd mewn diweithdra yn cyfrannu at ansicrwydd sy'n golygu bod pobl yn fwy gofalus o ran eu gwariant, a gallai hyn wanhau gwariant gan ddefnyddwyr am gryn amser. Gallai'r grymoedd negyddol hyn beri i wariant gan ddefnyddwyr ostwng o leiaf 10% yn 2020 yn ôl rhagolygon KPMG UK (Mehefin 2020) ac adfer yn gymedrol 1.3% yn 2021, gan fod brechlyn posibl neu driniaethau effeithiol yn dod yn rhy hwyr yn y flwyddyn i roi hwb sylweddol i wariant.
- Buddsoddi yn cael ei lesteirio: yn y tymor byr mae'n her i fusnesau ddibynnu ar gadwyni cyflenwi sefydledig a rhagweld galw gan gwsmeriaid gan fod hyd a graddau'r cyfyngiadau yn aneglur (roedd y rhain yn cael eu llacio mor gynnar â mis Gorffennaf 2020, ond roedd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y sector, ac mae bygythiad o ail don a/neu gyfnod arall o gyfyngiadau symud). At hynny, bydd llawer o fusnesau yn amharod i fuddsoddi nes eu bod yn gliriach ynglŷn â thrywydd yr economi a'u marchnadoedd yn y dyfodol, yn ogystal â'u hangen i arbed arian parod tra bod refeniw yn isel. Mae'r holl heriau hyn yn golygu y gallai buddsoddiad busnes ostwng 12.6% yn ystod 2020 yn ôl rhagolygon KPMG ar gyfer y DU, gan adfer dim ond rhyw fymryn wrth i'r buddsoddiad dyfu oddeutu 1.8% yn 2021.
- Allforion yn arafu: mae hwn yn bandemig byd-eang ac mae gwledydd ar wahanol gamau yn eu dirwasgiad/adferiad economaidd eu hunain (a hyd nes y caiff brechlyn ei gyflwyno'n fyd-eang, mae bygythiad parhaus o ail don). Felly, mae'r galw yn debygol o fod yn gyfnewidiol ac yn isel mewn marchnadoedd allforio. At hynny, gallai allforion gael eu llesteirio gan ymadawiad y DU o'r UE, gyda'r posibilrwydd o dariffau a chwtâu. Hyd yn oed heb y rhain, gallai fod problemau masnach ychwanegol oherwydd y gofyniad am archwiliadau tollau.

Y Tymor Canolig i'r Tymor Hir

- 5.13 Yn y tymor canolig a'r tymor hir mae cryn ansicrwydd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae llawer o sefydliadau a chyrff yn datblygu senarios ar gyfer adferiad economaidd yn y dyfodol. Mae'r rhain, ar y cyfan, ynghlwm wrth amserlen datblygu a chyflwyno brechlyn yn llwyddiannus. Er bod llawer o wahanol senarios, yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r llenyddiaeth, rydym wedi amlinellu tair sydd, yn ein barn ni, yn cwmpasu'r ystod lawn o senarios posibl yng Nghymru ar gyfer adferiad.

Ffigur 5.9: Senarios ar gyfer Adferiad Economaidd yn y Dyfodol

- 1) **Adferiad ar ffurf V** - yr allbwn economaidd yn adfer yn gyflym i'r un lefelau â chyn COVID-19 (lefelau 2019Ch4) ar ddiwedd 2020/dechrau 2021. Ymatebion polisi economaidd yn effeithiol o ran atal dirywiad yr economi. Brechlyn yn cael ei ddatblygu ar ddechrau 2021, ac ar ôl hynny gellir dileu'r rhan fwyaf o gyfyngiadau cymdeithasol. Y croniad yn y galw yn cynorthwyo gydag adferiad economaidd cryf.




“Y feirws dan reolaeth: adferiad cryf o ran twf”

- 2) **Adferiad ar ffurf U** - adferiad hwy i'r allbwn economaidd i'r un lefelau â chyn-COVID-19, gyda'r allbwn yn dychwelyd i lefelau 2019Ch4 ar ddiwedd 2021/dechrau 2022. Polisiâu economaidd yn effeithiol i raddau ond nid yn ddigonol i godi hyder ac ailgychwyn twf yn y tymor byr. Brechlyn yn cael ei ddatblygu yn ystod haf 2021. Mae'r senario hon yn cynnwys llinell amser hwy ar gyfer ymchwil glinigol, gweithgynhyrchu a chyflwyno brechlyn. Yn ôl KPMG, ar hyn o bryd mae dros 100 o frechlynnau posibl ar y gweill ac mae treialon clinigol yn debygol o ddechrau'n fuan, gyda thebygolrwydd cymharol uchel y bydd triniaeth effeithiol ar gael erbyn mis Gorffennaf 2021.



“Y feirws dan reolaeth: twf yn dychwelyd”

- 3) **Adferiad ar ffurf L** - twf tymor hir araf sy'n annigonol i sicrhau bod yr allbwn yn cael ei adfer yn llawn i lefelau 2019Ch4 tan 2023. Difrod strwythurol tymor hir i'r economi, gyda'r arafu o ran buddsoddi, cyflogaeth a thwf mewn cynhyrchiant yn parhau. Dim brechlyn na thriniaeth wedi'u datblygu yn 2021, ac felly mae'n rhaid i rai cyfyngiadau cymdeithasol aros yn eu lle yn y tymor canolig. Mae llywodraethau a'r gymuned wyddonol ryngwladol wedi neilltuo cryn dipyn o adnoddau i ddatblygu brechlyn effeithiol, ac felly mewn llawer o achosion ystyrir bod tebygolrwydd y senario hon yn is na'r senarios adfer eraill, ond mae ei heffaith yn sylweddol ac mae dal yn bosibilrwydd.



“Ailheintiad o'r feirws: twf araf hirdymor ac adferiad bach yn fyd-eang”

Ffynhonnell: Hatch Regeneris drwy gyfeirio at: McKinsey & Company, Deunyddiau Briffio COVID-19, Mehefin 2020 a rhagolwg economaidd y DU KPMG, Mehefin 2020

5.14 Ar gyfer y DU, gallai hyn drosi'n senarios twf cynnyrch domestig gros fel a ganlyn.

Tabl 5.1: Twf Cynnyrch Domestig Gros y DU ar gyfer Senarios Amgen (% y newid o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)

Senario Adferiad	2020	2021
Adferiad ar ffurf V	-6.5%	4.9%
Adferiad ar ffurf U	-7.2%	2.8%
Adferiad ar ffurf L	-7.2%	0.9%

Ffynhonnell: Rhagolwg Economaidd y DU KPMG, Mehefin 2020

- Mae'r rhagolygon ar gyfer Cymru yn ansicr iawn, ond mae rhagolygon economaidd KPMG yn rhagweld gostyngiad o 7.2% mewn gwerth ychwanegol gros yn 2020 ac yna gynnydd o 3.3% yn 2021 (yn seiliedig ar senario adfer ar ffurf U).
- Er nad yw ar gael i Gymru, rhagwelodd yr IMF ostyngiad o 10% mewn Cynnyrch Domestig Gros yn 2020 a chynnydd o 6% yn 2021 yn y DU. Yn fyd-eang, rhagwelir gostyngiad o 4.9% yn 2020 ac yna gynnydd o 5.4% yn 2021 (IMF, 2020).
- Mae Rhagolwg Economaidd mis Mehefin yr OECD yn rhagweld dau senario - senario un ergyd lle mae ail don o heintiau yn cael ei hosgoi, a senario ergyd ddwbl lle mae ail don o heintiau yn taro cyn diwedd y flwyddyn. O dan y senario ergyd sengl, rhagwelir y bydd cynnyrch domestig gros y DU yn gostwng -11.4% yn 2020. Gydag ail don, gallai ostwng cymaint ag 14%. Yn 2021, rhagwelir cynnydd o ddim ond 2.8% (o dan y senario ergyd sengl - ni ddarperir rhagolwg ar gyfer y senario ergyd ddwbl).

5.15 Mae'r rhagolygon ar gyfer adferiad yn y dyfodol ynghlwm wrth gyfansoddiad sectoraidd yr economi, o gofio, fel yr amlinellwyd uchod, bod gan wahanol sectorau heriau a rhagolygon gwahanol ar gyfer adferiad:

- Teithio a lletygarwch: y sectorau hyn sydd wedi dioddef waethaf yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Nid yw'r sectorau hyn yn cael eu hystyried yn 'hanfodol' sy'n debygol o achosi rhagor o niwed wrth i bobl gwtogi ar wariant dewisol. Ymhellach, wrth i batrymau gwaith newid (h.y. gweithwyr cartref mwy parhaol, mwy o gyfarfodydd rhithwir), mae'r rhagolygon tymor hir ar gyfer teithio busnes yn parhau i fod yn ansicr. Mae'r sectorau hyn yn cyfrif am oddeutu 14% o swyddi yng Nghymru.

- Gweithgynhyrchu: hwn yw'r trydydd sector mwyaf yng Nghymru o ran cyflogaeth ac mae'n cyfrif am oddeutu 5% o BBaChau. Mae COVID-19 wedi achosi sioc fawr mewn cadwyni cyflenwi byd-eang, sy'n debygol o barhau wrth i gyfyngiadau cymdeithasol aros yn eu lle. Gallai gweithgynhyrchu sy'n ymwneud â thrafnidiaeth (sy'n cyfrif am 3% o gyfanswm y busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru) sy'n gysylltiedig â theithio awyr a cheir brofi cwymp sylweddol yn y galw (fel y gwelwyd eisoes gyda'r diswyddiadau yn Airbus).
- Addysg: mae'r rhagolygon ar gyfer y sector addysg yn parhau i fod yn weddol ansicr. Addysg uwch sy'n debygol o ddioddef y niwed mwyaf, gyda chwymp sylweddol mewn myfyrwyr rhyngwladol, cynnydd mewn dysgu o bell ac ansicrwydd yn sgil Brexit. Bydd hon yn her benodol i'r dinasoedd hynny yng Nghymru sy'n dibynnu ar wariant prifysgolion a myfyrwyr i gefnogi'r economi leol (e.e. Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe yn arbennig).
- Gofal iechyd: gwelwyd cynnydd yn y galw, sy'n debygol o barhau nes bydd brechlyn yn cael ei gyflwyno, ond a allai ostwng ar ôl hynny yn y tymor hwy. Gallai'r diwydiant fferyllol gynnal y galw yn y tymor hwy wrth i'r diwydiant baratoi ar gyfer y pandemig nesaf/bygythiad byd-eang nesaf i iechyd.
- Logisteg: bu cynnydd sylweddol mewn manwerthu ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud, ac mae hyn yn debygol o barhau wrth i ddefnyddwyr sylweddoli y gallant brynu llawer o'u nwyddau hanfodol ar-lein. Ymhellach, wrth i fusnesau geisio paratoi'n well ar gyfer digwyddiadau byd-eang o bwys yn y dyfodol (fel mwy o bandemigau), byddant yn ceisio adeiladu gwytnwch ychwanegol yn eu cadwyni cyflenwi, a fydd yn arwain at alw uwch am warysau/mannau storio.

5.16 Yr economïau sy'n dibynnu fwyaf ar deithio, twristiaeth a gweithgynhyrchu sy'n debygol o weld y difrod economaidd mwyaf yn y tymor canolig a'r tymor hir - gelwir y rhain yn sectorau yr effeithir yn fawr arnynt, fel y'u diffinnir isod yn rhagolygon economaidd KPMG ar gyfer y DU. Bydd y rhai sydd â chyfran uchel o sectorau hanfodol ac yr effeithir arnynt leiaf yn gwneud yn well - y sectorau iechyd, fferyllol, post/logisteg a TG.

5.17 O fewn Cymru, yn y Canolbarth mae cyfran fawr o gwmnïau amaethyddol a lletygarwch, sy'n golygu bod rhagolygon busnesau yn y dyfodol yn debygol o fod yn heriol. Yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Cymru, er bod cyfran uchel o gwmnïau lletygarwch, mae cyfran fawr o gwmnïau iechyd/addysg hefyd, yn ogystal â gwasanaethau ariannol a busnes, y mae eu rhagolygon yn y dyfodol yn llawer mwy optimistaidd.

Tabl 5.2: Crynodiad Sectoraidd a Rhagolygon Rhanbarthol y DU

	Rhagolwg o Werth Ychwanegol Gros 2020	Cyfran y sectorau sydd wedi'u heffeithio 'n fawr	Cyfran y sectorau hanfodol a'r rhai yr effeithiw yd arnynt leiaf
Gorllewin Canolbarth Lloegr	-9.1%	10.3%	21.2%
Llundain	-8.1%	5.8%	19.6%
De-orllewin Lloegr	-7.9%	8.0%	23.0%
Dwyrain Lloegr	-7.9%	6.1%	19.9%
Dwyrain Canolbarth Lloegr	-7.8%	6.6%	20.8%
Gogledd-orllewin Lloegr	-7.6%	8.1%	24.5%
De-ddwyrain Lloegr	-7.4%	6.2%	24.6%
Cymru	-7.2%	7.8%	26.5%
Swydd Efrog a Humber	-7.1%	5.4%	22.3%
Gogledd-ddwyrain Lloegr	-6.8%	6.8%	29.2%
Yr Alban	-6.8%	6.1%	26.1%
Gogledd Iwerddon	-6.4%	5.3%	26.3%

Ffynhonnell: Rhagolwg Economaidd y DU KPMG, Mehefin 2020

6. Asesiad o Farchnad Gyllid BBaChau

Pwyntiau allweddol

- Mae galw cynyddol, cryf o hyd am gyllid dyled (benthyciadau, gorddrafftiau a chardiau credyd) gan BBaChau yng Nghymru.
- Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y microfusnesau newydd a'r stoc ohonynt yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
- Mae perfformiad Cymru'n gryf o ran dangosyddion arloesi, sy'n brocsi ar gyfer y galw am gyllid cam cynnar. Mae hyn yn amrywio yn ôl ardal ofodol o ystyried cyfansoddiad sectoraidd sylfaen fusnes BBaChau. Yn ardal DC, gallai'r galw fod yn uwch, lle mae twf yn cael ei ysgogi gan gwmnïau gwasanaethau proffesiynol. Gallai'r galw fod yn is yn ardal GCC lle mae'r gyfran uchaf o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus a'r meysydd gweithgynhyrchu ac adeiladu.
- O ran cyflenwad, gwelwyd gostyngiad ledled Cymru mewn benthyciadau gan fanciau. Mae anghenion cyllid microfusnesau'n cael eu diwallu i raddau helaeth gan fentrau a gefnogir gan y sector cyhoeddus.
- Ar gyfer cyllid ecwiti cam cynnar a chyfnod diweddarach, mae'r data'n dangos bod y farchnad yn aeddfedu, gan symud tuag at fargeinion cyllido mwy i fusnesau ar gamau diweddarach. Yng Nghymru, BDC yw prif ddarparwr benthyciadau ecwiti i BBaChau.

- 6.1 Mae'r adran hon yn archwilio'r tueddiadau yn y galw a'r cyflenwad am gyllid hyd at y cyfyngiadau ar yr economi ym mis Mawrth 2020 ac felly'r cyfnod y mae Cronfa Busnes Cymru wedi gweithredu ynddo am y rhan fwyaf o'i chyfnod buddsoddi hyd yma. Rydym wedi defnyddio ystod o ffynonellau data cyhoeddus, gan gynnwys tystiolaeth arolwg, i greu darlun o'r galw a'r cyflenwad o gyllid allanol i'r gymuned BBaChau yng Nghymru. Ategwyd hyn gyda thystiolaeth o ymgynghoriadau â chyrff y sector cyhoeddus, cynrychiolwyr busnes a'r gymuned ariannol i roi darlun cyfoethocach o'r duedd yn y galw a'r cyflenwad am gyllid yng Nghymru.


Y Galw am Gyllid - Cyllid ar gyfer Microfusnesau

Cynyddu'r stoc o ficrofusnesau a busnesau newydd yng Nghymru

- 6.2 Mae Cyfrif Busnesau diweddaraf yr ONS yn nodi bod tua 95,000 o ficrofusnesau yng Nghymru. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd cryfach yn nifer y microfusnesau yn y DU dros y chwe blynedd diwethaf gyda thwf o 27% o'i gymharu â 22% yng Nghymru (cynnydd o 17,000 o ficrofusnesau).


6.3 Yn 2018, yng Nghymru roedd 73 o fusnesau newydd fesul 10,000 o bobl o oedran gweithio. Er bod hyn yn is na chyfartaledd y DU (91 fesul 10,000 o'r boblogaeth oedran gweithio), mae'r gyfradd o fusnesau newydd yng Nghymru wedi bod yn codi'n gyflym - gan dyfu 87% dros y cyfnod o'i gymharu â dim ond 62% yn y DU (ONS, 2019c).

Ffigur 6.1: Microfusnesau fesul 10,000 o'r boblogaeth oedran gweithio



Ffynhonnell: ONS, Amcangyfrifon Poblogaeth 2019a ac Amcangyfrifon Poblogaeth Fusnes, 2019e

Ffigur 6.2: Sylfaen busnes, cyflogaeth a throsiant yng Nghymru yn ôl maint busnes



Ffynhonnell: ONS, Amcangyfrifon Poblogaeth 2019a ac Amcangyfrifon Poblogaeth Fusnes, 2019e

- 6.4 Mae busnesau newydd a microfusnesau yn tueddu i ofyn am symiau llai o gyllid a chyllid cam cynnar o gymharu â busnesau mwy, felly gyda niferoedd mwy o ficrofusnesau a busnesau newydd, rydym yn disgwyl mwy o alw am hyn. Fodd bynnag, mae microfusnesau yn y DU wedi bod yn gyson llai tebygol o fod yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau am gyllid o gymharu â BBaChau eraill (a all fod yn ddangosydd ar gyfer galw), gan awgrymu y gallai fod prinder cyllid i fusnesau bach a cham cynnar. Gwnaed ychydig o gynnydd yn hyn o beth gan fod y bwlch llwyddiant wedi culhau rhwng 2016 a 2019, fel y dengys Tabl 6.1 Tabl 6.1.

Tabl 6.1: Canlyniad y Ceisiadau am Gyllid, Busnesau'r DU

Canlyniad	2016		2019	
	Pob Busnes	Microfusnes	Pob Busnes	Microfusnes
Wedi cael rhyw fath o gyllid	75%	73%	78%	77%
Heb gael dim cyllid	13%	15%	14%	15%
Ddim yn gwybod/yn yr arfaeth	12%	12%	8%	8%

Ffynhonnell: Arolwg Hydredol o Fusnesau Bach, 2019

Y Galw am Gyllid - Cyllid Dyled i BBaChau Sefydledig

Cynnydd yn y stoc o BBaChau a galw mawr am gyllid dyled

- 6.5 Fel yr amlinellwyd yn yr adran Cyd-destun Economaidd uchod, cynyddodd nifer y BBaChau nad ydynt yn ficrofusnesau (busnesau sy'n cyflogi 10 i 250 o bobl) yng Nghymru 2% rhwng 2017 a 2019 (270 o BBaChau nad ydynt yn ficrofusnesau) i ffurfio 11% o gyfanswm sylfaen busnes Cymru yn 2019. Er y bu cynnydd yn y stoc o BBaChau, ar y cyfan mae cyfran y rhai sy'n cael cyllid wedi gostwng, er ei bod wedi codi o gymharu â 2016 (dangosir hyn yn Nhabl Tabl 6.2 isod).

Tabl 6.2: Canlyniad y ceisiadau am gyllid, BBaChau nad ydynt yn ficrofusnesau yn y DU


Canlyniad	2014		2016		2019	
	Bach	Canolig	Bach	Canolig	Bach	Canolig
Wedi cael cyllid	85%	87%	80%	84%	82%	86%
Heb gael dim cyllid	13%	7%	10%	6%	9%	5%
Ddim yn gwybod/yn yr arfaeth/gwrthodwyd	3%	6%	10%	10%	9%	10%

Ffynhonnell: Arolwg Hydredol o Fusnesau Bach, 2019

- 6.6 Gall archwilio'r mathau o gyllid y gwneir cais amdano hefyd roi mewnwelediad i'r galw am gyllid dyled gan BBaChau sefydledig. Canfu Arolwg o Fusnesau Bach 2019 fod cyfran uwch o BBaChau yn manteisio ar y rhan fwyaf o fathau o gyllid allanol, gan gynnwys banciau, cyllid yn gysylltiedig â chyfarpar a chyllid heb ei

warantu fel cardiau credyd, na BBaChau y DU (fel y dangosir yn Ffigur 6.3). Gwelir mai cyllid dyled yw'r math mwyaf cyffredin o gyllid a ddefnyddir gan BBaChau yng Nghymru, gyda chyfran uwch yn dibynnu ar gredyd a benthyciadau gan fanciau o gymharu â BBaChau yn y DU yn gyffredinol. Mae bron i ddwywaith cyfran y BBaChau yng Nghymru yn defnyddio benthyciadau gan deulu/ffrindiau o gymharu â'r DU - mae hyn yn debygol o fod oherwydd y nifer fawr o ficrofusnesau teuluol lle y gall pobl fod yn amharod i geisio cyllid allanol o'r sector preifat (yn enwedig y tu allan i'r prif gytreffi trefol).

Ffigur 6.3: Cyfran y BBaChau yng Nghymru a'r DU sy'n defnyddio pob math o gyllid, 2019



Ffynhonnell: Arolwg Hydredol o Fusnesau Bach, 2019

Galw mawr am gyllid dyled gan BBaChau Cymru


6.7 Mae'r Monitor Cyllid BBaChau diweddaraf hefyd yn creu darlun o alw mawr am gyllid allanol gan BBaChau sefydledig yng Nghymru, yn enwedig am gyllid dyled. Yn ôl y data diweddaraf (2018):

- Roedd 44% o BBaChau yng Nghymru yn defnyddio cyllid allanol o'i gymharu â 36% ledled y DU. At hynny, roedd 40% o BBaChau yn defnyddio cyllid craidd (benthyciadau, gorddrafftiau neu gerdyn credyd) o'i gymharu â 32% ledled y DU.
- Mae cyfran y BBaChau yng Nghymru sy'n defnyddio cyllid allanol wedi aros yn gyson dros y 6 blynedd diwethaf (er 2012), o'i gymharu â gostyngiad o 7 pwynt canran ar gyfer BBaChau ledled y DU.

- Diffinnir 43% o BBaChau yng Nghymru fel rhai nad ydynt yn fenthycwyr, sy'n is na'r gyfradd ar gyfer y DU (48%).


Gan edrych yn benodol ar fenthyciadau a gorddrafftiau, canfu Monitor Cyllid BBaChau fod cyfran y BBaChau a arolygwyd a wnaeth gais llwyddiannus am orddrafftiau wedi gostwng ychydig ers 2015. Cynyddodd y gyfradd llwyddiant ymhlith BBaChau sy'n gwneud cais am fenthyciadau yn sylweddol yn 2017 (awgrymodd yr ymgylgoreion fod hyn yn adlewyrchiad o gynigion busnes cryfach a/neu fwy o barodrwydd i fenthycia ymysg banciau'r stryd fawr a sefydliadau fel BDC).

Ffigur 6.4: Canlyniad ceisiadau am orddrafft yng Nghymru



Ffynhonnell: Monitor Cyllid BBaChau, 2017. Noder, ni chofnodwyd canlyniadau BBaChau ar ôl 2017.

Ffigur 6.5: Canlyniad ceisiadau am fenthyciad yng Nghymru



Ffynhonnell: Monitor Cyllid BBaChau, 2017. Noder, ni chofnodwyd canlyniadau BBaChau ar ôl 2017.


Y Galw am Gyllid - Ecwiti ar gyfer BBaChau cam cynnar

- 6.8 Prin yw'r dystiolaeth uniongyrchol o'r galw am ecwiti cam cynnar yng Nghymru. Un ffordd o gael darlun o'r galw yw defnyddio procsi, fel y gwariant ar weithgaredd Ymchwil a Datblygu a lefel busnesau arloesol, yn ogystal â thueddiadau yn y stoc o fusnesau newydd a chwmnïau deillio. Mae busnesau arloesol yn tueddu i brofi twf uwch ac felly mae ganddynt fwy o alw am gyllid allanol. Gall natur gweithgaredd arloesi roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio cyllid ecwiti yn hytrach na chyllid dyled.

Stoc gynyddol o BBaChau sy'n addas ar gyfer cyllid ecwiti cam cynnar

- 6.9 Mae maint y buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu yn rhoi syniad o weithgaredd arloesi a maint y mentrau cam cynnar. Yng Nghymru, amcangyfrifwyd bod £800 miliwn o wariant addysg uwch ac Ymchwil a Datblygu busnes yn 2018. Yng Nghymru gwelwyd twf uwch na'r cyfartaledd yn y gwariant hwn dros y cyfnod diweddar o oddeutu £350 miliwn er 2019 (er ei fod o sylfaen isel), oherwydd y cynnydd mewn gwariant busnesau ar Ymchwil a Datblygu. Gallai'r cynnydd hwn mewn gwariant busnesau ar Ymchwil a Datblygu fod yn ddangosydd o'r galw cynyddol am gyllid ecwiti cam cynnar.

Ffigur 6.6: Mynegai Gwariant Addysg Uwch a Busnesau ar Ymchwil a Datblygu, 2019d




Ffynhonnell: ONS, Gwariant Addysg Uwch a Busnesau ar Ymchwil a Datblygu, 2019d

6.10 Ledled y DU, gostyngodd cyfran y busnesau arloesedd gweithredol ⁸ yn 2016-18 o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Mae Cymru yn parhau i fod â chyfran is o fusnesau arloesedd gweithredol na Lloegr, ond mae'n dal i fod mewn sefyllfa dda o gymharu â gwledydd eraill y DU.

⁸ Busnesau arloesedd gweithredol yw'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno cynnyrch neu broses newydd neu wedi'i gwella'n sylweddol; prosiectau arloesedd nad ydynt wedi'u cwblhau eto, sydd wedi cael eu lleihau neu y rhoddwyd y gorau iddynt; neu fathau newydd o drefniadaeth, strwythurau neu arferion busnes, arferion marchnata neu strategaethau sydd wedi'u gwella'n sylweddol.

Ffigur 6.7: Cyfran y busnesau arloesedd gweithredol yn ôl gwlad, 2014-16 a 2016-18




Sail heb ei bwysoli- 14,040 yn 2016 ac 13,194 yn 2014-16

Ffynhonnell: BEIS, Arolwg Arloesedd y DU, 2019

- 6.11 Mae nifer y cwmnïau deillio a chwmnïau newydd o brifysgolion hefyd yn rhoi syniad o weithgareddau entrepreneuraidd a dechrau busnes yng Nghymru. Mae Prifysgolion Cymru yn gynhyrchiol o ran eu gweithgareddau gyda chwmnïau deillio a busnesau newydd ac wedi cynhyrchu'r cynnydd uchaf mewn cwmnïau deillio a busnesau newydd o blith holl ranbarthau'r DU er 2017. Maent yn cyflawni'r un gyfran o fusnesau newydd a chwmnïau deillio fesul 1m o bobl oedran gweithio â'r DU gyfan ac ychydig yn llai na Llundain. Daw'r rhan helaethaf o gwmnïau deillio a busnesau newydd prifysgolion Cymru (bron i 90%) o'r Prifysgolion yn Ne Cymru - daw 40% o Brifysgol Abertawe, 35% o Brifysgol Caerdydd ac 14% o Brifysgol De Cymru.

Ffigur 6.8: Cwmnïau Deillio a Busnesau Newydd fesul 1m o bobl oedran gweithio yn ôl rhanbarth y DU, 2020



Ffynhonnell: Spinouts UK, 2020

Y Galw am Gyllid - Ecwiti ehangu i BBaChau sefydledig


Galw is na'r cyfartaledd am ecwiti ehangu gan BBaChau yng Nghymru

- 6.12 Fel yr amlinellwyd uchod ar gyfer cyllid risg cam cynnar, mae cyllid ecwiti yn tueddu i fod yn addas ar gyfer lleiafrif bach o gwmnïau sydd â photensial twf tymor hir da ond lefel uchel o risg yn gysylltiedig â'u cynlluniau busnes, ac ychydig iawn o dystiolaeth uniongyrchol sydd o'r galw.
- 6.13 Nododd yr Arolwg o Fusnesau Bach (2019) mai dim ond 1% o BBaChau Cymru a arolygwyd sy'n defnyddio cyllid ecwiti o gymharu â 2% o BBaChau y DU, gan gefnogi'r syniad bod y math hwn o gyllid yn brin (yn enwedig gan y sector preifat). O'r BBaChau yng Nghymru a gafodd gyllid ecwiti, roedd hyn yn fwy tebygol o ddod gan sefydliad neu fusnes trydydd parti arall neu ecwiti cyhoeddus, ond nid oes llawer o sicrwydd ynghylch yn oherwydd cyfran fach y busnesau sy'n defnyddio ecwiti a'r gyfran uchel o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod ffynhonnell eu cyllid ecwiti.

6.14 Awgrymodd yr ymgylgoreion mai'r rheswm tebygol am hyn yw anhoffter hanesyddol o ecwiti/diffyg gwybodaeth am gyllid ecwiti mewn rhannau o Gymru (yn enwedig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd), yn ogystal â phwysigrwydd busnesau teuluol yn y stoc BBaChau. Dangosir hyn gan ddata o'r Monitor Cyllid BBaChau sy'n amlinellu:

- bod 3% o BBaChau y DU yn bwriadu defnyddio cyllid ecwiti yn y dyfodol agos o gymharu â dim ond 2% yng Nghymru.
- bod 15% o fusnesau yng Nghymru yn amharod i ildio rhywfaint o reolaeth ar eu busnes, sy'n uwch na'r gyfradd ar gyfer y DU (10%).

Ffigur 6.9: Ffynhonnell Cyllid Ecwiti BBaChau, Cymru a'r DU, 2019




Ffynhonnell: Arolwg Hydredol o Fusnesau Bach, 2019

Y Cyflenwad o Gyllid - Cyllid ar gyfer Microfusnesau

Y sector cyhoeddus a chyllid amgen yw'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer microfusnesau

- 6.15 O ystyried y risgiau a'r enillion sy'n gysylltiedig â microfenthyciadau, nid yw hwn yn faes y mae banciau'r stryd fawr yn gweithredu ynddo heb gymorth/cymhorthdal cyhoeddus na'r disgwyliad y byddent yn datblygu perthynas hirdymor gydag entrepreneur dynamig. Ategir hyn gan y data ar fenthyciadau gan fanciau isod. Mae gwerth cyfartalog benthyciadau newydd gan fanciau a gymeradwywyd i fusnesau bach wedi cynyddu 12% ers Ch3 2011, gan ostwng 5% yn y DU yn ystod yr un cyfnod. Mae gwerth cyfartalog y benthyciadau a gymeradwyir i fusnesau bach yng Nghymru oddeutu £80,000, ymhell uwchlaw terfyn uchaf microfenthyciad yr UE a'r swm a geisir yn nodweddiadol gan ficrofusnesau.

Ffigur 6.10: Gwerth Cyfartalog Benthyciadau Banciau'r Stryd Fawr a Gymeradwywyd i Fusnesau Bach yng Nghymru



Ffynhonnell: Data Benthyciadau UK Finance.

Noder: nid oes data ar gael yn gyson eto ar ôl Ch1 2017.

- 6.16 Sefydlwyd y fenter Benthyciadau Cychwyn Busnes yn 2012 i roi mynediad i gyllid fforddiadwy a chymorth mentora i fusnesau newydd a'r rhai ar gam cynnar. Mae wedi cael effaith yng Nghymru ac mae'n un o'r mentrau mwyaf adnabyddus a gefnogir gan y cyhoedd ymhlith BBaChau a darparwyr cyllid. Yn ôl yr ystadegau benthycia diweddaraf, maint y benthyciad ar gyfartaledd yw £8,000 ac mae'r Start Up Loans Company wedi benthycia oddeutu £27m i fusnesau newydd yng Nghymru (tua 3,375 o fenthyciadau) o gyfanswm o £544m ledled y DU (5%, sy'n dangos gorgynrychiolaeth o'i gymharu â chyfran Cymru o 3% o fusnesau newydd).


- 6.17 Mae Banc Datblygu Cymru hefyd yn cynnig y Gronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau gwerth £16.2m i fusnesau bach, unig fasnachwyr a mentrau cymdeithasol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu sy'n adleoli i Gymru hyd at 2025. Mae'r gronfa'n darparu benthyciadau rhwng £1- £50k gyda thros £14m wedi'i fenthycha hyd yma i ficrofusnesau yng Nghymru.
- 6.18 Mae microfusnesau ifanc yn defnyddio ystod o ffynonellau i ariannu eu hunain, gan gynnwys trefniadau anffurfiol gyda ffrindiau a theulu, a ffynonellau credyd personol fel cardiau credyd. Yn amlwg, symiau bach o gyllid yw'r rhain a ddarperir yn anffurfiol yn aml. O ganlyniad, mae llawer llai o dystiolaeth o ran symiau'r cyllid a ddarperir drwy'r ffynonellau hyn.

Y Cyflenwad o Gyllid - Cyllid Dyled i BBaChau Sefydledig

Cwmpwng yng ngwerth benthyciadau gan fanciau'r stryd fawr

- 6.19 Mae UK Finance yn darparu trosolwg o dueddiadau o ran benthyciadau a gorddrafftiau i BBaChau gan fenthycwyr y stryd fawr. Mae'r ffigurau diweddaraf yn nodi bod gwerth benthyciadau BBaChau yng Nghymru yn £3.9bn yn Ch4 2019. Bu tuedd ar i lawr yn gyffredinol dros y chwe blynedd diwethaf, gyda gwerth benthyciadau gan fanciau yn gostwng 13% yng Nghymru ac 14% ledled y DU.

Ffigur 6.11: Gwerth Benthyciadau Chwarterol gan Fanciau'r Stryd Fawr i BBaChau 2013-19




Ffynhonnell: UK Finance

Ond bu cynnydd dros y 12 mis diwethaf yn y DU, wrth i effeithiau COVID-19 ddechrau dod i'r amlwg

- 6.20 Mae data gan Fanc Lloegr yn darparu trosolwg o gyfanswm gwerth benthyciadau gan sefydliadau ariannol i BBaChau y DU dros amser ac yn canfod bod benthyciadau wedi cynyddu £19.3 biliwn ym mis Mai 2020 o'i gymharu â mis Mai 2019. Y rheswm am hyn yw bod y data hyn yn cynnwys gorddrafftiau ac nid yw data Finance UK uchod yn nodi rôl gynyddol sefydliadau eraill y sector preifat. Roedd yr effaith hon yn arbennig o gryf mewn diwydiannau a gafodd eu heffeithio'n fwy gan fesurau COVID-19, megis eiddo tirol a masnach fanwerthu.

Ffigur 6.12: Gwahaniaeth mewn benthyciadau gros sefydliadau ariannol i fusnesau bach a chanolig y DU rhwng Mai 2019 a Mai 2020, £m yn ôl diwydiant



Ffynhonnell: Banc Lloegr, Tablau Bankstats Tables 2020


Y Cyflenwad o Gyllid - Ecwiti Ehangu

Marchnad ecwiti sy'n aeddfedu ledled y DU

- 6.21 Roedd 1,850 o fargeinion ecwiti BBaChau yn y DU yn 2019 (cynnydd o 4% o'i gymharu â 2018), sef cyfanswm o £8.5 biliwn (cynnydd o +24% ers 2018), yn ôl Offeryn Tracio Ecwiti Busnesau Bach diweddaraf Banc Busnes Prydain. Mae nifer a gwerth y bargeinion wedi bod yn cynyddu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar draws pob cam datblygu busnes, ac eithrio nifer y benthyciadau sbarduno sydd wedi gostwng 5% ers 2017 - gyda symudiad tuag at fenthyciadau cam twf.
- 6.22 Ymhellach, yn 2019 gostyngodd swm blynyddol y buddsoddiad a oedd yn mynd i gwmnïau cam sbarduno am y tro cyntaf, gan ddod â thwf parhaus o flwyddyn i flwyddyn i ben er 2011, gan nodi bod arwyddion hyd yn oed cyn COVID-19 bod marchnad ecwiti'r DU yn dechrau meddal (er y dylid nodi bod hyn yn cyfeirio at

newid o flwyddyn i flwyddyn a all fod yn anwadal ar gyfer buddsoddiad ecwiti). Mae'r gostyngiad hwn mewn buddsoddiad cam sbarduno yn cyd-daro â'r ffaith mai 2019 yw'r flwyddyn gyntaf lle roedd nifer y cwmnïau sy'n derbyn buddsoddiad dilynol yn fwy na nifer y cwmnïau sy'n derbyn cyllid ecwiti am y tro cyntaf. Mae hyn, ar y cyd â'r cynnydd ym maint cyfartalog bargeinion ecwiti (gweler Tabl 6.3) yn dangos aeddfedrwydd yn ecosystem cyllid Ecwiti y DU.

Ffigur 6.13: Twf yn nifer y bargeinion ecwiti yn y DU rhwng 2017 a 2019



Ffynhonnell: Banc Busnes Prydain, Offeryn Tracio Ecwiti Busnesau Bach 2019

Noder: Yn nodweddiadol, cyllid sbarduno yw cam cyntaf y cyllid i fusnesau newydd neu BBaChau a gall fod yn fach o ran gwerth. Mae cyllid menter yn darparu cyfalaf i fusnesau newydd neu BBaChau sydd â photensial cryf o ran twf. Gellir buddsoddi cyllid twf mewn BBaChau cymharol aeddfed y mae angen cyllid arnynt er mwyn tyfu'n sylweddol.

Tabl 6.3: Gwerth cyfartalog fesul borgen ecwiti BBaChau y DU, fesul cam

Cam	2017	2019
Sbarduno	£0.76m	£1.10m
Menter	£3.29m	£3.25m
Twf	£12.37m	£15.27m
Cyfanswm	£3.64m	£4.59m

Ffynhonnell: Banc Busnes Prydain, Offeryn Tracio Ecwiti Busnesau Bach 2019

6.23 Mae'r diweddariad diweddaraf ar y farchnad ecwiti gan Beauhurst yn adrodd ar hanner cyntaf 2019. O gymharu data H1 2020 â data H1 2019, gwelir rhai o'r effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn sgil argyfwng COVID-19. Er bod y gwerthoedd wedi gostwng yn sylweddol, sef 30%, o gymharu â H1 2019 i £4.77bn, dim ond 9% o ostyngiad a welwyd yn nifer y bargeinion, i 911. Fodd bynnag, nid yw gwerthoedd y bargeinion mor isel ag y byddai rhywun yn ei ddisgwyl oherwydd perfformiad ecwiti cryf hyd at 2020.


6.24 Yn ôl y disgwyl, mae'n ymddangos bod buddsoddwyr cam cynnar yn canolbwyntio eu hadnoddau ar eu cwmnïau portffolio presennol (cadarnhawyd hyn hefyd gan yr

ymgyngoreion). Mae nifer y bargeinion cam sbarduno wedi tyfu 7% o gymharu â H2 2019, a gostyngodd gweithgaredd codi arian am y tro cyntaf 15% o'i gymharu â H2 2019. Awgryma Beauhurst fod y cynnydd mewn bargeinion cam sbarduno yn debygol o gael ei ysgogi gan alw a chyflenwad, gan fod angen cyllid ar fusnesau i gadw eu pen uwchben y dŵr, addasu gweithrediadau i gyd-fynd â champau cadw pellter cymdeithasol neu mewn ambell achos, i ateb y galw cynyddol ac mae buddsoddwyr yn lleihau buddsoddiad i gronfeydd tro cyntaf. O ran ecwiti cam twf, dyblodd maint y fargen gyfartalog i'r lefel uchaf erioed o £10m yn H1 2020. Gall hyn adlewyrchu gostyngiad mewn gwerthoedd buddsoddi mewn camau cyllido eraill.

BDC yn helpu i gynyddu'r cyflenwad o ecwiti ehangu i BBaChau yng Nghymru

- 6.25 O ran ecwiti ehangu yng Nghymru, mae lefel y gweithgaredd buddsoddi wedi bod yn tyfu, yn enwedig yn ystod y tair blynedd diwethaf, gyda chyfartaledd tair blynedd o £68m wedi'i fuddsoddi rhwng 2017 a 2019 o'i gymharu â dim ond £14m yn 2011-13. Mae maint y fargen ar gyfartaledd hefyd wedi codi, i £6.0m o gymharu â £1.8m yn 2011-13. At hynny, Cymru sydd wedi buddsoddi'r swm uchaf ond un o ecwiti ehangu fel cyfran o werth ychwanegol gros o blith holl ranbarthau'r DU yn 2018, dwbl cyfran gyfartalog y DU (0.22% o'i gymharu â 0.12% ledled y DU). Mae cyllid a gefnogir gan y llywodraeth, fel Cronfa Busnes Cymru, yn sbardun pwysig i hyn. Yn ôl Banc Busnes Prydain, roedd 60% o'r holl fargeinion ecwiti a gyhoeddwyd yng Nghymru yn 2019 yn cynnwys cronfa'r Llywodraeth, ac mae tystiolaeth a gafwyd drwy ymgynghori yn ategu hyn sy'n awgrymu bod BDC wedi cael llawer mwy o lwyddiant wrth dreiddio i'r farchnad a buddsoddi mewn BBaChau o gymharu â chynlluniau ecwiti eraill ledled y DU (e.e. Cronfa Cyfalaf Menter a Chronfa Buddsoddi mewn Arloesedd y DU).

Ffigur 6.14: Buddsoddiad ecwiti ehangu yng Nghymru



Ffynhonnell: Adroddiadau Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter ar Weithgaredd Buddsoddi BVCA.


Noder: Gall data BVCA fod yn anwadal o flwyddyn i flwyddyn, felly rydym wedi cyflwyno cyfartaleddau tair blynedd i liniaru'r amrywiadau.

Y Cyflenwad o Gyllid - Ecwiti ar gyfer BBaChau cam cynnar

Cynnydd mewn benthyca buddsoddiad ecwiti cam cynnar yng Nghymru, ond BDC yw'r prif ddarparwr

- 6.26 Yng Nghymru, mae swm a gwerth cyfalaf menter wedi cynyddu'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, ond nid mor gyflym â lefelau'r DU gan i'r symiau dyfu 100% yng Nghymru o'i gymharu â 107% yn y DU rhwng 2011-12 a 2017-19. Yn debyg i'r DU, bu symudiad tuag at fargeinion mwy, gyda maint y benthyciad yn codi i £350,000 (cynnydd o 17% mewn maint cyfartalog), er bod y cynnydd hwn wedi bod yn arafach na'r gyfradd genedlaethol (cynnydd o 56%), ac mae'n dal i fod yn llawer llai na'r maint cyfartalog ledled y DU (sydd ychydig dros £1m). Mae'r data hyn yn cynnwys unrhyw ymyriadau a gefnogir gan arian cyhoeddus, felly bydd yn cynnwys buddsoddiadau a wnaed gan Cyllid Cymru a BDC yng nghronfa JEREMIE (buddsoddwyd £13.5m o gronfa JEREMIE drwy'r is-gronfa Buddsoddiadau Mentrau Technoleg dros 7 mlynedd). Ategir hyn gan dystiolaeth anecdotaidd gan ymgynghoreion sy'n awgrymu mai BDC fu'r darparwr cyllid ecwiti mwyaf gweithgar, yn enwedig o ran BBaChau technoleg, dros y 2/3 blynedd diwethaf.

Ffigur 6.15: Buddsoddiad Ecwiti cam cynnar yng Nghymru (cyfartaleddau 3 blynedd)



Ffynhonnell: Adroddiadau Ecwiti Preifat a Chyfalaf Menter ar Weithgaredd Buddsoddi BVCA.

Noder: Gall data BVCA fod yn anwadal o flwyddyn i flwyddyn, felly rydym wedi cyflwyno cyfartaleddau tair blynedd i liniaru'r amrywiadau.

6.27 Canfu Adroddiad Meincnodi Marchnad Cyllid Amgen Byd-eang 2020 fod cyllido torfol ar sail ecwiti wedi dod yn ffynhonnell gyllid sefydledig ar gyfer cwmnïau ar y cam sbarduno a'r cam cynnar yn y DU. Serch hynny, yn 2018 roedd cyllido torfol yn seiliedig ar ecwiti yn cyfrif am lai na 12% o gyfanswm buddsoddiad ecwiti mewn cwmnïau ar y cam sbarduno a'r cam menter yn y DU.

7. Goblygiadau COVID-19 i Farchnadoedd Cyllid BBaChau

Pwyntiau allweddol

- Mae cryn ansicrwydd ynghylch goblygiadau COVID-19 i farchnadoedd cyllid BBaChau. Nid yw llawer o'r effaith wedi'i ategu gan y data eto, ac mae'n ddarlun dynamig i raddau helaeth. Mae hyn yn cael ei ddwysáu ymhellach gan y ffaith bod cynlluniau cymorth y llywodraeth yn dal i fod ar waith ac mae'n ansicr pryd y byddant yn dod i ben (a sut olwg fydd ar y farchnad pan fydd hynny'n digwydd).
- Busnesau yng Nghymru sydd wedi dioddef waethaf yn sgil y pandemig, gyda chyfrannau uwch o fusnesau yn nodi colledion mewn trosiant, a'r gyfran uchaf o gyflogaion ar ffyrlo o gymharu â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.
- O ganlyniad, mae busnesau wedi colli cryn dipyn o hyder, a bu newid yn y galw am gyllid allanol yn amrywio o gyllid twf, i gyllid goroesi a chyfalaf gweithio.
- Yng Nghymru yr oedd y gyfradd uchaf o ymgeiswyr ar gyfer pecynnau cymorth y llywodraeth, gyda chyfraddau arbennig o uchel o weithwyr ar ffyrlo a defnydd mawr o grantiau mewn argyfwng.
- Mae peth tystiolaeth bod banciau'r stryd fawr yn fwy parod i fenthycu o gymharu â dirwasgiad 2008, ond mae pethau dal yn ansicr o ystyried bod llawer o becynnau cymorth y llywodraeth yn dal i fod ar waith.
- Gallai buddsoddiad ecwiti cam cynnar fod dan fygythiad, gan fod llawer o fuddsoddwyr yn dal eu gafael ar eu cyfalaf buddsoddi neu'n gwneud buddsoddiad dilynol yn eu cwmni presennol. Mae'n bosibl hefyd bod symudiad tuag at gynnig bargeinion sy'n llai o risg i fusnesau sydd ar gam diweddarach.

7.1 Bydd gan COVID-19 oblygiadau mawr i farchnadoedd cyllid BBaChau. Dechreuodd Cymru a'r DU brofi effeithiau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, ac o'r herwydd nid yw'r effaith wedi'i adlewyrchu eto yn y setiau data chwarterol a blyneddol sy'n cwmpasu'r galw a'r cyflenwad o ran cyllid BBaChau. Rydym yn dadansoddi'r effaith sy'n dod i'r amlwg a'r goblygiadau tebygol yn y dyfodol ar gyfer marchnadoedd BBaChau a chanolig y DU a Chymru isod, yn seiliedig ar yr ymchwil a'r setiau data sydd ar gael, gan gynnwys tynnu ar brofiad yr argyfwng ariannol yn 2007/08, yn ogystal â thystiolaeth o ymgynghoriadau.


Y Galw am Gyllid

Busnesau yng Nghymru sydd wedi cael eu heffeithio waethaf gan y pandemig o ran colli trosiant

- 7.2 O'i gymharu â rhanbarthau'r DU, busnesau yng Nghymru sydd wedi cael eu heffeithio waethaf gan y pandemig. Gostyngodd hyder BBaChau i'w lefel isaf erioed gan fod yn rhaid i 21% o BBaChau gau dros dro⁹. Gwelodd 66% o BBaChau gwymp yn eu trosiant, y gyfradd uchaf o holl ranbarthau'r DU.
- 7.3 Mae Arolwg o Effaith COVID-19 ar Fusnesau (BICS) a gyhoeddir bob pythefnos yn adrodd ar drosiant, cyflogau, masnach a gwytnwch busnesau sy'n ymateb i'r arolwg dros y pythefnos blaenorol. Mae'r arolwg yn dangos:
- er bod cyfran ychydig yn llai o fusnesau Cymru wedi profi cwmp o lai nag 20% ac 20% i 50% o'i gymharu â'r DU, roedd cyfran fwy yn disgwyl i'w trosiant ostwng mwy na 50% (23.4% o'i gymharu â 21.8%)
 - Cofnododd Cymru'r gyfran isaf o ymatebwyr sy'n BBaChau a nododd nad oedd unrhyw effaith ar eu trosiant o'i gymharu â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill (dim ond 21%).
- 7.4 Fodd bynnag, mae rhai tueddiadau cadarnhaol yn dod i'r amlwg hefyd. Yn ystod pythefnos gyntaf mis Mehefin 2020, nododd 14% o fusnesau a arolygwyd yng Nghymru eu bod wedi cau dros dro neu fod saib yn eu gweithgaredd masnachu, sef gostyngiad o 20% o gymharu â'r pythefnos flaenorol. At hynny, mae gan Gymru gyfran fwy o BBaChau sy'n nodi cynnydd mewn trosiant o'i gymharu â'r gyfradd gyfartalog ledled y DU.

⁹ Adroddiad Blynyddol Dirnad Economi Cymru, Mehefin 2020

Ffigur 7.1: Newidiadau yn nhrosiant busnesau sy'n parhau i fasnachu




Ffynhonnell: ONS, Data Arolwg o Effaith COVID-19 ar Fusnesau 1 Mehefin i 14 Mehefin 2020. Noder: Yn seiliedig ar arolwg o 6,092 o fusnesau.

7.5 Hyd yn hyn mae'r pandemig wedi cael effaith wahanol ar sectorau gwahanol. Yn fras, mae effaith mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi bod yn fwy ar y rhai sy'n dibynnu ar gyswllt â chwsmeriaid (megis manwerthu a thwristiaeth/lletygarwch), ac mae'r rhai sy'n gallu parhau i weithredu o bell wedi gwneud yn well (rhai cwmnïau gwasanaethau proffesiynol). Adlewyrchir hyn yn nadansoddiad BICS o'r sectorau a ystyrir yn rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddisbyddu cronfeydd arian parod - llety a bwyd; adeiladu; y celfyddydau, adloniant a hamdden; a gwasanaethau gweinyddol a chymorth, fel y dangosir yn Ffigur 7.2 isod.

7.6 Canfu data BICS mwy diweddar o fusnesau a arolygwyd yn y DU fod costau gweithredu wedi cynyddu i 74% o BBaChau sy'n rhoi mesurau diogelwch ar waith yn gysylltiedig â COVID-19, ac mae 12% o'r rhain yn nodi bod y cynnydd yn sylweddol. Ar draws busnesau'r DU o bob maint a gymerodd ran yn yr arolwg, gwelir mai cynnydd mewn costau gweithredu sydd fwyaf cyffredin ar draws y sectorau llety a bwyd (cynnydd o 91%), cyflenwi dŵr (84%), adeiladu (83%) a gweithgynhyrchu (79%) . Mae hyn yn dangos disgwyliad y bydd gofyniad cynyddol am gyfalaf gweithio.

Ffigur 7.2: Cyfran y busnesau yn y DU a arolygwyd nad ydynt wedi rhoi'r gorau i fasnachu'n barhaol ac sy'n credu y bydd cronfeydd arian parod eu mentrau yn para llai na 3 mis, yn ôl diwydiant




Ffynhonnell: ONS, Data Arolwg o Effaith COVID-19 ar Fusnesau 1 Mehefin i 14 Mehefin 2020. Noder: Yn seiliedig ar arolwg o 6,092 o fusnesau.

Cymru hefyd oedd â'r gyfran uchaf o gyflogaeth ar ffyrlo

- 7.7 Erbyn mis Mehefin 2020, Cymru oedd â'r gyfran uchaf o gyflogaeth ar ffyrlo o blith yr holl ranbarthau, gydag o leiaf 25% o'r holl gyflogaeth ar ffyrlo. O fewn Cymru, Gogledd Cymru oedd â'r gyfran uchaf o gyflogaeth ar ffyrlo (26%), ac yna Ganolbarth a De-orllewin Cymru (25%) a De-ddwyrain Cymru (24%).
- 7.8 Mae hyn yn adlewyrchu, i ryw raddau, y sectorau busnes yn yr ardaloedd hynny. Mae cyfrannau uchel o fusnesau cyfanwerthu a lletygarwch yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. Yn y sectorau llety a bwyd a gweithgynhyrchu gwelwyd lefelau arbennig o uchel o weithwyr ar ffyrlo ym mis Mehefin ar draws busnesau o bob maint o ganlyniad i ofynion cadw pellter cymdeithasol y sectorau hyn, fel y dangosir yn Ffigur 7.3. Mae cyfran uwch o gyflogaeth yn y sectorau busnes, proffesiynol a gwasanaethau cyhoeddus yn y De-ddwyrain, lle roedd y cyfraddau ffyrlo yn is.

Ffigur 7.3: Cyfran y cyflogwyr a roddodd staff ar ffyrlo yn ôl sector, Mehefin 2020 DU



Ffynhonnell: Ystadegau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws: Mehefin 2020
Noder: Yn seiliedig ar arolwg o 6,092 o fusnesau.


Cwmpw mewn hyder ymysg busnesau

- 7.9 Mae'r dirywiad cyflym mewn trosiant a'r cynnydd mewn gweithwyr ar ffyrlo (ynghyd â'r ffaith bod y cynlluniau ond yn parhau am gyfnod penodol) wedi arwain at gwmpw digynsail mewn hyder ymysg busnesau. Mae Mynegai Busnesau Bach diweddaraf y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) yn dangos cwmpw mewn hyder ymysg BBaChau y DU (-143 pwynt ar y sgôr Mynegai Busnesau Bach) yn gyffredinol, ynghyd â sectorau sy'n cynnwys manwerthu (-155), y celfyddydau, adloniant a hamdden (-178), a gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd (-187) sy'n profi'r cwmpw mwyaf mewn hyder y mae'r Mynegai wedi'i gofnodi erioed. Canfu'r adroddiad hefyd fod 9% o fusnesau bach yn bwriadu gwerthu, cau neu drosglwyddo eu busnes.
- 7.10 Mae gan y cwmpw mewn hyder busnesau oblygiadau sylweddol i uchelgais a rhagolygon twf BBaChau, ac yn sgil hynny i'r galw am gyllid twf. Canfu adroddiad diweddaraf Monitor Cyllid BBaChau fod 73% o BBaChau wedi nodi y byddai'n well ganddynt weld twf arafach yn hytrach na benthyca a chododd cyfran y busnesau sy'n disgwyl lleihau eu buddsoddiad cyfalaf 40% yn chwarter cyntaf 2020 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Newid yn y galw am gyllid ar gyfer goroesi

- 7.11 Mae BICS hefyd yn dangos bod llawer o BBaChau wedi ceisio ymdopi â'r crebachu economaidd drwy aildrefnu taliadau gorddrafft a benthyciadau, torri costau (drwy roi gweithwyr ar ffyrlo a lleihau eu horiau), a chwilio am gyllid tymor byr at ddibenion llif arian a chyfalaf gweithio, gyda llawer yn cymryd camau cyn i'r pandemig gyrraedd y DU.
- 7.12 Mae Adroddiad Mynegai Busnesau Bach yr FSB yn dangos bod cyfradd y busnesau bach sy'n gwneud cais am gredyd wedi cynyddu 2% yn Ch1 2020 (ac felly dim ond y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth y mae'n ei gwmpasu) a chynyddodd cyfran y ceisiadau llwyddiannus 4% i 67%. Adroddodd Monitor Cyllid BBaChau fod yr archwaeth am gyllid yn y dyfodol wedi cynyddu ar draws BBaChau o bob maint yn y 3 mis hyd fis Ebrill 2020, a diben y rhan fwyaf o hyn yw helpu cynaliadwyedd y busnes yn hytrach nag ehangu/twf.
- 7.13 Mae'r angen am gyfalaf gweithio yn cael ei ddwysáu gan y gronfeydd arian parod byrrach sydd gan BBaChau yng Nghymru, er bod y gwahaniaethau o gymharu â'r DU gyfan yn gymedrol. Mae BICS yn dangos nad oedd gan 29% o fusnesau yn y DU gronfeydd arian parod na llif arian yn weddill am hyd at 3 mis, o'i gymharu â 30% ar gyfer BBaChau Cymru (yr ail uchaf o blith holl ranbarthau'r DU). Mae gan Gymru hefyd y gyfran uchaf o BBaChau heb unrhyw gronfeydd arian parod - 5.2% o gymharu â 4.3% ledled y DU.

Ffigur 7.4: Yr amser y disgwylir i gronfeydd arian parod bara i BBaChau



Ffynhonnell: ONS, Data Arolwg o Effaith COVID-19 ar Fusnesau 1 Mehefin i 14 Mehefin 2020. Noder: Yn seiliedig ar arolwg o 6,092 o fusnesau.

- 7.14 Gwelwyd y newid hwn yn y galw am gyfalaf gweithio (a chyllid dyled yn bennaf) yn ystod argyfwng ariannol 2008 a'r dirwasgiad dilynol. Yng nghronfa JEREMIE Cymru gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am gyllid dyled ar draul yr is-gronfeydd ecwiti, ond dylid nodi bod yr argyfwng hwn yn sioc i'r ochr gyflenwi a arweiniodd barodd i fanciau'r stryd fawr gwtogi ar eu gwariant yn y farchnad.
- 7.15 Y gofyniad uniongyrchol yw mynediad at ffurfiau hyblyg o gyllid dyled, yn nodweddiadol, i reoli'r cwmp mewn galw a throsiant. O'r herwydd, mae'r galw ychwanegol am gyllid ymysg BBaChau yn debygol o amrywio yn ôl sector, yn dibynnu i ba raddau y mae COVID-19 yn effeithio ar y galw am eu hallbwn. Fel y nodir ym Mharagraff **Error! Reference source not found.**, mae busnesau sy'n rhoi mesurau diogelwch COVID-19 ar waith yn debygol o fod â gofynion gwariant gweithredol uwch ac felly mae hyn yn debygol o gynyddu'r galw am gyfalaf gweithio.

Rhywfaint o amharodrwydd ymysg BBaChau i fanteisio ar gyllid allanol ychwanegol

- 7.16 Er gwaethaf cyfraddau llog isel a mynediad da at gyllid, mae BBaChau wedi bod yn amharod i ddefnyddio cyllid allanol gan y sector preifat. Yn ôl y Monitor Cyllid BBaCh, gostyngodd y defnydd o gyllid allanol gan BBaChau o 38% ym mis Ionawr i 30% ym mis Ebrill 2020. Cafodd hyn ei ysgogi i raddau helaeth gan y cwmp yn y defnydd o gyllid allanol gan yr hunangyflogedig a chwmnïau o faint canolog.

Ymhellach, cynyddodd cyfran y BBaChau a oedd wedi defnyddio cronfeydd personol (cyllid mewnol) o 19% ym mis Ionawr i 27% ym mis Ebrill 2020.

- 7.17 Fodd bynnag, gellid priodoli hyn i'r ffaith bod llawer o'r cynlluniau ymateb brys yn dal i fod ar waith. Bydd y darlun o'r galw yn dod yn llawer cliriach ar ôl i'r cynlluniau hyn ddod i ben.
- 7.18 Ystyriaeth bwysig arall ar gyfer y galw am gyllid allanol yw y bydd yn ofynnol i BBaChau wneud eu had-daliadau (o unrhyw gyllid brys y maent wedi'i gael, yn ogystal â dyled bresennol) mewn amodau economaidd anffafriol, gan gynnwys y posibilrwydd o ddirwasgiad hirfaith. Hefyd, mae gerio uchel gan BBaChau yn golygu y gallent wynebu anawsterau o ran cael cyllid allanol ychwanegol yn y tymor canolig gan y sector preifat.

Rhagolygon twf ar gyfer rhai sectorau

- 7.19 Efallai y bydd rhagolygon twf rhai sectorau wedi gwella o ganlyniad i COVID-19 (megis gweithgynhyrchwyr sydd wedi newid i gynhyrchu cyfarpar diogelu personol, sectorau sy'n cefnogi gweithio o seilwaith y cartref a'r diwydiant fferyllol), fodd bynnag mae'n ansicr iawn i ba raddau y mae hyn yn wir a beth yw effaith hyn ar eu harchwaeth am gyllid allanol.
- 7.20 Hefyd, mae tystiolaeth anecdotaidd yn dod i'r amlwg gan ymgynghoreion bod y galw am gyllid gan gwmnïau newydd a chwmnïau technoleg cam cynnar wedi aros yn gryf ac y gallai godi. Mae hyn oherwydd:
- Bod llawer o gwmnïau technoleg cam cynnar a busnesau newydd yn dibynnu llai ar gyswllt wyneb yn wyneb â chwsmeriaid (felly nid yw cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn effeithio arnynt). Yn ogystal, bydd rhai o'r busnesau nad ydynt wedi cynhyrchu refeniw eto yn dal i fod yn eu cam Ymchwil a Datblygu cychwynnol.
 - Gallai 'ffactor gwthio' fod ar waith sy'n ysgogi unigolion sydd ar ffyrlo neu sydd wedi cael eu diswyddo i ddechrau eu busnes eu hunain. Gallai hyn gynyddu'r galw am gyllid.

Y Cyflenwad o Gyllid

Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o ymgeiswyr ar gyfer Cynlluniau Llywodraeth y DU


- 7.21 Rydym wedi amlinellu ym Mhennod 3 yr ystod o fesurau cymorth gan lywodraeth y DU a llywodraeth Cymru sydd wedi'u rhoi ar waith i ddarparu cymorth i fusnesau.

Erbyn mis Mehefin 2020, cyfanswm gwerth y cymorth ariannol yng Nghymru a gynigiwyd oedd £1.35bn.¹⁰ O'r swm hwn, roedd £696m yn gysylltiedig â'r cynllun grantiau ardrethi busnes a lansiwyd gan Lywodraeth y DU ac roedd £235m yn grantiau gan y Gronfa Cadernid Economaidd, a derbyniodd Banc Datblygu Cymru 1,608 o geisiadau am Gynllun Benthyciad Busnes Covid19 Cymru sydd newydd ei sefydlu. Roedd yr olaf yn llawn wythnos ar ôl ei lansio gyda busnesau'n manteisio ar £100m o gyllid dyled.

- 7.22 Mae'r data diweddaraf o arolwg BICS yn dangos, ar gyfer pob un o becynnau cymorth y llywodraeth, bod gan Gymru gyfran uwch o gwmnïau sy'n gwneud cais amdanynt o gymharu â chyfartaledd y DU. Fe wnaeth 81% o'r cwmnïau a arolygwyd yng Nghymru gais am gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, yr ail uchaf o blith y gweinyddiaethau datganoledig. Yn nodedig, fe wnaeth 30% o'r cwmnïau a arolygwyd yng Nghymru gais am grantiau busnes mewn argyfwng (o'i gymharu ag 20% ledled y DU) sef yr uchaf o'r holl weinyddiaethau datganoledig (oherwydd bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r cyllid grant mewn argyfwng fel ymateb polisi yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU). Mae'r nifer sy'n manteisio ar gyllid ad-daladwy wedi bod yn is na'r nifer sy'n manteisio ar fathau eraill o gymorth ymhlith cwmnïau o Gymru (tuag 19%), gyda dim ond gwahaniaeth cymedrol o ran y nifer cyffredinol sy'n manteisio arno yn y DU.

¹⁰ Adroddiad Blynyddol Dirnad Economi Cymru, Mehefin 2020

Ffigur 7.5: Ceisiadau gan y cwmnïau a arolygwyd am becynnau cymorth y llywodraeth i gynorthwyo gydag effeithiau COVID-19




Ffynhonnell: ONS, Data Arolwg o Effaith COVID-19 ar Fusnesau 1 Mehefin i 14 Mehefin 2020. Noder: Yn seiliedig ar arolwg o 6,092 o fusnesau.

Mae banciau'r stryd fawr yn fwy parod nag yr oeddent ar gyfer dirwasgiad 2008

7.23 Mae peth arolwg a thystiolaeth anecdotaidd yn dod i'r amlwg bod y darparwyr cyllid masnachol (gan gynnwys banciau'r stryd fawr) mewn sefyllfa iachach nawr o gymharu ag argyfwng ariannol 2008. Mae arolwg BICS yn dangos, er bod mynediad at adnoddau ariannol wedi aros yn ddigyfnewid ar gyfer y mwyafrif o BBaChau, mae cyfran y BBaChau yn adrodd bod mynediad at gyllid wedi gostwng o 8.8% ym mis Mawrth i 4.7% ym mis Ebrill/Mai (mae cynlluniau cymorth y llywodraeth yn debygol o fod wedi cyfrannu at hyn).

Ffigur 7.6: Newid yng ngallu busnesau'r DU i gael gafael ar gyllid



Ffynhonnell: Adroddiad Blynnyddol Dirnad Economi Cymru (Mehefin 2020), gan dynnu ar BICS ONS

7.24 Tystiolaeth arall o hyn yw'r hyblygrwydd a gynigir ar gyfer benthychiadau presennol (megis egwyl o daliadau morgais, gorddrafftiau di-log). Fodd bynnag, mae hyn yn wir yng nghyd-destun ystod o gynlluniau cymorth y llywodraeth (gan gynnwys gwarantau ar fenthychiadau gan y Llywodraeth). Mae'n dal yn ansicr sut y bydd yr hyblygrwydd a'r parodrwydd i fenthyca yn cael eu heffeithio pan na fydd y cynlluniau cymorth hyn yn weithredol mwyach.

Buddsoddiadau ecwiti cam cynnar dan fygythiad

7.25 Yn 2020, roedd buddsoddiadau ecwiti eisoes yn arafu. Yn Ch1 2020, cyhoeddwyd 420 o fargeinion ecwiti, gostyngiad o 8% ers y flwyddyn flaenorol¹¹.

7.26 Mae tystiolaeth anecdotaidd gan ymgylgoreion yn awgrymu mai buddsoddiadau ecwiti newydd a allai gael eu heffeithio fwyaf gan COVID-19. O dan amodau ansicrwydd uchel ac economi contractio, mae cymhelliant i fuddsoddwyr cyfalaf menter ganolbwyntio ar ddiogelu/gwarchod eu portffolios presennol, yn hytrach na buddsoddi mewn cynigion newydd.


7.27 Fodd bynnag, mae peth tystiolaeth y gallai buddsoddwyr cyfalaf menter barhau i fuddsoddi er gwaetha'r hinsawdd economaidd heriol. Ar hyn o bryd mae gan gronfeydd cyfalaf menter y DU y nifer fwyaf erioed o adnoddau yn barod i'w buddsoddi. Mae data Preqin yn dangos bod gan fuddsoddwyr cyfalaf menter y DU

¹¹ Offeryn Tracio Ecwiti Busnesau Bach Banc Busnes Prydain, 2019

gyda'i gilydd £9.5bn o gronfeydd wrth gefn, a allai gyfateb i rhwng 13 ac 17 mis o fuddsoddiad yn seiliedig ar lefelau buddsoddi cyfalaf menter 2018 a 2019. Er bod y potensial am golledion yn eu portffolios yn aneglur ar hyn o bryd, bydd yr archwaeth i fuddsoddi ecwiti newydd mewn BBaChau yng Nghymru yn parhau i ryw raddau.

- 7.28 Gallai data o argyfwng ariannol 2008 roi rhywfaint o fewnwelediad i ymddygiad buddsoddwyr cyfalaf menter (gan nodi bod natur y sioc yn wahanol, ond bod cryn ansicrwydd ac economi a oedd yn crebachu yn 2008 sy'n debyg i'r sefyllfa bresennol). Mae'r data'n dangos y bu gostyngiad cychwynnol sydyn yn nifer y bargeinion ond yna adferiad o fewn 12 mis. Mae data PitchBook yn dangos bod gwerth bargeinion cyfalaf menter y DU wedi gostwng 44% rhwng H1 2008 a H1 2009 a bod nifer y bargeinion wedi gostwng 38%. Gwelwyd yr effaith fwyaf ar gyfnodau cynharach cyfalaf menter oherwydd y canfyddiad o lefelau risg uwch. Mae data PitchBook yn dangos bod nifer y bargeinion yn y cam sbarduno hefyd wedi gostwng 68%, o'i gymharu â 37% ar gyfer cyfalaf menter cam cynnar a 24% ar gyfer cyfalaf menter i fusnesau ar gyfnodau diweddarach rhwng H1 2008 i H2 2008. Roedd y gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiad hyd yn oed yn fwy, gyda buddsoddiad mewn busnesau ar y cam sbarduno yn gostwng 78%, cyfalaf menter i fusnesau cam cynnar yn gostwng 33% a chyfalaf menter i fusnesau ar gam diweddarach yn gostwng 51% rhwng H1 2008 a H1 2009.

Ffigur 7.7: Nifer y bargeinion cyfalaf menter yn y DU yn ôl cam cyfalaf menter 2006 i 2012, wedi'u mynegeo i lefelau H1 2008



Ffynhonnell: Dadansoddiad Banc Busnes Prydain o ddata PitchBook

Newid tuag at fuddsoddi mewn cwmnïau sydd ar gam diweddarach

- 7.29 Gallai effaith COVID-19 beri i gwmnïau ymddangos yn llai hyfyw i fuddsoddwyr oherwydd bod llai o alw am eu cynhyrchion/gwasanaethau, anhawster o ran rhagweld ffrydiau refeniw ac felly anhawster o ran datblygu cynlluniau busnes cryf. Mae cwmnïau hefyd yn debygol o fod yn methu DPA a cherrig milltir presennol oherwydd yr amodau economaidd heriol. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, mae buddsoddwyr yn debygol o ddewis a dethol eu ffocws buddsoddi a byddant yn canolbwyntio ar fuddsoddi mewn cwmnïau cam diweddarach yr ystyrir eu bod yn llai o risg gan y gallant ddangos ffrydiau refeniw a hyfywedd ar ôl COVID-19. Yn yr un modd, bargeinion cam sbarduno yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan mai dyma'r risg fwyaf; er gwaethaf y ffaith bod newidiadau yn amodau'r farchnad gynnyrch yn effeithio'n llai uniongyrchol arnynt.

8. Goblygiadau i'r Bwlch Cyllid

- 8.1 Mae'r adran hon yn ystyried goblygiadau COVID-19 a'r dirwasgiad economaidd i'r bwlch cyllid sy'n wynebu BBaChau yng Nghymru a'r camau a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau bod Cronfa Busnes Cymru yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae hefyd yn ystyried perfformiad Cronfa Busnes Cymru hyd yma ar draws dwy ardal y rhaglen ERDF.
- 8.2 Mae'n bwysig ailadrodd nifer o ystyriaethau yma sy'n dylanwadu ar y dadansoddiad sy'n dilyn:
- Nid yw'r bwlch cyllid y mae BBaChau yn ei wynebu wrth geisio a sicrhau cyllid allanol yn weladwy yn uniongyrchol o ystyried y modd y mae'n cael ei ddylanwadu gan fethiannau'r farchnad mewn marchnadoedd cyllid; mae angen defnyddio ystod o wahanol fathau o ddata i bennu sail briodol i'r sector cyhoeddus ymyrryd o ystyried y risgiau a'r enillion (economaidd ac ariannol) y mae'n barod i'w sicrhau.
 - Gwaethygir hyn gan y dirwasgiad presennol sy'n esblygu'n gyflym. Mae'n destun cryn ansicrwydd ynghylch yr effaith ar berfformiad busnesau a'u hangen am gyllid allanol, a cheir oedi gyda llawer o'r data a ddefnyddir i asesu'r amodau o ran y galw a'r cyflenwad ym marchnad gyllid BBaChau. Bydd mesurau'n gysylltiedig ag iechyd hefyd yn effeithio ar hyn yn y dyfodol.
 - Er y bydd llawer o'r mesurau tymor byr i gynorthwyo BBaChau yn dod i ben yn ystod y misoedd nesaf, nid yw'n glir pa fesurau ychwanegol y gall llywodraeth y DU eu dilyn i gynorthwyo busnesau. Mae potensial i'r mesurau hyn arwain at oblygiad sylweddol i'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer Cronfa Busnes Cymru.
 - Mae gan y sector ariannol hylifedd da ar hyn o bryd mewn gwrthgyferbyniad â'r dirwasgiad yn dilyn yr argyfwng ariannol byd-eang, sydd wedi ei helpu (ochr yn ochr â mesurau gwydnwch y llywodraeth) i barhau i fenthycu i BBaChau. Nid yw'n glir sut y gall eu hymddygiad newid wrth i ddiffygion a dyledion drwg gynyddu.
- 8.3 Mae Tabl 8.1 isod yn rhoi crynodeb lefel uchel cychwynnol o amodau'n ymwneud â'r galw a chyflenwad ar gyfer gwahanol fathau o gyllid BBaChau y mae Cronfa Busnes Cymru yn eu targedu. Mae hefyd yn tynnu sylw at y farn bresennol ar effeithiau posibl COVID-19.

Tabl 8.1: Crynodeb o Amodau'r Farchnad yn ôl Math o Gyllid

	Amodau'n Ymwneud â'r Galw	Amodau'n Ymwneud a'r Cyflenwad	Goblygiadau'r Bwlch Cyllid
Cyllid i Ficrofusnesau	- Cyn-COVID-19, roedd tystiolaeth bod stoc fawr o ficrofusnesau sy'n sbarduno twf yn sylfaen fusnes BBaChau Cymru. - Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y busnesau newydd a'r stoc ohonynt yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. - Nid yw eto'n glir sut y bydd dirwasgiad yn cyflymu'r gyfradd marwolaeth ymysg y busnesau hyn. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19, mae'r galw am gyfleusterau credyd llif arian wedi cynyddu'n sylweddol. Nid oedd gan 26% o fusnesau yn y DU gronfeydd arian parod na llif arian yn weddill am hyd at 3 mis - mae'r mwyafrif o'r rhain yn debygol o fod yn ficrofusnesau. - Gallai fod galw cynyddol hefyd gan ficrofusnesau oherwydd ffactor gwthio yn sgil gweithwyr ar ffyrlo/wedi'u diswyddo sy'n dechrau eu busnesau eu hunain.	- Mae data ar fenthyciadau gan fanciau cyn COVID-19 yn dangos bod gwerth cyfartalog benthyciadau a roddir i fusnesau llai yn llawer uwch na'r swm a geisir yn nodweddiadol gan ficrofusnesau. - Mae benthyciadau llai na £50k wedi'u darparu i raddau helaeth gan fentrau a gefnogir gan arian cyhoeddus - Benthyciad Cychwyn Busnes a Chronfa Microfenthyciadau Cymru. - Mae llawer o BBaChau Cymru wedi manteisio ar y cyllid brys mewn ymateb i COVID-19 (Cymru sydd â'r gyfradd uchaf o geisiadau o gymharu â gweinyddiaethau datganoledig eraill) gyda busnesau wedi manteisio ar £796m o fenthyciadau brys, grantiau (noder nad yw'n eglur faint o'r cyllid hwn a roddwyd i ficrofusnesau).	Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd galw cynyddol am gyllid dyled ar gyfer microfusnesau, gyda ffocws ar gyfalaf gweithio. Ar lefel microfenthyciad, ymddengys fod cyflenwad digonol drwy gynlluniau eraill a gefnogir gan arian cyhoeddus (gan gynnwys cronfeydd eraill y mae BDC yn eu rheoli) a mesurau cymorth y llywodraeth (er bod y rhain yn gyfyngedig o ran amser).
Cyllid dyled ar gyfer BBaChau sefydledig	- Cyn COVID-19, roedd galw mawr am gyllid dyled allanol gan BBaChau sefydledig yng Nghymru - Mae gan sectorau amlwg a sectorau sy'n tyfu yng Nghymru, gan gynnwys manwerthu, gweithgynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau llety/bwyd, fwy o duedd i ddefnyddio cyllid dyled pan fydd ganddynt anghenion cyllido. Y sectorau hyn hefyd yw'r rhai sydd	- Cyn COVID-19 roedd benthyciadau gan fanciau yn lleihau yng Nghymru, gan ostwng 13% (£0.8bn) ers 2013. - Cyn COVID-19, mae'r defnydd o gyllid amgen wedi cynyddu ond mae'n parhau i fod yn fach yng nghyd-destun benthycia cyffredinol yng Nghymru. - Mae amodau cyflenwi yn debygol o aros yn sefydlog ar ôl COVID-19 ar	Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod achos dros gynyddu'r ddarpariaeth cyllid dyled, gyda ffocws ar ddarparu cyfalaf gweithio yn ardaloedd DC a GCC.

	Amodau'n Ymwneud â'r Galw	Amodau'n Ymwneud a'r Cyflenwad	Goblygiadau'r Bwlch Cyllid
	wedi dioddef y niwed mwyaf yn sgil COVID-19. • O ganlyniad i COVID-19, mae'n debygol y bydd cynnydd yn yr angen am gyllid goroesi a chynaliadwyedd yn hytrach na chyllid ar gyfer twf. Cymru oedd â'r gyfradd uchaf o ymgeiswyr am fenthyciad/cyllid grant brys COVID-19 y DU. • Gallai'r galw am gyllid allanol ostwng yn y sectorau hyn oherwydd gallant fod wedi'u gerio'n uchel eisoes gyda rhagolygon masnachu llwm ar gyfer y dyfodol.	gyfer BBaChau sefydledig gan fod banciau mewn sefyllfa iachach o gymharu ag argyfwng ariannol 2008. Fodd bynnag, bydd hyn yn dod yn llawer cliriach pan ddaw cynlluniau cymorth y llywodraeth i ben.	

	Amodau'n Ymwneud â'r Galw	Amodau'n Ymwneud a'r Cyflenwad	Goblygiadau'r Bwlch Cyllid
Ecwiti Cam Cynnar	- Cyn COVID-19, roedd perfformiad Cymru'n gryf o ran dangosyddion arloesi, sy'n brocsi ar gyfer y galw am gyllid cam cynnar. - Yn ardal DC, roedd twf cyflogaeth cyn COVID-19 yn cael ei ysgogi gan gwmnïau gwasanaethau proffesiynol a TGCh, a allai ddynodi galw cryfach am gyllid ecwiti yn y dyfodol o dan amodau economaidd arferol. - Yn ardal GCC, y sector cyhoeddus, gweithgynhyrchu ac adeiladu yw'r prif feysydd cyflogaeth. Nid yw'r sectorau hyn yn tueddu i ddefnyddio cyllid ecwiti rhyw lawer. - Awgrymodd cyfeiriad strategol economi Cymru cyn COVID-19 y gallai fod angen cynyddol am gyllid ecwiti yn y blynyddoedd i ddod o ystyried natur y sectorau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer twf - pob un o'r Sectorau Thematig Cenedlaethol a'r rhai a amlinellir yn y DU. Mae gan y Strategaeth Ddiwydiannol ffocws cryf ar arloesi. - Mae COVID-19 yn debygol o gwtogi ar gynlluniau twf a buddsoddiad busnesau (sef y prif ddefnydd o gyllid ecwiti). Gallai hyn atal y galw yn y tymor canolig.	- Cyn COVID-19, bu cynnydd yn y cyflenwad ecwiti cam cynnar yng Nghymru, ond roedd hyn yn cael ei ysgogi'n bennaf gan BDC. - Ond mae Cronfa Busnes Cymru wedi cael trafferth cyrraedd y cyfraddau buddsoddi ecwiti yn ardal GCC. Cafwyd perfformiad buddsoddi cryf yn ardal DC. - Roedd arwyddion bod marchnad ecwiti'r DU yn dechrau meddalu yn 2019 cyn COVID-19, gyda dirywiad mewn buddsoddiadau cam sbarduno. Gwelwyd ecosystem ecwiti cam cynnar y DU yn aeddfedu'n gyffredinol, gan symud tuag at fargeinion mwy o faint. - Prin yw'r darparwyr arwyddocaol eraill sydd yn y rhan hon o Gymru. I'r darparwyr gweithredol hynny, gallai COVID-19 eu gorfodi i warchod a buddsoddi yn eu portffolio presennol, yn hytrach nag mewn cwmnïau newydd. - O ganlyniad i COVID-19, mae'n debygol y bydd y farchnad yn symud tuag at fusnesau sydd ar gam diweddarach, sy'n llai o risg, ar draul busnesau cam cynnar.	- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod achos cryf dros leihau swm y buddsoddiad ecwiti yn ardal GCC. Bydd y cyfraddau buddsoddi gofynnol yn heriol iawn i'w cyflawni, yn enwedig gan fod disgwyl i'r galw am gyllid ecwiti gan BBaChau yn ardal GCC leihau o ganlyniad i COVID-19. - Yn ardal DC, mae Cronfa Busnes Cymru bron wedi'i buddsoddi'n llawn. Gallai fod achos dros gynyddu buddsoddiad ecwiti cam cynnar ond disgwylir i'r galw yma hefyd fod am gyllid dyled ar gyfer cyfalaf gweithio.
Ecwiti Ehangu	Mae'r amodau'n ymwneud â'r galw yr un fath â'r rhai a amlinellir ar gyfer ecwiti cam cynnar.	Cyn COVID-19, mae Cronfa Busnes Cymru wedi helpu i gynyddu'r cyflenwad o ecwiti ehangu yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ychydig iawn o ddarparwyr gweithredol eraill sydd	Mae goblygiadau'r bwlch cyllid yr un fath â'r rhai a amlinellir ar gyfer ecwiti cam cynnar.

	Amodau'n Ymwneud â'r Galw	Amodau'n Ymwneud a'r Cyflenwad	Goblygiadau'r Bwlch Cyllid
		yng Nghymru, ac felly BDC yw'r prif ddarparwr ecwiti ehangu o hyd. • Mae'n debygol y bydd symudiad tuag at fusnesau sydd ar gam diweddarach ac sy'n llai o risg o ganlyniad i COVID-19, ond gallai fod llai o gynigion y mae modd buddsoddi ynddynt, yn enwedig yn GCC.	

Egwyddorion ac Ystyriaethau

8.4 Wrth feddwl am oblygiadau posibl yr asesiad i Gronfa Busnes Cymru, dylid cadw'r ystyriaethau canlynol mewn cof:

- Mae COVID-19 wedi arwain at effaith ddigynsail ar economïau'r DU a Chymru hyd yn hyn ac, er yn ansicr, mae'r dirwasgiad yn debygol o fod yn ddwfn ac yn hirfaith. Nid yw'r effeithiau llawn ar fusnesau Cymru a'r economi yn debygol o gael eu gweld tan yr Hydref. Hyd yn oed a chaniatáu ar gyfer ymateb Llywodraethau'r DU a Chymru, rydym yn disgwyl i hyn arwain at newid mawr yn natur y galw am gyllid allanol o Gronfa Busnes Cymru. Er y bydd angen cyllid sy'n canolbwyntio ar dwf o hyd, bydd y galw yn newid yn sylweddol i gyfalaf gweithio dros y 9-12 mis nesaf er mwyn sicrhau goroesiad llawer o fusnesau a diogelu cyflogaeth (gan nodi ei bod yn anodd rhagweld pa mor hir y bydd y gofyniad hwn yn para o ystyried yr amgylchiadau dynamig).
- Er y gallai'r galw am gyllid newid yn sylweddol i gyfalaf gweithio dros y flwyddyn nesaf, mae hefyd angen bod mor hyblyg â phosibl yn y gymysgedd o gyllid dyled ac ecwiti y gall Cronfa Busnes Cymru eu darparu i fusnesau (ochr yn ochr â chronfeydd eraill Banc Datblygu Cymru). Mae hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd ynghylch pa mor ddwfn yr effeithir ar yr economi, gan gynnwys y posibilrwydd o amrywiadau sylweddol ar draws ac o fewn sectorau yng Nghymru.
- Er y gall fod achos o hyd dros ddarparu rhagor o gymorth grant neu fenthyciadau meddal i'r BBaChau yr effeithir arnynt waethaf yng Nghymru, mae'n bwysig bod Cronfa Busnes Cymru (a Banc Datblygu Cymru) yn parhau i ganolbwyntio ar gyllid ad-daladwy a ddarperir ar sail fasnachol (a thargedu'r bwch cyllid). Mae hyn yn bwysig er mwyn cynnal y brand a'r safle y mae'r Banc wedi'i sefydlu yn y farchnad.¹²
- Yn yr un modd, mae'n bwysig bod Cronfa Busnes Cymru yn cynnal ei disgyblaeth ariannol a'i buddsoddiad darbodus. Er bod mwy o achosion o ddiffygdlu a dileadau yn anochel yn wyneb risgiau uwch, mae angen cydbwyso'r angen i ddarparu cyllid mawr ei angen i fusnesau yn erbyn gallu'r busnesau i ad-dalu'r cyllid (a pharhau i gyfrannu at elw etifeddol cyffredinol y Gronfa). Mewn gwirionedd, mae angen cydbwyso'r rôl bwysig y gall Cronfa Busnes Cymru ei

¹² Yr eithriad i hyn yw Cynllun Benthyciad Busnes COVID-19 Cymru. Cynllun cyllido brys yw hwn mewn ymateb i COVID-19 ac felly mae cyfraddau llog is yn cael eu darparu dros dro i ymateb i'r argyfwng ac yn unol â phrisiaid Benthyciadau Adfer Banc Busnes Prydain.

chwarae nawr wrth helpu busnesau i oroesi, gyda'i rôl o ran sicrhau'r enillion etifeddiaeth ac felly buddion datblygu economaidd yn y dyfodol.

- Disgwyliwn y bydd mwy o angen am ddull buddsoddi tymor estynedig ar draws y portffolios ecwiti cam cynnar a thwf (ynghyd â pharodrwydd i gymryd rhai risgiau uwch er mwyn sicrhau ad-daliad tymor hwy) wrth i'r dirwasgiad effeithio ar yr hyn a gaiff ei wireddu. Er bod gan Gronfa Busnes Cymru ddegawd llawn tan ddiwedd y cyfnod gwireddu, amlygodd profiad y dirwasgiad diwethaf a Chronfa JEREMIE bwysigrwydd y dull tymor estynedig hwn (ac osgoi gwerthu cynnyrch ymhell islaw gwerth y farchnad).

Goblygiadau i'r Strategaeth Fuddsoddi

Beth mae'r asesiad yn ei olygu ar gyfer gweddill cyfnod buddsoddi a gwireddu Cronfa Busnes Cymru?

1. Newid yn y galw am gyllid dyled o gyllid twf i gyfalaf gweithio

- Mae'n debygol y bydd galw mawr am gyllid dyled yn nwy ardal y rhaglen. O ystyried yr amodau economaidd heriol, bydd uchelgeisiau llawer o'r BBaChau y mae Cronfa Busnes Cymru yn eu targedu wedi newid o ehangu a thwf i ganolbwyntio ar oroesi a chynaliadwyedd dros y 12 mis nesaf o leiaf. Mae hyn yn awgrymu y bydd newid sylweddol yn y galw tuag at gynnydd yn y galw am gyllid at ddibenion cyfalaf gweithio ar draws dwy ardal y rhaglen ERDF. Mae'r dystiolaeth ar gyfer hyn fel a ganlyn:
 - Maint effaith economaidd COVID-19 ar economïau Cymru a'r DU. Mae rhagolygon diweddaraf Banc Lloegr yn nodi y rhagwelir y bydd cynnyrch domestig gros yn gostwng tua 14% yn 2020. Un o'r prif bethau sy'n dylanwadu ar gynnyrch domestig gros yw trosiant a phroffidioldeb busnesau ac mae cwymp digynsail mewn cynnyrch domestig gros yn rhoi syniad da o'r graddau y mae cyfalaf gweithio busnesau yn cael ei erydu.
 - Mae dystiolaeth o arolygon ar effaith COVID-19 ar drosiant busnesau yn dangos bod trosiant 65% o fusnesau yng Nghymru wedi lleihau. Mae trosiant 47% o fusnesau Cymru wedi gostwng dros 20%, yr ail uchaf o holl ranbarthau'r DU. At hynny, mae gan oddeutu 25% o fusnesau Cymru lai na 3 mis o gronfeydd arian parod, y gyfran uchaf o holl ranbarthau'r DU.

- Mae'r data ar y nifer sy'n manteisio ar CWBLS yn dangos defnydd sylweddol o gyllid at ddibenion cyfalaf gweithio mewn cyfnod byr iawn. Buddsoddwyd dros £92m ym musnesu Cymru dros gyfnod o 4 mis, ac roedd y gronfa wedi'i thanysgrifio'n llawn o fewn wythnos. Roedd benthyciad cyfartalog CWBLS oddeutu £67k (o'i gymharu â maint benthyciad cyfartalog o £322k ar gyfer Cronfa Busnes Cymru). Wrth edrych ar ddata CWBLS ar gyfer ystod buddsoddiadau Cronfa Busnes Cymru (h.y. ac eithrio benthyciadau o dan £50k), mae'r buddsoddiad ar gyfartaledd oddeutu £113k.
- Dylid nodi y gallai newidiadau i bolisi a natur adferiad economaidd fod â goblygiadau i'r argymhelliad hwn. Gallai adferiad ar ffurf v olygu llai o gyllid ar gyfer cyfalaf gweithio, a gallai dirywiad economaidd hirfaith ymestyn y gofyniad am gyllid ar gyfer cyfalaf gweithio yn hwy na'r 12 mis yr ydym wedi'i awgrymu yma.
- O ystyried y cynnydd yn y gofyniad hwn am gyfalaf gweithio, dylid caniatáu i'r gronfa ariannu unig fasnachwyr/perchnogion. Bydd llawer o'u gofynion cyllid yn is na £50k (mae hyn yn is na'r terfyn cyfredol y gall Cronfa Busnes Cymru fuddsoddi ynddo). Er y gallai fod galw cynyddol am gyllid ar lefel sy'n is na £50k, mae'r dystiolaeth yn sgil yr asesiad o'r farchnad yn dangos y gall cyflenwyr a mentrau eraill ddarparu hyn (e.e. y cynllun Benthyciadau Busnesau Newydd, a chronfeydd eraill BDC fel y gronfa Microfenthyciadau). Felly, dylai Cronfa Busnes Cymru barhau i beidio ag ariannu buddsoddiadau o dan £50k.
- Mae'r asesiad wedi dangos bod cyflawni buddsoddiad ecwiti yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd eisoes yn llawer mwy heriol nag yr oedd BDC yn ei ddisgwyl (a dylid cofio bod hwn yn darged ymestynnol), gyda'r Gronfa ar ei hôl hi o ran ei chyfradd fuddsoddi proffil a gyfer ecwiti (-3%), yn enwedig ar gyfer buddsoddiad ecwiti i fusnesau sydd ar gam diweddarach lle mae'r gronfa 32% o dan ei tharged buddsoddi. Gwaethygir hyn ymhellach gan COVID-19, gan fod disgwyl i'r galw am gyllid ecwiti ostwng am y deuddeg mis nesaf o leiaf. Fodd bynnag, mae'r galw am gyllid ecwiti cam cynnar a thwf wedi bod yn gryf yn ardal rhaglen Dwyrain Cymru (ar draws Cronfa Busnes Cymru a chronfeydd eraill BDC sy'n gweithredu yn yr ardal hon, gyda buddsoddiad ecwiti 50% yn uwch na'r proffil).

Camau Gweithredu a Awgrymir

- Rhoi mwy o hyblygrwydd i Gronfa Busnes Cymru ddiwallu gofynion busnesau ar gyfer cyfalaf gweithio o leiaf dros y 9-12 mis nesaf.
- Gallai hyn effeithio ar faint cyfartalog benthyciadau newydd (os yw'r galw yn debyg i CWBLS, mae'n debygol y bydd ar ben isaf ei ystod benthyciadau gyfredol h.y. tua £50,000- £150,000). Fodd bynnag, mae ffrwd buddsoddiadau gyfredol BDC yn fargeinion mwy, gan fod y sector preifat wedi bod yn weithgar o ran darparu buddsoddiadau llai oherwydd y cynllun Benthyciad Adfer a CBILS. Serch hynny, bydd angen i BDC ystyried hyn yn y strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig a'r gwaith modelu ariannol.
- Bydd angen i BDC hefyd ystyried amseriad y symudiad disgwylledig yn ôl o'r galw am gyfalaf gweithio tuag at gyllid twf (er y bydd rhywfaint o amrywiad yn ôl sector) yn y strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig.

2. Cynnydd mewn cyfraddau diffygdalu a gostyngiad mewn enillion etifeddiaeth a datblygu economaidd

- Bydd gan yr argyfwng economaidd presennol oblygiadau i gyfraddau diffygdalu a dileadau'r Gronfa, gan effeithio ar y portffolio cyfredol a benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti yn y dyfodol. Gan fod amodau masnachu a rhagolygon busnes bellach yn llawer mwy heriol, disgwylir y bydd y gyfradd ddiodyn ar gyfer buddsoddiadau Cronfa Busnes Cymru yn cynyddu. Mae'r dystiolaeth ar gyfer hyn yn cynnwys y canlynol:
 - Y gyfradd dileadau a ragdybiwyd yn y cynllun busnes (cyn COVID-19) oedd 25%, gyda 15% ar gyfer benthyciadau a 40% ar gyfer ecwiti. Mae'r gronfa wedi bod yn gyson is na hyn gyda chyfradd dileadau gyffredinol o 7% fel yn Ch1 2020. Yn dilyn COVID-19 a'r adolygiad portffolio, y gyfradd dileadau gyfredol ar gyfer Cronfa Busnes Cymru yw 20% ar gyfer benthyciadau, 25% ar gyfer buddsoddiadau ecwiti presennol a 50% ar gyfer buddsoddiadau ecwiti newydd.
 - Yn ddiweddar, mae BDC wedi cwblhau adolygiad o'r portffolio ac wedi defnyddio darpariaeth o 50% ar gyfer yr holl fuddsoddiadau y bernir eu bod mewn perygl yn sgil COVID-19, sy'n dod i gyfanswm o £8.5m mewn darpariaethau penodol a dileadau erbyn mis Mawrth 2020.

- Mae'r enillion ariannol cyffredinol ac felly'r enillion etifeddiaeth y gallai Cronfa Busnes Cymru eu cynhyrchu yn debygol o fod yn is na'r disgwyl (yn nwy ardal y rhaglen, ond yn enwedig yn GCC) oherwydd:
 - Enillion is ar fuddsoddiad o ystyried y gyfradd uwch ddisgwyliedig o ddiffygdlu a dileadau
 - Cyfradd is o dargedau'n cael eu gwireddu oherwydd newid disgwyliedig yn y cydbwysedd cyffredinol rhwng buddsoddiadau ecwiti a benthygiad na'r hyn a ddisgwylir yn y dyfodol
 - Oedi o ran enillion oherwydd dull buddsoddi tymor estynedig (ar gyfer buddsoddiadau dyled ac ecwiti).
- Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at oblygiadau sylweddol i DPA datblygu economaidd y gronfa. Mae'r rhagolygon economaidd yn awgrymu na fydd dim twf economaidd cyffredinol ar gyfer y flwyddyn nesaf o leiaf. Bydd busnesau a oedd yn disgwyl tyfu yn y cyfnod hwn (ac felly'n cynhyrchu enillion datblygu economaidd) nawr yn gwneud hynny ymhellach i'r dyfodol (ac o bosibl ar ôl i'r rhaglen ERDF ddod i ben at ddibenion monitro), ac efallai na fydd eraill yn goroesi. Rydym yn amlinellu'n fanylach isod y goblygiadau i'r DPA.
- Dylid nodi y gallai newidiadau i bolisi a natur adferiad economaidd fod â goblygiadau i'r argymhelliad hwn. Gallai adferiad ar ffurf v awgrymu llai o achosion o ddiffygdlu (wrth i fusnesau symud yn ôl i dwf). Gallai dirywiad economaidd hirfaith gynyddu'r gyfradd ddiffygdlu ymhellach fyth a fyddai'n arwain at etifeddiaeth sylweddol is na'r hyn a ragwelir ar hyn o bryd.

Camau Gweithredu a Awgrymir

- BDC i ailfodelu'r rhagolwg etifeddiaeth yn y strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig.
- BDC i barhau i adolygu'r portffolio yn rheolaidd a diweddarau'r rhagdybiaethau diffygdlu/dileadau (a goblygiadau hyn i'r etifeddiaeth).

A oes angen newid ffocws a chyflwyniad Cronfa Busnes Cymru?

3. Caniatáu buddsoddiadau cam cynnar ar gyfradd gyd-gyllidol is

- O ystyried maint yr her wrth gyflawni'r targed buddsoddi ecwiti yn y rhaglen GCC (oherwydd yr amodau presennol ac effaith COVID-19) - mae'r gronfa ar 31% o'i tharged buddsoddi proffil o ran buddsoddiadau ecwiti i fusnesau ar gam diweddarach - efallai y bydd cyfle i ddefnyddio'r Fframwaith Dros Dro ar

gyfer Cymorth Gwladwriaethol i alluogi Cronfa Busnes Cymru i wneud buddsoddiadau cam cynnar ar gyfradd is wedi'i hariannu ar y cyd. Mae BDC yn amcangyfrif y gallai hyn alluogi £2.5m o fuddsoddiadau yn rhagor, yn amodol ar hyd yr hyblygrwydd (mae disgwyl iddo ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020 ar hyn o bryd) yn ogystal â'r arfarniadau buddsoddi arferol a phrosesau diwydrwydd dyladwy. Mae'r dystiolaeth ar gyfer hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r gyfradd fuddsoddi flynyddol ar gyfer ecwiti cam cynnar yn GCC wedi bod oddeutu £2.8m, yn erbyn targed o £3.5m (ar gyfer ecwiti yn gyffredinol yn GCC mae wedi bod yn £4.1m y flwyddyn yn erbyn targed o £8.1m). Mae hyn yn debygol o ostwng ymhellach dros y 12 mis nesaf o ystyried bod y dystiolaeth yn awgrymu y bydd yr amodau economaidd yn heriol yn y dyfodol (a bydd y galw yn bennaf am gyfalaf gweithio, fel yr amlinellir uchod).
- Mae profiad cronfa JEREMIE Cymru yn dangos cwymp sydyn yn y galw yn dilyn y dirwasgiad diwethaf, yn rhannol oherwydd y dirywiad yn llif y cynigion buddsoddi da. Gostyngodd cyfradd flynyddol gyfartalog y buddsoddiadau ecwiti yn ardal GCC i £6.3m rhwng 2012-15 o gyfartaledd o tua £10.8m rhwng 2009-11.
- Nid yw BDC yn rhagweld defnyddio'r Fframwaith Dros Dro ar gyfer llawer o fuddsoddiadau. Fel enghraifft, rhagwelir y gellid ei ddefnyddio ar gyfer 3 buddsoddiad cyn diwedd 2020, gyda buddsoddiad o £2.4m. Mae hyn o blith cyfanswm buddsoddiad arfaethedig o £3.8m yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer ecwiti cam cynnar yn GCC. Os estynnir Fframwaith Dros Dro y Cymorth Gwladwriaethol, gellid gwneud yr un faint o fuddsoddiadau o'r un gwerth o dan y fframwaith yn GCC yn 2021/22.
- Felly, hyd yn oed gyda'r buddsoddiadau ychwanegol y gellid eu gwneud o gyfradd cyd-gyllid is, mae'n annhebygol y bydd y targedau buddsoddi yn cael eu cyrraedd (sy'n awgrymu bod angen symud cyfalaf buddsoddi o'r Amcan Strategol hwn).

Camau Gweithredu a Awgrymir

- Mae achos dros ddarparu hyblygrwydd i Gronfa Busnes Cymru ariannu buddsoddiadau ecwiti cam cynnar yn ardal GCC ar gyfradd cyd-gyllid is na'r gofyniad cyfredol o 30%. Fodd bynnag, er nad yw'r asesiad o'r farchnad yn

darparu llawer o dystiolaeth gadarn i nodi maint y buddsoddiad ychwanegol y gallai hyn ei ddatgloi a sut mae hyn yn amrywio yn ôl maint y gostyngiad yn y gyfradd gydariannu (h.y. rhwng 30% a 0%), mae BDC wedi rhoi arwydd o'r buddsoddiad y gellid ei ryddhau, ac a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer bach o fargeinion. Bydd angen i BDC gynnwys y newid disgwyledig yn y gyfradd fuddsoddi gyffredinol ar gyfer ecwiti cam cynnar yn GCC os caiff y newid hwn ei weithredu yn ei waith modelu ariannol.

- Mae angen ystyried hefyd y goblygiadau i arian cyfatebol yn sgil cyfradd cydgyllid ar lefel gyffredinol y gronfa (gan nodi fodd bynnag bod y gronfa ar hyn o bryd ar 180% o'i tharged trosoledd proffil yn y sector preifat. Felly, ni ddisgwylir y bydd ymgymryd â nifer bach o fuddsoddiadau ar gyfradd is na 30% o arian cyfatebol yn cael effaith arwyddocaol ar y targed hwn).

4. *Ailddyrannu buddsoddiad ecwiti twf i gyllid dyled yn GCC*

- Os am sicrhau bod rhaglen GCC yn ymateb i'r bwlch cyllid cyffredinol, mae angen ailddyrannu'r grant ERDF a ddyrannwyd i fuddsoddiad ecwiti i gyllid dyled. Gellir cyfiawnhau hyn ar sail y galw disgwylieidig am fuddsoddiad o dan Amcan Penodol 2.1 (ecwiti twf), ond gallai hefyd gael ei gyfiawnhau o dan Amcan Penodol 2.5 (er y bydd unrhyw hyblygrwydd sy'n gysylltiedig â chyfraniadau yswiriant gwladol a allai gynyddu buddsoddiad yn dylanwadu ar hyn). Er y bydd gan hyn oblygiadau i DPA datblygu economaidd ac etifeddiaeth y gronfa o'i chymharu â'r targedau gwreiddiol, byddai'n chwarae rhan bwysig o ran helpu i ddiogelu busnesau yn ardal y rhaglen. Mae angen i faint yr ailddyraniad o gyllid ecwiti i gyllid dyled hefyd ystyried yr alwad yn y dyfodol ar ecwiti i ddiwallu'r angen am ofynion dilynol ac o bosibl ailgyllido buddsoddiadau portffolio presennol.
- Mae'n anodd bod yn fanwl gywir ynghylch faint o gyllid y mae angen ei ailddyrannu o ystyried yr ansicrwydd ynghylch amodau economaidd y dyfodol. Mae'r gyfradd fuddsoddi flynyddol ar gyfer ecwiti twf yn GCC wedi bod £3.2m yn is na'r proffil hyd yma (buddsoddiad cyfartalog blynyddol o £1.3m y flwyddyn) a disgwylir i hyn ostwng ymhellach dros y 9-12 mis nesaf (a thros gyfnod hwy o bosibl) wrth i fusnesau leihau eu gwariant ac ailwerthuso eu cynllun twf. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod ffynonellau newydd o alw am gyllid ecwiti wrth i fusnesau ddilyn y cyfleoedd ar gyfer twf a grëwyd gan y pandemig ac wrth i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei chymorth i fusnesau sy'n canolbwyntio ar dwf drwy'r Rhaglen Cyflymu Twf.
- Er bod natur yr argyfwng yn wahanol, mae tystiolaeth o gronfa JEREMIE Cymru yn arwydd defnyddiol. Fel yr amlinellwyd uchod, y gyfradd fuddsoddi flynyddol ar gyfer ecwiti yn GCC oedd £8.2m. Rhwng 2009-11 y gyfradd fuddsoddi flynyddol gyfartalog oedd £10.8m, ond rhwng 2012-15 gostyngodd i £6.3m (gostyngiad o 60%) yn rhannol oherwydd effaith y dirwasgiad ar lif busnesau sy'n canolbwyntio ar dwf sy'n chwilio am fuddsoddiad ecwiti.
- Fel enghraifft, rydym yn cymryd y bydd y gyfradd fuddsoddi flynyddol ar gyfer ecwiti twf yn gostwng 50% i ddechrau, ac y bydd gostyngiad o 25% (o'i gymharu â'r lefelau cyfredol) yn y flwyddyn ganlynol, cyn dychwelyd i'r duedd arferol. Mae hyn yn cyfateb i ddiffyg o tua £6.6m y flwyddyn o'i gymharu â'r cynllun busnes, neu £26m yn gyffredinol.

- Fodd bynnag, yn ddiweddarach yn y cyfnod buddsoddi, gallai'r gyfradd gynyddu oherwydd effeithiau ailgyfeirio'r Rhaglen Cyflymu Twf ynghyd ag unrhyw ymatebion polisi sy'n ysgogi twf economaidd ac felly'r adferiad. Fel enghraifft, os yw cyfraddau buddsoddi yn 2022 a 2023 yn unol â'r targed blynyddol cyfredol (o £4.6m), yna byddai'r diffyg yn £20m neu £5m y flwyddyn yn gyffredinol.

Camau Gweithredu a Awgrymir

- BDC i brofi'r strategaeth fuddsoddi ar sail ailddyrannu oddeutu £5-£7m y flwyddyn o gyllid ecwiti twf i gyllid dyled yn GCC (neu £20-£26m yn gyffredinol).

A oes angen newid maint y gronfa?

5. Cynyddu'r cyllid yn GCC

- Y swm sydd ar ôl i'w fuddsoddi yn GCC yw £55.5m dros 3 blynedd (dim ond £9.2m o hwnnw sydd wedi'i ddyrannu i gyllid dyled), sy'n cyfateb i gyfradd fuddsoddi gyfartalog flynyddol o £18.5m. Yn seiliedig ar weithredu'r camau a amlygir uchod, mae'r asesiad yn awgrymu na fyddai angen ailddyrannu grant ERDF o'r rhaglen GCC. Mae'r asesiad o'r farchnad, gan ganiatáu ar gyfer yr ansicrwydd, yn darparu tystiolaeth i ategu'r casgliad hwn.
- Mae maint yr her sy'n wynebu busnesau yn dangos yr angen parhaus am lefelau sylweddol o gyllid allanol ychwanegol yn GCC sy'n annhebygol o gael ei ddarparu gan fanciau'r stryd fawr o ystyried methiannau'r farchnad a'r newidiadau yn y bwlch cyllid. Fodd bynnag, mae sawl agwedd o ansicrwydd yn hyn o beth gan gynnwys y posibilrwydd y bydd llywodraeth y DU (a geriad presennol y busnesau hyn) yn ymestyn y mesurau cyfredol ar yr ochr gyflenwi neu'n cyflwyno mesurau newydd.
- O ran y galw am gyllid allanol ychwanegol mae'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol:
 - Mae'r busnesau yn GCC sy'n manteisio ar CWBLS (yn ogystal â chynlluniau eraill fel CBILS, BBL a grantiau o'r Gronfa Cadernid Economaidd) yn rhoi syniad o'r galw am gyllid, yn enwedig am gyfalaf gweithio. Gwelodd CWBLS alw digynsail, gan fenthycu oddeutu £56m i 817 o fusnesau yn ardal GCC (ar werth cyfartalog o oddeutu £68,400).

- Mae cronfa flaenorol JEREMIE yn rhoi syniad o'r galw ychwanegol am gyllid dyled tymor byr a grëwyd gan sioc economaidd (er yn yr achos hwnnw roedd yn sioc ar yr ochr gyflenwi, ac mae mwy o ddarparwyr o gyllid dyled yn weithredol nawr o'i gymharu ag yn ystod yr argyfwng ariannol). Yn dilyn yr argyfwng ariannol, roedd buddsoddiad dyled yn ardal GCC yn £27m a oedd bron i £8m yn uwch (+ 37%) na'r gyfradd fuddsoddi wedi'i phroffilio, gyda buddsoddiad cyfartalog o bob BBaCh o tua £90k.
- Mae'n debygol iawn hefyd y gall busnesau nad ydynt eto wedi manteisio ar y cyllid allanol sydd ar gael yn gysylltiedig COVID-19 fod angen y cyllid hwn wrth i effaith COVID-19 barhau, yn ogystal â benthycwyr presennol a fydd angen cyllid allanol ychwanegol. Fodd bynnag, mae cryn ansicrwydd ynghylch maint a hyd y galw ychwanegol hwn am gyfalaf gweithio, ynghyd â newidiadau posibl i ymddygiad benthycwyr masnachol y sector preifat ac ymatebion pellach gan lywodraeth y DU (ymestyn y cynlluniau cyfredol neu lansio rhai newydd). Fodd bynnag, y neges gyffredinol yw y bydd galw parhaus yn ardal GCC am gyllid allanol dros y 9-12 mis nesaf o leiaf.
- Yn amodol ar y lefel sylweddol hon o ansicrwydd, gallai fod cyfle i gynyddu buddsoddiad yn ardal GCC o £5m-£10m y flwyddyn yn ychwanegol dros y cyfnod y mae'r galw ychwanegol am gyfalaf gweithio yn parhau (e.e. o leiaf 9 i 12 mis). Mae'r ystod hon yn seiliedig ar ein barn wrth ystyried y dystiolaeth uchod, ac mae'n ystyried nid yn unig ofyniad busnesau am gyllid, ond hefyd i ba raddau y mae hyn yn mynd i'r afael â methiant y farchnad, y gofyniad i gynhyrchu buddion economaidd ac enillion ariannol, ac i leihau achosion o ddiffyg dalu/dileadau. O ystyried y ddibyniaeth hon ar grebwyll, bydd yn bwysig bod BDC yn ystyried yn feirniadol y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r galw ac yn modelu'r senarios gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i helpu i lywio'r rhagdybiaethau sy'n ymwneud â dileadau posibl a'r enillion ariannol.
- Awgrymir y terfyn uchaf o £10m ychwanegol y flwyddyn yng ngoleuni'r defnydd cryf o CWBLS (£56m dros dri mis yn unig - hyd yn oed pe bai'r galw yn 50% o hyn, byddai'n dal i fod yn sylweddol a byddai angen cyllid ychwanegol yn GCC. Fodd bynnag, dylid nodi bod CWBLS yn cynnig cyllid brys llog is ar adeg pan nad oedd darparwyr eraill mor weithgar/ymatebol, ac

felly mae'n anodd cymharu'n uniongyrchol â Chronfa Busnes Cymru).

Byddai'r gofyniad am gyfalaf buddsoddi ychwanegol yn uwch yn y tymor byr iawn (h.y. blwyddyn gyntaf y cyfnod buddsoddi sy'n weddill) ac yna mae'n debygol o ostwng wrth i'r amodau economaidd wella ac wrth i fusnesau newid eu blaenoriaethau tuag at dwf.

- Mae'n bosibl i fentrau cyllid BBaChau cenedlaethol eraill gael eu hystyngtu neu eu cyflwyno er mwyn darparu cyfalaf gweithio i BBaChau ar sail debyg i'r hyn a gynigir drwy Gronfa Busnes Cymru. Mae'n annhebygol y byddai hyn yn dileu'r cyfiawnhad dros y cyllid ychwanegol arfaethedig ar gyfer GCC drwy Gronfa Busnes Cymru, gan nad yw mentrau cenedlaethol yn debygol o gael yr un treiddiad â Chronfa Busnes Cymru gyda BBaChau yn GCC. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi awgrymu terfyn is i adlewyrchu'r posibilrwydd hwn, yn ogystal ag elfennau eraill o ansicrwydd sy'n gysylltiedig â lefel y galw.

Camau Gweithredu a Awgrymir

- BDC i brofi'r goblygiadau i strategaeth fuddsoddi Cronfa Datblygu Cymru yn sgil buddsoddiad cyfalaf ychwanegol rhwng £5m a £10m ar gyfer cyllid dyled yn GCC dros y cyfnod y gallai'r galw ychwanegol am gyfalaf gweithio barhau (e.e. o leiaf 9 i 12 mis).

6. Cynyddu'r cyllid yn ardal DC

- Yn ardal DC y rhaglen, dim ond £4.5m sydd ar ôl gan Gronfa Busnes Cymru i'w fuddsoddi (£1.5m y flwyddyn), ac mae'r cyfan wedi'i ddyrannu i gyllid dyled. Fel yn ardal GCC, mae achos cryf dros gynyddu maint y buddsoddiad mewn ymateb i'r cynnydd disgwylid yn y galw am gyfalaf gweithio. Efallai y bydd rhywfaint o gyfle yma i gynyddu buddsoddiad ecwiti hefyd (e.e. yn enwedig mewn cwmnïau technoleg a gwyddor bywyd).
- Gan ystyried y cyfle i gefnogi cwmnïau yn ardal DC drwy gronfeydd eraill BDC, gallai fod achos dros fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol o £5- £10m y flwyddyn yn ardal DC. Mae'r dystiolaeth i gefnogi hyn yn cynnwys y canlynol:
 - Yn ychwanegol at y galw cryf a welwyd gan Gronfa Busnes Cymru yn ardal DC, mae data ar y nifer a fanteisiodd ar CWBLS yn ardal DC hefyd yn arwydd o'r galw am gyllid. Buddsoddwyd £30m mewn 476 o fusnesau yn ardal DC (ar werth cyfartalog o £63,000). Mae hyn yn cynrychioli 1.1% o'r holl BBaChau yn ardal DC (y ffigur yw 1.3% yn

ardal GCC). Byddai £10m ychwanegol yn cynyddu hyn i 1.3% ac 1.4% yn ardaloedd DC a GCC yn y drefn honno.

- Pe bai'r buddsoddiad ychwanegol yn cael ei ddyrannu'n gymesur â maint pob un o'r rhaglenni (h.y. pe bai'r cynnydd arfaethedig mewn cyfalaf buddsoddi yn ardal DC yn gymesur â'r cynnydd yn ardal GCC), byddai'r cynnydd yn ardal DC oddeutu £4.6m y flwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu ffigur uwch yma er mwyn cydnabod maint y galw am gyfalaf gweithio yn ardal DC, y gwahaniaeth yng ngallu busnesau i gael gafael ar gyllid ym mhob ardal, yn ogystal â'r ffaith bod ardal GCC yn elwa o gyfalaf buddsoddi a newidiwyd o gyllid ecwiti i gyllid dyled.

Camau Gweithredu a Awgrymir

- BDC i brofi'r goblygiadau i strategaeth fuddsoddi Cronfa Busnes Cymru yn sgil buddsoddiad cyfalaf ychwanegol y flwyddyn o £5m a £10m ar gyfer cyllid dyled ac ecwiti yn ardal DC.

A oes angen newid telerau gweithredu Cronfa Busnes Cymru

7. *Defnyddio hyblygrwydd gydag ad-daliadau i gynorthwyo busnesau i fenthycu*
- Bydd angen i Gronfa Busnes Cymru barhau i roi hyblygrwydd i fusnesau'n gysylltiedig â thelerau eu had-daliadau (gan gynnwys egwyl ad-dalu) er mwyn lleihau achosion o ddiffygdlu a dileadau. Fodd bynnag, bydd goblygiadau i hyn o ran amseriad yr etifeddiaeth.
 - Fel y nodwyd yn gynharach, rydym yn disgwyl y bydd mwy o angen am gydbwysedd rhwng dull buddsoddi masnachol tymor estynedig a darbodus ar draws y portffolios ecwiti cam cynnar a cham diweddarach mewn ymateb i effaith y dirwasgiad ar wireddu amcanion.
 - Dylai Cronfa Busnes Cymru fabwysiadu dull tymor estynedig o ymdrin â buddsoddiadau (o ran cynhyrchu enillion ac ad-daliadau). Mae hyn fel arfer yn cael ei gymhwyso yng nghyd-destun buddsoddiad ecwiti ond o ystyried yr amodau economaidd heriol, argymhellir bod hyn yn cael ei gymhwyso i fuddsoddiadau benthyciad hefyd.
 - O dan yr amgylchiadau presennol nid oes gofyniad brys i ddiwygio'r cyfnodau buddsoddi neu wireddu ar gyfer Cronfa Busnes Cymru (a gall y cyfle i newid y cyntaf fod yn gyfyngedig). Mae angen monitro'r angen am yr olaf dros amser.

- Mekanwaith arall i leihau cost benthycha yw gostwng cyfraddau llog. Fodd bynnag, o ystyried yr egwyddorion a amlinellir ar ddechrau'r nodyn hwn (arferion buddsoddi darbodus ac ethos masnachol BDC) dylid parhau i osod cyfraddau benthychiadau newydd ar gyfradd gyffredinol y farchnad, wedi'i haddasu ar gyfer lefel risg y busnesau y mae BDC yn buddsoddi ynddynt. Mae hyn yn berthnasol i gyfalaf gweithio a chyllid twf. Ar gyfer cyfalaf gweithio, mae'r Fframwaith Dros Dro wedi darparu hyblygrwydd tan fis Rhagfyr i ostwng cyfraddau llog. Hyd yn oed gyda'r hyblygrwydd hwn, a'r gofyniad tebygol ar gyfer cyfalaf gweithio y tu hwnt i fis Rhagfyr, rydym yn argymhell bod y cyfraddau llog ar gyfer Cronfa Busnes Cymru yn parhau i gael eu gosod ar gyfradd y farchnad.
- Mae angen monitro hyblygrwydd ad-dalu a chyfraddau llog yn unol â newidiadau i bolisi a natur yr adferiad economaidd. Gallai adferiad ar ffurf v awgrymu rhagolygon twf cryfach ac felly llai o hyblygrwydd gydag ad-daliadau (ond byddem yn dal i argymhell dull tymor estynedig o fuddsoddi). Gallai dirywiad economaidd hirfaith ymestyn y gofyniad am fwy o hyblygrwydd.

Camau Gweithredu a Awgrymir

- BDC i adolygu'r strategaeth fuddsoddi i ystyried ad-daliadau gan fusnesau dros gyfnod hwy.

A yw'r DPA yn dal yn briodol?

8. Addasu Targedau DPA presennol

- Fel y nodwyd yn gynharach, o ystyried yr amodau economaidd a'r newidiadau arfaethedig, mae angen ailasesu'r targedau DPA a osodwyd am oes y gronfa. Mae hyn yn cynnwys:
 - DPA Buddsoddi - nifer y buddsoddiadau, gwerth buddsoddiadau (cychwynnol a dilynol), gwerth cyfartalog y buddsoddiad
 - DPA Datblygu Economaidd - swyddi a gaiff eu creu, swyddi a gaiff eu diogelu a chwmnïau sy'n goroesi
- Ar gyfer y DPA sy'n canolbwyntio ar arloesi, mae perfformiad wedi bod yn uwch na'r proffil (ac mewn rhai achosion mae targedau oes eisoes wedi'u cyrraedd). Fodd bynnag, bydd tynnu cyfalaf buddsoddi o ecwiti yn GCC yn arwain at oblygiadau i'r DPA hyn yn y dyfodol. At ei gilydd, nid oes angen ailystyried y rhain o gofio'r perfformiad cryf a brofwyd hyd yma.

Camau Gweithredu a Awgrymir

- Hatch i weithio gyda BDC i ystyried y goblygiadau i'r DPA yn sgil y newidiadau posibl i'r strategaeth fuddsoddi yn dilyn gwaith modelu cychwynnol ar yr argymhellion uchod gan BDC. Mae angen i hyn ystyried hefyd y rhesymau dros y tanberfformiad hyd yma o ran y DPA creu swyddi i'r graddau y gallai fod yn berthnasol i unrhyw adolygiad o DPA cyffredinol Cronfa Busnes Cymru ac arwain at oblygiadau i dargedau'r rhaglen ERDF.

Rhan B - Adolygiad o Newidiadau Arfaethedig i'r Strategaeth Fuddsoddi

9. Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi

9.1 Mae'r adran hon yn darparu adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi wedi'i diweddaru, a ddiwygiwyd ar ôl rhannu'r canfyddiadau o Ran A yr asesiad hwn (y cyfeirir ati fel y strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig). Mae'n canolbwyntio ar y newidiadau allweddol o'i gymharu â'r strategaeth fuddsoddi flaenorol a adolygwyd yn niweddariad 2018 o'r rhagasesiad (y cyfeirir ati fel y strategaeth fuddsoddi flaenorol). Lle na wnaed unrhyw newidiadau, caiff hynny ei nodi. Mae BDC wedi adolygu'r strategaeth fuddsoddi yn seiliedig ar drafodaeth â Llywodraeth Cymru a Hatch. Rydym yn adolygu:

- Maint a chyfansoddiad arfaethedig y gronfa
- Y ffocws ar sectorau
- Modelu rhagdybiaethau, gan gynnwys cyfraddau buddsoddi a diffygdlu, ac allbynnau
- Gwerth am arian
- Trefniadau llywodraethu
- Monitro a gwerthuso.

9.2 Ym mhob achos rydym yn adolygu ac yn rhoi sylwadau ar y newidiadau i'r strategaeth fuddsoddi yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael, gyda sylw i gloi ar gadernid yr hyn a gynigir.

Maint a Chyfansoddiad Arfaethedig y Gronfa

9.3 Bydd Cronfa Busnes Cymru yn gronfa gwerth £195m (cynnydd cyffredinol o £15m o'i gymharu â'r strategaeth fuddsoddi gyfredol). Mae'r strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig ar gyfer Cronfa Busnes Cymru yn tynnu ar brofiad buddsoddi BDC ei hun ers dechrau'r pandemig COVID-19, yn ogystal â chanfyddiadau Rhan A o'r rhagasesiad wedi'i diweddaru.

9.4 Amlinellir crynodeb o'r newidiadau arfaethedig yn Nhabl Tabl 9.1 isod. Yn seiliedig ar hyn, ac asesiad o'r farchnad, y pwyntiau allweddol i'w nodi yw:

- Mae cynnydd o £15m mewn cyfalaf buddsoddi yn GCC, yn seiliedig ar:
 - Drosglwyddo £25.4m o gyfalaf buddsoddi o ecwiti twf i gyllid dyled (ailddyrianiad o fewn Amcan Penodol 2.1), a throsglwyddo £2.4m o ecwiti cam cynnar i gyllid dyled (ailddyrianiad o Amcan Penodol 2.5 i Amcan Penodol 2.1).

- £15m ychwanegol o gyfalaf buddsoddi ar gyfer cyllid dyled (cynnydd yn Amcan Penodol 2.1)
- Mae hyn ar ben uchaf y raddfa ar gyfer y buddsoddiad ychwanegol a awgrymir yn Rhan A o'r asesiad hwn o'r farchnad, ac mae BDC wedi'i gyfiawnhau ar sail y galw disgwyledig am gyllid (yn enwedig cyllid dyled a chyfalaf gweithio). Mae hyn yn briodol o ystyried yr amgylchiadau anarferol a'r sioc economaidd ddigynsail. Mae rhywfaint o hyblygrwydd hefyd yn y strategaeth fuddsoddi i ddarparu cyllid twf os yw'r economi a natur y galw am gyllid yn gwella'n gyflymach na'r disgwyl. O ystyried profiad blaenorol y Cronfeydd o danfuddsoddi ecwiti yn GCC, mae'r hyblygrwydd hwn yn bwysig.
- Daw mwyafrif y cynnydd hwn yn y cyfalaf buddsoddi ar gyfer cyllid dyled o drosglwyddiad o ecwiti twf. Mae hyn yn ddoeth, o ystyried:
 - Casgliadau'r asesiad o'r farchnad ynghylch maint y dystiolaeth am y cynnydd mawr yn y galw am gyfalaf gweithio (dyled) a gostyngiad ar yr un pryd yn y galw am gyllid twf
 - Y targedau buddsoddi sydd eisoes yn heriol yn GCC ar gyfer ecwiti twf, a'r ffaith bod y gronfa ar ei hôl hi o ran ei thargedau proffil.
- Yn ardal DC, nid oes unrhyw newid yn y cyfalaf buddsoddi cyffredinol. Fel yn ardal GCC, tynnodd yr asesiad o'r farchnad sylw at gynnydd yn y galw am gyllid yma hefyd (o tua £5- £10m), ond mae diffyg cyfalaf buddsoddi ychwanegol (o ERDF neu ffynonellau eraill Llywodraeth Cymru) yn golygu nad oes buddsoddiad cyfalaf ychwanegol wedi'i ddyrannu i ardal DC.
- Yn ardal DC, mae yna drosglwyddiad o £1.6m o gyllid dyled i ecwiti. Nid yw'r asesiad o'r farchnad yn argymhell y newid hwn yn benodol. Fodd bynnag, mae BDC wedi cyfiawnhau hyn ar y sail bod y gronfa bron wedi'i buddsoddi'n llawn (ac felly prin yw'r arian sydd ar gael i'w drosglwyddo i gyllid dyled ac nid oes dim cyfalaf buddsoddi ychwanegol ar gael) ac mae'n seiliedig ar fargeinion a gwblhawyd ers mis Mawrth 2020 a'r ffrwd buddsoddiadau ecwiti newydd a dilynol y mae BDC wedi'i nodi yn ardal DC (ac felly'r gofyniad am fuddsoddiad). Byddai hyn hefyd yn helpu i wrthbwysu'n rhannol (er ar raddfa lawer llai) y gostyngiad mewn ecwiti yn ardal GCC. Yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r gwaith cyfredol sydd ar y gorwel ar gyfer Cronfa Busnes Cymru, mae'r addasiad hwn yn briodol.

Tabl 9.1: Newidiadau i Gyfansoddiad Dyraniadau Buddsoddi Cronfa Busnes Cymru (£m)

	Y Strategaeth Fuddsoddi Flaenorol		Y Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig		Newid	
	DC	GCC	DC	GCC	DC	GCC
2.1 Dyled	£27.6	£60.6	£26.0	£103.4	-£1.6	£42.8
2.1 Ecwiti (Cyfalaf Twf)	£9.4	£36.7	£11.1	£11.3	£1.7	-£25.4
2.5 Ecwiti (Cam Cynnar)	£18.4	£28.2	£18.3	£25.9	-£0.1	-£2.4
Cyfanswm	£55.4	£125.5	£55.4	£140.5	£0.00	£15.0

Ffynhonnell: Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig Cronfa Busnes Cymru (Awst 2020).

Noder: mae hyn yn dangos lefel y buddsoddiad y mae Cronfa Busnes Cymru yn ei wneud ac nid yw'n cynnwys arian cyfatebol y sector preifat ar lefel bargaen

Tabl 9.2: Cyfansoddiad Cronfa Busnes Cymru wedi'i Ddiweddarau

Is-gronfa	Y Strategaeth Fuddsoddi Flaenorol		Y Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig	
	Cyfalaf Buddsoddi (£m)	% o Gronfa Busnes Cymru	Cyfalaf Buddsoddi (£m)	% o Gronfa Busnes Cymru
Benthyciadau	£88.5	49%	£129.4	66%
Ecwiti	£92.4	51%	£66.5	34%
-cam cynnar	£41.1	23%	£44.1	23%
- cam diweddarach (twf)	£51.3	28%	£22.4	11%
Cyfanswm Cronfa Busnes Cymru	£180.9	100%	£195.9	100%

Ffynhonnell: Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig Cronfa Busnes Cymru (Awst 2020)

9.5 At ei gilydd, mae'r newidiadau i gyfansoddiad y gronfa yn gyson â'r asesiad diweddaraf o'r farchnad a'r dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r dull a fabwysiadwyd hefyd yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i addasu'r math o gyllid a ddarperir os bydd yr economi'n adfer yn gyflymach na'r disgwyl. Fodd bynnag, nid yw'n caniatáu ar gyfer canlyniadau posibl, yn nhermau polisi economaidd neu gyhoeddus, ail gyfnod o gyfyngiadau symud llym a/neu ddirwasgiad llawer mwy hirfaith neu ddyfnach.

Y Ffocws ar Sectorau

- 9.6 Yn debyg i'r strategaeth fuddsoddi flaenorol, bydd Cronfa Busnes Cymru yn hyblyg o ran ei ffocws ar sectorau. Dywed y Strategaeth Fuddsoddi fod y *Gronfa yn un gyffredinol, yn hytrach na sector-benodol, a fydd yn rhoi hyblygrwydd i'r Gronfa fuddsoddi ar draws pob sector cymwys. Bydd meini prawf cymhwysedd ERDF yn berthnasol. Bydd y Gronfa yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, dull cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Ffyniant i bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi 2017 sy'n nodi'r model datblygu economaidd newydd ag iddo ffocws rhanbarthol.*
- 9.7 Mae hwn yn ddull synhwyrol sy'n sicrhau bod y Gronfa'n cyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru i ddatblygu sectorau allweddol, gan gynnal yr hyblygrwydd mwyaf posibl o ran cyflawni. I raddau mae'r angen am gyllid ymhlith sectorau nad ydynt yn gymwys i gael buddsoddiad gan Gronfa Busnes Cymru yn cael ei ddiwallu gan gronfeydd eraill Banc Datblygu Cymru. Hefyd er bod y pandemig wedi creu galw mawr am gymorth ariannol na fydd y sector preifat yn ei ddiwallu ar draws pob sector, mae cymorth ariannol ac anariannol penodol ar gyfer sectorau sy'n anghymwys ar gyfer Cronfa Busnes Cymru wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru.

Rhagdybiaethau Modelu'r Strategaeth Fuddsoddi


- 9.8 Yn sail i Gronfa Busnes Cymru mae model ariannol manwl, yn seiliedig ar brofiad BDC o ddarparu offerynnau ariannol yng Nghymru. Mae llawer o'r rhagdybiaethau allweddol yn y model ariannol yn aros yr un fath ag yn y strategaeth fuddsoddi flaenorol. Rydym yn adolygu'r newidiadau allweddol a wnaed i'r prif ragdybiaethau isod.

Cyfraddau Buddsoddi

- 9.9 Yn ardal DC, mae'r gronfa bron wedi'i buddsoddi'n llawn gyda dim ond £4.5m ar ôl i'w fuddsoddi hyd at ddiwedd 2023. Mae hyn oll wedi'i broffilio i'w fuddsoddi yn 2020/21, gyda llawer o'r buddsoddiad eisoes ar y gweill. O ystyried y gyfradd fuddsoddi hyd yma (£13.6m y flwyddyn yn gyffredinol) nid oes unrhyw reswm amlwg pam na ellid cyflawni hyn.
- 9.10 Yn ardal GCC y rhaglen, erbyn hyn, yn seiliedig ar y strategaeth ddiwygiedig arfaethedig, mae £70.5m ar ôl i'w fuddsoddi (sy'n cyfateb i oddeutu £17.5m y flwyddyn):

- Y gyfradd fuddsoddi ofynnol ar gyfer cyllid dyled yw £13m y flwyddyn. Mae hyn yn unol â'r cyfraddau ar gyfer Cronfa JEREMIE Cymru ar gyfer cyllid dyled a'r hyn a gyflawnwyd hyd yma gan Gronfa Busnes Cymru yn ardal GCC (£13.4m a £13.7m y flwyddyn yn y drefn honno). Er bod hyn yn unol â thystiolaeth asesiad y farchnad, dylid nodi bod ansicrwydd ynghylch gallu BBaChau i ysgwyddo cyllid dyled ychwanegol, neu faint y risg sy'n gysylltiedig â buddsoddi os bydd cynnydd mawr yn y gyfradd methiant. Felly, mae angen monitro hyn yn ofalus iawn.

Ffigur 9.1: Cyfraddau Buddsoddi Blyneddol Diwygiedig yn GCC (£m)



Ffynhonnell: Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig Cronfa Busnes Cymru (Awst 2020)

- Ar gyfer ecwiti, mae hyn gyfwerth â £3.6m y flwyddyn. Mae hyn yn is na chronfa flaenorol Cymru JEREMIE (£8.2m y flwyddyn) a phrofiad Cronfa Busnes Cymru hyd yma (£5m y flwyddyn). Gan dybio bod galw parhaus am gyllid ecwiti yn 2020/21, dylai fod modd cyflawni'r gyfradd hon. Byddai cwmp yn y galw am fuddsoddiad ecwiti am weddill y flwyddyn (2020) yn arwain at gyfradd fuddsoddi ofynnol o £4.8m ar gyfer y cyfnod buddsoddi sy'n weddill, y flwyddyn, sy'n unol â'r gyfradd buddsoddi ecwiti a gyflawnwyd gan Gronfa Busnes Cymru yn ardal GCC hyd yma. Ymhellach, yn y strategaeth fuddsoddi flaenorol roedd BDC yn rhy optimistaidd o ran y gyfradd fuddsoddi y gellid ei chyflawni ar gyfer cyllid ecwiti yn ardal GCC (er bod hyn yn bennaf ar gyfer ecwiti twf, y mae swm llawer is o gyfalaf buddsoddi wedi'i ddyrannu iddo erbyn hyn). Mae hyn yn awgrymu pe bai

amodau mwy heriol byth yn codi yn 2020, gallai'r gyfradd fuddsoddi ofynnol fod yn gyraeddadwy o hyd ond mae angen ei monitro'n ofalus iawn.

Diffygddal/Dyleadau

- 9.11 Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfraddau dileadau tybiedig ar gyfer pob math o gyllid yng Nghronfa Busnes Cymru, o'i gymharu â'r strategaeth fuddsoddi flaenorol a'r cyfraddau dileadau a gyflawnwyd yng nghronfa JEREMIE. Y casgliad cyffredinol yw, er bod y cyfraddau tybiedig yn cyd-fynd â'r profiad o Gronfa JEREMIE Cymru, gallent fod yn heriol i'w cyflawni o ystyried yr amodau economaidd anodd ac ansicr ac mae angen eu monitro'n ofalus drwy weddill y cyfnod buddsoddi. Rydym yn argymhell bod y senario mwy pesimistaidd yn y strategaeth fuddsoddi yn cael ei defnyddio fel yr achos canolog ar gyfer rhagamcanion y gronfa yn y dyfodol.

Tabl 9.3: Rhagdybiaethau Diwygiedig o'r Gyfradd Dileadau

	Buddsoddiad Blaenorol Strategaeth	Y Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig	Alldro Cronfa JEREMIE	Sylw
Benthyciadau	15%	20%	13%	Mae'r rhagdybiaeth ddiwygiedig o 20% o ddileadau dros oes y gronfa yn rhesymol o ystyried perfformiad cronfa fenthyciadau JEREMIE (er y dylid cofio bod hyn yn cael ei ddylanwadu'n rhannol gan yr amodau cyflenwi a arweiniodd at y banciau'n i lleihau eu benthyciadau i BBaChau, ac felly roedd y cynigion buddsoddi a gafodd JEREMIE o ansawdd uwch na'r disgwyl yn wreiddiol, sy'n cael eu hadlewyrchu yn y gyfradd dileadau is o gymharu â'r cynllun busnes). Bydd y graddau y mae hyn yn wir am Gronfa Busnes Cymru yn dibynnu ar a yw'r cyfyngiadau ar y cyflenwad yn parhau yn dyfodol, ond rhaid cofio hefyd bod y sioc economaidd ar ochr y galw yma yn hytrach nag ar ochr y cyflenwad (ac felly'n wahanol iawn o'i gymharu â JEREMIE). Cyfradd diffygddalu gyfredol Cronfa Busnes Cymru (y dileadau hyd yn hyn ynghyd â darpariaethau gwirioneddol) ar gyfer benthyciadau yw 12%, sy'n uwch na chyfradd y proffil, yn bennaf oherwydd COVID-19. Disgwylir i hyn godi o ystyried yr amodau economaidd heriol disgwylidig yn y dyfodol (er bod mwy o gyfalaf buddsoddi ar gyfer buddsoddiadau benthyciad bellach yn golygu bod mwy o botensial i arallgyfeirio). Serch hynny, gallai cyflawni hyn fod yn her ac mae angen ei fonitro'n ofalus iawn.
Ecwiti	40%	40%	55%	Mae'r gyfradd dileadau dybiedig ar gyfer Cronfa Busnes Cymru yn is na'r gyfradd gyfredol ar gyfer Cronfa JEREMIE Cymru, sydd ei hun yn llawer uwch na'r rhagdybiaeth yn ei chynllun busnes gwreiddiol (o 34%). Gallai'r berthynas agosach rhwng BDC a Busnes Cymru o'i chymharu ag yng nghyfnod Cronfa JEREMIE Cymru chwarae rôl yma o ran sicrhau cyfradd is - yn yr un modd â'r ddarpariaeth is o fuddsoddiad ecwiti yn GCC. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau y mae COVID-19 ac amodau economaidd yn eu rhoi ar fusnesau, (ynghyd â'r hyn a welwyd yng Nghronfa JEREMIE), gallai hyn fod yn gyfiawnhad dros gyfradd dileadau uwch (e.e. yn y prawf sensitifrwydd isod, mae'r gyfradd yn cynyddu i 50%, sydd yn ein barn ni yn rhagdybiaeth llawer mwy synhwylol i'w defnyddio).

9.12 Mae'r cyfraddau diffygddal wedi bod yn destun profion sensitifrwydd, sy'n archwilio'r goblygiadau yn sgil cynnydd ar draws yr holl bortffolios (a ddangosir isod). Ym mhob senario, mae cyllid Cyfalaf Trafodion Ariannol o £30m yn cael eu ad-dalu'n llawn, ac felly mae newidiadau i'r cyfraddau diffygddal ond yn effeithio ar yr etifeddiaeth (tybir hefyd bod y gronfa wedi'i buddsoddi'n llawn ac felly nid oes gan newidiadau i gyfraddau diffygddal unrhyw oblygiad i ddangosyddion perfformiad allweddol eraill).

Tabl 9.4: Prawf Sensitifrwydd Cyfradd Diffygddal Cronfa Busnes Cymru

Senario	Etifeddiaeth (£m)	Newid o gymharu ag Etifeddiaeth yr Achos Sylfaenol	% o Enillion ERDF
<i>Y Strategaeth Fuddsoddi Flaenorol</i>	£99.3	-	74%
Yr achos sylfaenol (Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig)	£107	-	63%
Cynyddu ecwiti i 50%	£97.6	£-9.3 (-9%)	59%
Cynyddu cyllid dyled i 30%	£91.4	£-15.6 (-15%)	55%
Cynnydd ar yr un pryd	£82.1	£-24.9 (-23%)	49%

DPA

9.13 Mae pob un o DPA Cronfa Busnes Cymru wedi'u hadolygu a'u haddasu yn y strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig. Mae'r addasiadau hyn yn cael eu hysgogi gan:

- Newidiadau i (i) swm cyffredinol y cyfalaf buddsoddi, a (ii) y cyfalaf buddsoddi yn ôl gwahanol fathau o gyllid. Mae pob math o gyllid yn arwain at enillion gwahanol ar fuddsoddiad ar gyfer pob DPA (e.e. swyddi a gaiff eu creu fesul £ o ddyled neu fuddsoddiad ecwiti).
- Perfformiad Cronfa Busnes Cymru hyd yma - y dull y mae BDC wedi'i fabwysiadu ar gyfer addasu'r DPA yw cyfrifo meincnodau ar gyfer y DPA a gyflawnwyd fesul £ o fuddsoddiad hyd yma ar gyfer Cronfa Busnes Cymru (yn ôl gwahanol fathau o gyllid). Mewn rhai achosion mae hyn wedi arwain at ostwng mewn DPA (er gwaethaf cynnydd mewn cyfalaf buddsoddi) oherwydd perfformiad is na'r disgwyl hyd yma.
- Addasiadau i adlewyrchu'r amodau economaidd yn sgil COVID-19 - bydd rhai DPA yn cael eu heffeithio'n andwyol oherwydd amodau economaidd heriol o

ganlyniad i COVID-19 (e.e. swyddi a gaiff eu creu). Felly, gwnaed set o addasiadau penodol i rai DPA i sicrhau eu bod yn realistig ac yn gyflawnadwy.

9.14 Ar gyfer pob KPI rydym yn adolygu isod sut y cawsant eu cyfrifo ac yn rhoi sylwadau ar briodoldeb yr addasiadau. Rydym wedi amlinellu:

1. Y DPA blaenorol ar gyfer y strategaeth fuddsoddi flaenorol
2. Y targed newydd ar gyfer y cyfalaf buddsoddi diwygiedig yn seiliedig ar ddefnyddio'r rhagdybiaethau yn y strategaeth fuddsoddi flaenorol (h.y. cymhwyso rhagdybiaethau cost uned o'r strategaeth fuddsoddi flaenorol i'r cyfalaf buddsoddi newydd o £195.9m).
3. Y DPA diwygiedig a nodir yn y strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig. Cyfrifir hyn ar sail perfformiad y DPA hyd yma a chymhwyso addasiadau penodol ar gyfer COVID-19.

Tabl 9.5: DPA Craidd Diwygiedig Cronfa Busnes Cymru

DPA	Targed Blaenorol	Targed newydd yn seiliedig ar gymhwyso rhagdybiaethau strategaeth fuddsoddi flaenorol	DPA wedi'i addasu (h.y. targed newydd)	Sylwadau ar natur yr addasiad/cyfrifiad
Buddsoddi mewn Busnesau (£m)	£180.9	-	£195.9	Disgrifiwyd hyn uchod. Noder, yn strategaeth fuddsoddi BDC (ac mewn rhagasesiadau blaenorol) mae hyn yn cyfeirio at fuddsoddiad uniongyrchol gan BDC (h.y. heb gynnwys arian cyfatebol y sector preifat ar lefel bargaen).
Swyddi a gaiff eu creu	4,208	4,545	2,160	Yn seiliedig ar y cynnydd mewn cyfalaf buddsoddi a'r rhagdybiaethau o'r strategaeth flaenorol, y targed diwygiedig ar gyfer creu swyddi fyddai 4,525 cyfwerth ag amser llawn. Yna addaswyd hyn i 2,160 cyfwerth ag amser llawn er mwyn adlewyrchu'r ffactorau canlynol: - Tanberfformiad o ran y targed swyddi a gaiff eu creu hyd yma (77% o'r proffil cyfredol). Mae defnyddio'r gyfradd hon o swyddi a gaiff eu creu yn arwain at darged o 3,994. Mae angen archwilio'r rhesymau dros y tanberfformiad hwn yn ofalus yn yr Gwerthusiad Canol Tymor. Efallai fod nifer y swyddi a gaiff eu creu yn llai ond eu bod o werth uwch (h.y. swyddi mwy cynhyrchiol). Efallai fod y targedau a osodwyd yn rhy optimistaidd, fel yn achos Cronfa JEREMIE (a werthuswyd gan Hatch), neu yn benodol eu bod yn rhy optimistaidd ar gyfer GCC (sy'n cyfrif am fwyaf y tanberfformiad ar gyfer y DPA hwn). Hefyd, gall y gyfradd ymateb fod yn isel gan fusnesau y buddsoddwyd ynddynt ar ffurflenni monitro y mae'r BDC yn eu defnyddio i lunio ei adroddiadau monitro. Yn ymarferol, gall fod yn gyfuniad o'r tri mater hyn, ynghyd â ffactorau macro-economaidd eraill megis marchnad lafur dynn. At ei gilydd, mae hyn 12% yn is na'r hyn y byddid wedi'i ddisgwyl wrth gymhwyso cyfradd darged y strategaeth fuddsoddi flaenorol i gyfanswm y cyfalaf buddsoddi newydd. - Y disgwyliad yw y bydd busnesau'n debygol o symud eu ffocws i oroesi yn hytrach na thwff. Yr addasiadau a gymhwysir yw lleihau nifer y swyddi a gaiff eu creu (o'r holl fuddsoddiadau) 50% yn y flwyddyn gyfredol, ac yna 25% ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Noder bod hyn yn dod o bob buddsoddiad (felly nid buddsoddiadau newydd yn unig). Mae hyn yn arwain at y DPA diwygiedig o 2,160 (gostyngiad o 54% o'i gymharu â 3,994 h.y. y rhagolwg wrth ddefnyddio'r gyfradd creu swyddi a gyflawnwyd

				hyd yma). Mae'n anodd llunio cymariaethau o ystyried natur unigryw'r sioc economaidd hon, ond mae hyn yn cyd-fynd yn fras â Chronfa JEREMIE lle roedd y swyddi a grëwyd 46% yn is na'r targed diwygiedig yn ystod yr argyfwng ariannol). Bydd gan y DPA diwygiedig hwn oblygiadau pwysig i werth am arian posibl y gronfa (rydym yn tynnu sylw at y goblygiadau hyn isod).
Swyddi a Gaiff feu Diogelu (fel Dangosydd Craidd)	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	1,856	O ystyried bod yr asesiad o'r farchnad wedi dod i'r casgliad bod disgwyl i fusnesau ganolbwyntio ar oroesi a chynaliadwyedd yn hytrach na thwrf, mae swyddi a gaiff eu diogelu bellach wedi'u diffinio fel dangosydd craidd yn hytrach na dangosydd gwerth ychwanegol. Dim ond swyddi a gaiff eu diogelu yn y dyfodol sydd wedi'u cynnwys yn y DPA hwn. Er y gallai fod wedi bod yn werth cynnwys DPA ychwanegol i gofnodi'r nod goroesi hwn, mae'n synhwyrol defnyddio swyddi a gaiff eu diogelu o ystyried bod hyn eisoes yn cael ei fonitro gan Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru a'i fod yn fesur y cytunwyd arno ac a dderbyniwyd gan randdeiliaid (gan nodi rhai cafeatau o ran ei ddefnyddio). Cyfrifwyd y DPA diwygiedig hwn drwy gymhwyso meincnodau ar gyfer swyddi a gaiff eu diogelu fesul £ a fuddsoddwyd hyd yma i'r dyraniadau buddsoddi diwygiedig (gan nodi bod hyn yn seiliedig ar hunanadrodd gan fusnesau ar y pwynt buddsoddi). Gyda 3,561 o swyddi eisoes wedi'u diogelu gan y gronfa hyd yma, mae hyn yn golygu, at ei gilydd, y bydd y gronfa'n diogelu tua 5,400 o swyddi. Mae hyn yn is na'r DPA cyffredinol ar gyfer swyddi a gaiff eu diogelu yn y strategaeth fuddsoddi flaenorol (7,482). Mae hyn yn adlewyrchu'r perfformiad hyd yn hyn (ond hefyd natur y ffordd y mae hyn yn cael ei gofnodi, gan ddibynnu ar hunanadrodd gan fusnesau y buddsoddwyd ynddynt, nad yw efallai bob amser yn gywir). Ar y cyfan, byddem wedi disgwyl i gyfradd y swyddi a gaiff eu diogelu gynyddu o'i chymharu â'r cyfnod buddsoddi hyd yma, o ystyried y newid mewn ffocws i oroesi (ac felly yn ymarferol efallai na fydd yn briodol defnyddio'r gyfradd swyddi a gaiff eu diogelu a gyflawnwyd hyd yma fel sail i'r amcangyfrif yn y dyfodol). Felly mae'r amcangyfrif yn geidwadol yn ein barn ni a dylid darparu tystiolaeth bellach i gyfiawnhau pam y cafodd ei gyfrifo ar y sail hon.
Nifer y busnesau sy'n cael cymorth	47	50	65	Mae'r DPA hwn wedi'i ddiwygio tuag i fyny (o'i gymharu â defnyddio'r ffigur wrth gymhwyso'r gyfradd o'r strategaeth fuddsoddi flaenorol) yn seiliedig ar berfformiad

i gyflwyno cynhyrchion sy'n newydd i'r cwmni				uwch na'r targed gan y gronfa hyd yma. Er y byddem yn disgwyl i hyn ostwng (o ystyried bod llai o gyfalaf buddsoddi ar gyfer ecwiti), mae'r perfformiad hyd yn hyn yn awgrymu y dylai fod modd cyflawni hyn.
Nifer y busnesau sy'n cael cymorth	522	550	488	Gan gymhwyso'r gyfradd o'r strategaeth fuddsoddi flaenorol i gyfanswm y cyfalaf buddsoddi o £195.9m, mae hyn yn arwain at ffigur diwygiedig o 550 o fusnesau sy'n/ cael cymorth. Fodd bynnag, wrth gymhwyso cyfraddau'r hyn y mae'r gronfa wedi'i gyflawni hyd yma, y targed diwygiedig yw rhoi cymorth i 488 o fusnesau. Mae hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiadau cyfartalog uwch na'r disgwyl (ar draws pob math o gyllid ym mhob maes), yn enwedig ar gyfer buddsoddiad ecwiti. Mae gwerthoedd cyfartalog buddsoddiad wedi bod 6% yn uwch na phroffil benthyciadau, 45% ar gyfer ecwiti cam diweddarach a 134% yn uwch ar gyfer ecwiti cam cynnar. Yn y dyfodol, byddem yn disgwyl i werthoedd buddsoddi cyfartalog fod yn is na'r hyn a brofwyd hyd yn hyn, o ystyried bod mwy o gyllid wedi'i ddyrannu i ddyled a chynnydd yn y galw am gyfalaf gweithio. Ar y llaw arall, mae'r llif presennol o fuddsoddiadau ar gyfer Cronfa Busnes Cymru yn dal i fod yn fargeinion cymharol fawr, a gwneir mwy o fuddsoddiadau dilynol yn nes ymlaen yn y cyfnod buddsoddi (sy'n cynyddu'r lefelau buddsoddiad fesul busnes sy'n cael cymorth). Mae angen parhau i fonitro'r DPA hwn yn fanwl, yn enwedig ar gyfer dyled yn GCC.
Buddsoddiad preifat wedi'i ysgogi (Lefel y Fargen)	£139m	£201m	£333m	Mae hwn yn ffigur sylweddol uwch na'r targed blaenorol. Y rheswm am hyn yw bod y gronfa eisoes wedi perfformio'n well na'i tharged (buddsoddiad a ysgogwyd gan y sector preifat o £260m ym mis Mehefin 2020, yn erbyn targed wedi'i broffilio o £97m a tharged oes o £139m). Mae cymhwyso'r targed blaenorol i'r cyfalaf buddsoddi o £190m yn arwain at darged o £201m mewn buddsoddiad preifat a ysgogwyd. Yn y dyfodol, mae'r rhagamcanion wedi'u haddasu i adlewyrchu'r ffaith y bydd llai o fuddsoddiadau ecwiti (a hefyd yr anhawster posibl i ddenu'r un lefelau o arian cyfatebol ag a roddwyd yn flaenorol o dan amodau economaidd heriol). Felly mae'r rhagamcanion wedi'u seilio ar gymhareb 1:1 o arian cyfatebol i fuddsoddiad uniongyrchol gan BDC ar gyfer pob buddsoddiad newydd. Mae hon yn rhagdybiaeth synhwyrol, ac er gwaethaf perfformiad cryf hyd yma, dylid monitro hyn yn fanwl o hyd i sicrhau bod y gronfa'n parhau i fuddsoddi cymaint â phosibl ochr yn ochr â'r sector preifat.

Gwerth am Arian

9.15 Rydym wedi defnyddio'r targedau allbwn diweddaraf a amlinellwyd uchod i ailedrych ar werth am arian Cronfa Busnes Cymru. Gwnaethpwyd hyn ar sail ddangosol drwy edrych ar y gost gros a net (ar ôl enillion etifeddiaeth) fesul swydd a grëwyd gan ganiatáu ar gyfer grant ERDF a chyfanswm buddsoddiad y sector cyhoeddus (h.y. ERDF, Cyfalaf Trafodion Ariannol a chyfraniad Llywodraeth Cymru). Cymharwyd y costau uned hyn â'r rhai a brofwyd gan Gronfeydd eraill a gefnogir gan ERDF, o dystiolaeth werthuso. Y pwyntiau allweddol yw:

- Yn seiliedig ar gostau buddsoddi ERDF yn unig, amcangyfrifir mai cost gros oes fesul swydd gros a gaiff ei chreu yw £76,800. Yn seiliedig ar yr holl gyllid gan y sector cyhoeddus i Gronfa Busnes Cymru (ERDF ynghyd â chyfraniadau Llywodraeth Cymru a Chyfalaf Trafodion Ariannol), y gost gros hon fesul swydd a gaiff ei chreu yw £90,700. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r costau uned yn seiliedig ar y strategaeth fuddsoddi flaenorol (£31,800 a £43,000 yn y drefn honno), o ystyried y cynnydd mewn cyfalaf buddsoddi (ac felly'r costau), y gostyngiad yn nifer y swyddi y disgwylir eu creu ac enillion etifeddiaeth is (o'i gymharu â swm buddsoddiad ERDF). Mae hyn yn sylweddol uwch nag ar gyfer cronfeydd blaenorol a gefnogwyd gan y sector cyhoeddus yr ydym wedi'u gwerthuso (gyda chyfartaledd o oddeutu £20,000 o gost gros fesul swydd gros).
- Mae'r cynnydd hwn yn y metrigau costau uned (ac felly llai o werth am arian) o'i gymharu â'r strategaeth fuddsoddi flaenorol yn cael ei ysgogi gan y gostyngiad yn y gyfradd creu swyddi hyd yma, addasiadau i dargedau creu swyddi o ganlyniad i COVID-19, a llai o etifeddiaeth oherwydd cyfradd dileadau uwch.
- Fel y dangosir yn y tabl isod, mae profiad JEREMIE a sefydliadau cyllid eraill a gefnogir yn gyhoeddus yn awgrymu bod benthyciadau yn fwy effeithiol o ran creu swyddi na buddsoddiadau ecwiti. Fodd bynnag, dylid nodi bod y mesur swyddi a gaiff eu creu yn cofnodi dim ond un elfen o fanteision buddsoddiadau ecwiti, y mae llawer ohonynt yn dibynnu'n drwm ar arloesi, yn swyddi â chyflogau uwch yn nodweddiadol, a chanddynt gyfraddau cynhyrchiant llawer uwch fesul swydd. Dyma un rhesymeg dros y dangosyddion allbwn gwerth ychwanegol ar gyfer is-gronfa ecwiti Cronfa Busnes Cymru.
- Mae'r gost net fesul swydd ychwanegol net a gaiff ei chreu yn enghreifftiol, gan nad ydym yn gwybod cyfran y swyddi a gaiff eu creu a fydd yn swyddi net ychwanegol. Er mwyn cynnig ffigurau ychwanegol net, rydym wedi cymryd

tystiolaeth o'r Gwerthusiad Terfynol o Gronfa JEREMIE Cymru, a nododd fod tua 86% o'r swyddi gros a gaiff eu creu yn debygol o fod yn swyddi ychwanegol. Mae'r cyfrifiadau cost net yn defnyddio'r rhagolygon ar yr enillion blaenorol a gynhyrchwyd gan Gronfa Busnes Cymru ac fe'u cyfrifir fel cost buddsoddi gros ERDF llai yr enillion etifeddiaeth a ragwelir i ERDF.

- Ar gyfer yr enillion etifeddiaeth achos sylfaenol (£107m), amcangyfrifir mai'r gost net i'r sector cyhoeddus fesul swydd ychwanegol net yw £31,700. Wrth edrych ar yr enillion etifeddiaeth ar gyfer cyfraddau diffygdlu uwch yn y portffolios benthyciadau ac ecwiti (felly etifeddiaeth o £82m), y gost fesul swydd ychwanegol net yw £45,100. Yr olaf yw'r hyn y byddem yn ei awgrymu fel yr achos sylfaenol (o gofio nad yw'r achos sylfaenol yn rhagdybio unrhyw newid yn y gyfradd dileadau ar gyfer buddsoddiadau ecwiti).
- Mae hyn hefyd yn uwch na'r gwerth am arian ar gyfer rhaglenni cymorth busnes eraill (gyda gwerth am arian ar oddeutu £21,000 o gost fesul swydd ychwanegol net).

Tabl 9.6: Dangosyddion Gwerth am Arian Cronfa Busnes Cymru

	Ecwiti	Benthyciadau	Cyfanswm
Y Strategaeth Fuddsoddi Flaenorol			
Cost gros fesul swydd a gaiff ei chreu			
-grant ERDF yn unig	£59,100	£21,200	£31,800
-cyfanswm buddsoddiad y sector cyhoeddus (ERDF a Chyfalaf Trafodion Ariannol)	£78,100	£29,300	£43,000
Cost net ERDF fesul swydd ychwanegol net a gaiff ei chreu*	£26,800	£3,200	£9,500
Y Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig			
Cost gros fesul swydd a gaiff ei chreu			
-grant ERDF yn unig	£108,000	£67,900	£76,800
-cyfanswm buddsoddiad y sector cyhoeddus (ERDF a Chyfalaf Trafodion Ariannol)	£140,000	£76,800	£90,700
Cost net ERDF fesul swydd ychwanegol net a gaiff fei chreu - achos sylfaenol*	£31,700		
Cost net ERDF fesul swydd ychwanegol net a gaiff ei chreu - cynnydd mewn achosion o ddiffygdlu*	£45,100		

Ffynhonnell: Hatch yn seiliedig ar Strategaeth Fuddsoddi Cronfa Busnes Cymru (Diwygiwyd Awst 2020)* yn cynnwys addasiadau i gyfrif am ddifuddiant a dadleoli, a'r enillion etifeddiaeth.

9.16 Mae'r asesiad gwerth am arian yma yn cael ei ysgogi gan greu swyddi. Y cafeatau sy'n gysylltiedig â hyn yw:

- Fel yr amlinellir uchod, mae'r newid tuag at alw am gyfalaf gweithio a goroesi, ynghyd â'r tanberfformiad hyd yma yn erbyn y targed swyddi a gaiff eu creu, wedi lleihau'r DPA creu swyddi. Mae hyn felly wedi gwaethygu gwerth am arian (yn enwedig mewn termau gros, mae'n uchel o'i gymharu â rhaglenni eraill).
- Nid yw'r fframwaith hwn yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ansawdd swyddi neu gynhyrchiant (a fyddai'n cael eu hadlewyrchu'n well drwy edrych ar greu cyfoeth). Mae angen archwilio hyn fel rhan o effaith economaidd newydd y gronfa yn y Gwerthusiad Canol Tymor.
- Wrth edrych ar gostau net, mae gwerth am arian yn gwella, ond mae hyn yn dibynnu ar gyflawni'r etifeddiaeth a ragwelir.

- 9.17 At hynny, ni chaiff effaith swyddi a gaiff eu diogelu eu nodi yn y fframwaith uchod. Bydd buddsoddiadau gan Gronfa Busnes Cymru yn cefnogi cynhyrchiant gwell mewn busnesau y buddsoddwyd ynddynt a fydd yn diogelu swyddi (yn hytrach na chreu swyddi, y byddem yn eu disgwyl o dan amgylchiadau economaidd arferol), fodd bynnag, mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth empirig ar hyn (a'i droi'n asesiad gwerth am arian). Fel enghraifft, os caiff y swyddi hyn eu diogelu am dros flwyddyn, mae hyn gyfwerth â £73m o werth ychwanegol gros sy'n cael ei gadw yng Nghymru. Mae angen i'r Gwerthusiad Canol Tymor a'r gwerthusiad terfynol ddarparu trosolwg cynhwysfawr o'r ystod o effeithiau economaidd y gallai'r gronfa eu cyflawni.
- 9.18 Er ein bod wedi cymharu gwerth am arian â mentrau blaenorol, dylid nodi ei bod yn anodd llunio cymariaethau uniongyrchol â Chronfa Busnes Cymru o ystyried yr amodau economaidd unigryw presennol (ynghyd ag ansicrwydd ynghylch y dyfodol).

Trefniadau llywodraethu

- 9.19 BDC Buddsoddiadau (14) Cyf yw rheolwr penodedig y Gronfa Ddaliannol ar gyfer Cronfa Busnes Cymru (h.y. mae'n rheoli a gweinyddu'r gronfa ar ran Llywodraeth Cymru), fel Endid a Ymddiriedwyd. Mae hwn yn ddull synhwyrol o ystyried profiad y cwmni, ei strwythur a'i berchnogaeth. Ers y strategaeth fuddsoddi wreiddiol, penodwyd BDC FM Cyf i ddarparu'r is-gronfeydd yn dilyn proses gaffael gystadleuol. Mae gan BDC hanes llwyddiannus fel rheolwr y Gronfa Ddaliannol a Rheolwyr Cronfa JEREMIE Cymru a chronfeydd eraill Llywodraeth Cymru.

Monitro a Gwerthuso

- 9.20 Mae gan BDC brofiad helaeth o fonitro'r modd y darperir cronfeydd buddsoddi gyda chefnogaeth ERDF:
- Mae BDC yn gweithredu cyfres o systemau TG i fonitro a chofnodi data perfformiad cronfeydd, y mae wedi'u defnyddio o'r blaen i fonitro cronfeydd buddsoddi a gefnogir gan ERDF.
 - Cynhyrchir adroddiadau chwarterol ffurfiol, sy'n darparu sylfaen ar gyfer cyfarfodydd adolygu rheolaidd rhwng BDC, BDC FM Cyf, WEFO a Llywodraeth Cymru. Cynhyrchir adroddiadau hefyd ar gyfer y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.
 - Cynhyrchir Adroddiadau Gweithredu Blynnyddol manylach ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd.
 - Mae gwerthusiadau canol tymor a therfynol o Gronfa Busnes Cymru wedi'u comisiynu, gydag ymgynghorwyr allanol wedi'u penodi ym mis Mehefin 2020 yn dilyn proses gaffael gystadleuol ffurfiol.
- 9.21 Rydym o'r farn bod trefniadau monitro addas a chynlluniau ar gyfer gwerthuso ar waith ar gyfer Cronfa Busnes Cymru. Gellir ymchwilio i nifer o'r materion a amlygwyd yn yr adolygiad hwn drwy'r Gwerthusiad Canol Tymor gan gynnwys:
- Creu llai o swyddi
 - Targedau ceidwadol o ran diogelu swyddi
 - Cyfraddau buddsoddi ecwiti yn GCC.
- 9.22 Ymhellach, yn yr adroddiadau chwarterol, mae angen i BDC ddarparu sylwebaeth ar ddefnydd y gronfa ar gyfer cyfalaf gweithio a thwf, fel y gall WEFO/Llywodraeth Cymru ddeall sut mae hyn yn newid wrth i amodau economaidd newid (a'r effaith ddilynol ar y DPA). Mae'r adroddiadau chwarterol hefyd yn fan pwysig i ganolbwyntio'n benodol ar y materion a nodwyd uchod (cyn cyhoeddi'r Gwerthusiad Canol Tymor).

Tabl 9.7: Crynodeb o'r Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi

Metrig/Diwygiad	Y Strategaeth Fuddsoddi Flaenorol	Y Strategaeth Fuddsoddi Ddiwygiedig	Sylwadau Cryno
Cyfalaf Buddsoddi Ychwanegol yn ardal GCC	£125.5m	£140.5m	Wedi'i gyfiawnhau ar sail y galw disgwylledig am gyfalaf gweithio a chyllid dyled fel yr amlinellir yn yr asesiad hwn o'r farchnad
Ailddyrannu cyllid yn ardal GCC o ecwiti ar gyfer twf i ddyled	Trosglwyddiad o £25.4m o gyfalaf buddsoddi o ecwiti ar gyfer twf i gyllid dyled		Wedi'i gyfiawnhau ar sail yr asesiad hwn o'r farchnad a natur ddisgwylledig y galw am gyllid
Ailddyrannu cyllid yn ardal DC o gyllid dyled i ecwiti	Trosglwyddo £1.6m o gyllid dyled i ecwiti		Nid yw'r asesiad o'r farchnad yn cefnogi'r gwelliant hwn, ond gellir cyfiawnhau hyn ar sail llif buddsoddiadau BDC (ynghyd â bargeinion a gwblhawyd ers mis Mawrth 2020)
Cyfradd Fuddsoddi	£4.5m ar ôl i'w fuddsoddi yn ardal DC		Dylai fod yn gyraeddadwy o ystyried y gyfradd buddsoddi hyd yma a'r sianel fuddsoddi yn ardal DC
	£70.5m ar ôl i'w fuddsoddi yn ardal GCC (£17.5m y flwyddyn)		Y gyfradd fuddsoddi ofynnol ar gyfer cyllid dyled yw £13m y flwyddyn. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfraddau buddsoddi JEREMIE Cymru a hefyd yr hyn a gyflawnwyd gan y gronfa hyd yma. Ar gyfer ecwiti, y cyfraddau buddsoddi gofynnol yw £3.6m y flwyddyn. Mae hyn yn is na'r cyfraddau a gyflawnwyd hyd yma, a dylai fod yn gyraeddadwy. Hyd yn oed pe bai'r amodau economaidd yn fwy heriol (gan arwain at gwmp yn y galw am ecwiti am weddill y flwyddyn), dylai'r gyfradd hon, er ei bod yn heriol, fod yn gyraeddadwy o hyd.
Cyfradd Dileadau	15% o fenthyciadau 40% o ecwiti	20% o fenthyciadau 40% o ecwiti	Mae cyflawn'r cyfraddau hyn yn debygol o fod yn her o ystyried yr amodau economaidd ansicr (yn enwedig ar gyfer ecwiti sydd wedi'i osod yn is nag alldro JEREMIE). Rydym yn argymhell cynllun BDC ar sail y senario mwy pesimistaidd (30% o fenthyciadau a 50% o ecwiti)

Swyddi a Gaiff eu Creu	4,208	2,160	Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r tanberfformiad hyd yma o ran y gronfa, a hefyd addasiadau i ystyried y ffaith bod llai o swyddi na'r disgwyl wedi'u creu o ganlyniad i COVID-19. Mae angen ymchwilio'n ofalus i'r rhesymau dros danberfformiad drwy fonitro a gwerthuso, gan fod i hynny oblygiadau i werth am arian y gronfa
Swyddi a Gaiff eu Diogelu	-	1,865	Mae hwn bellach yn DPA craidd, felly nid oedd targed yn y strategaeth fuddsoddi flaenorol. Yn gyffredinol, yn ein barn ni, amcangyfrif ceidwadol yw hwn, o ystyried ei fod yn seiliedig ar berfformiad y gronfa yn y gorffennol a oedd yn is na'r disgwyl, ac mae'r newid yn natur y galw o gyllid twf i gyllid goroesi yn debygol o arwain at ddiogelu rhagor o swyddi.
Nifer y Busnesau sy'n Cael Cymorth	522	488	Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu gwerthoedd buddsoddi cyfartalog uwch na'r disgwyl hyd yma. Byddem yn disgwyl i'r cyfartaledd hwn ostwng (o gofio y disgwylir i'r galw fod am gyfalaf gweithio) ond mae ffrwd buddsoddiadau BDC yn awgrymu y bydd alw am fargeinion mwy yn y tymor byr. Mae angen monitro hyn yn fanwl iawn.
Trosoledd y Sector Preifat	£139m	£333m	Yn adlewyrchu perfformiad uwchlaw'r targed hyd yma. Dylai fod yn gyraeddadwy
Enillion Etifeddiaeth	£99m	£107m (achos sylfaenol) £82m gyda chyfradd dileadau uwch	Mae'r enillion etifeddiaeth yn dibynnu ar y gyfradd dileadau. Mae'r senario achos sylfaenol yn uwch na'r strategaeth fuddsoddi flaenorol o ystyried (yn ein barn ni) rhagdybiaethau cymharol optimistaidd ar gyfer dileadau. O ystyried yr amodau economaidd ansicr a heriol, rydym yn argymhell y dylid defnyddio'r cyfraddau dileadau uwch ar gyfer y rhagolwg etifeddiaeth.

Gwerth am Arian	Cost gros fesul swydd = £31,800 Cost Net fesul swydd net = £9,500	Cost gros fesul swydd = £76,800 Cost Net fesul swydd net = £31,700 - £45,100	Mae gostyngiad mewn gwerth am arian yn deillio o ffigurau creu swyddi is o ganlyniad i'r rhesymau a amlinellir uchod (h.y. tanberfformiad hyd yma, addasiadau COVID-19), ynghyd ag enillion etifeddiaeth is oherwydd cyfraddau dileadau uchel. Nid yw hyn yn ystyried manteision cynorthwyo busnesau i oroesi/diogelu busnesau a swyddi. Bydd angen ymchwilio i effaith lawn y gronfa (a gwerth am arian) drwy'r gwerthusiad canol tymor a therfynol.
-----------------	--	---	---

Adran gyfeiriadau

Banc Busnes Prydain (2019) *Small Business Equity Tracker*. Ar gael o: [Small Business Equity Tracker](#)

Banc Datblygu Cymru (Awst 2020) *Strategaeth Buddsoddiad Diwygiedig Cronfa Fusnes Cymru*

Banc Datblygu Cymru (Gorffennaf 2020a) *Adroddiadau Monitro WBF*

Banc Datblygu Cymru (Gorffennaf 2020b) *Proffil Cyflenwi*

Banc Datblygu Cymru (Gorffennaf 2020c) *Pro-forma Profforma Data Perfformiad WBF*

Banc Lloegr (2020) *Bankstats Tables* Ar gael o: [Bankstats Tables](#)

BVA BDRC (2017) *SME Finance Monitor*. Ar gael o: [SME Finance Monitor](#)

BVCA (2019) *BVCA Report on Investment Activity 2019*. Ar gael o: [Report on Investment Activity 2019](#)

Hatch Regeneris (2018) *Update of the Ex-ante Assesment for the Wales Business Fund*

IMF (Mehefin 2020) *World Economic Outlook*. Ar gael o: [Update of the Ex-ante Assesment for the Wales Business Fund](#)

KPMG (Mehefin 2020) *UK Economic Outlook*. Ar gael o: [UK Economic Outlook](#)

Llywodraeth Cymru (2018) *Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi*. Ar gael o: [Prosperity for All Action Plan Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi](#)

McKinsey & Company (Mehefin 2020) *Covid Briefing Materials*. Ar gael o: [COVID Briefing Materials](#)

Papur Briffio Tŷ'r Cyffredin (22 Mai 2020) *The UK Shared Prosperity Fund*, Rhif 08527

Spinouts UK (2020) *University Listings*. Ar gael o: [University Listings](#)

Strategaeth yr Adran Busnes, Ynni a Diwydiannol (2019) *Longitudinal Small Business Survey*. Ar gael o: [Longitudinal Small Business Survey](#)

Strategaeth yr Adran Busnes, Ynni a Diwydiannol (2019) *UK Innovation Survey*. Ar gael o: [UK Innovation Survey](#)

UK Finance (2018) *Lending Data*. Ar gael o: [Lending Data](#)

Y Comisiwn Ewropeaidd (2020) *State aid: Commission expands Temporary Framework to further support micro, small and start up companies and incentivise private investments*. Ar gael o: [State aid: EC expands Temporary Framework](#)

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Mai 2020) *Overview of the Uk government's response to the COVID-19 pandemics*. Ar gael o: [Overview of the Uk government's response to the COVID-19 pandemics](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018a) *GVA (balanced) at current basic prices*. Ar gael o: [Gwerth Ychwanegol Gros](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018b) *Regional Gross Value Added (balanced), current price estimate*. Ar gael oddi wrth: [ONS Regional Gross Value Added \(balanced\), current price estimate](#).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018c) *Business Register and Employment Survey*. Ar gael o: [ONS Business Register and Employment Survey](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019a) *Business Population Estimates* Ar gael o: [Business Population Estimates](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019a) *Population Estimates* Ar gael o: [ONS Population Estimates](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019b) *UK Business Counts*. Ar gael o: [ONS UK Business Counts](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019c) *Business Demography*. Ar gael o: [ONS Business Demography](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019d) *Higher Education and Business Expenditure on R&D*. Ar gael o: [ONS Higher Education and Business Expenditure on R&D](#).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020a) *GDP Monthly Estimate: April 2020*. Ar gael o: [ONS GDP Monthly Estimate: April 2020](#)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020b) *Labour Market Overview, July 2020*. Ar gael o: [Labour Market Overview, July 2020](#)

Atodiad A - Rhestr o'r Ymgynghoreion

Table A.1 Ymgynghoreion

Ymgynghorai	Sefydliad
Rhian Elston	Banc Datblygu Cymru
Simon Thelwall-Jones	Banc Datblygu Cymru
Neil Maguinness	Banc Datblygu Cymru
Rob Hunter	Banc Datblygu Cymru
David Kingdon	Banc Datblygu Cymru
Claire Miles	Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Carwyn Jones-Evans	Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Josh Miles	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
Sue Price	Llywodraeth Cymru
Karl James	Llywodraeth Cymru
Duncan Hamer	Llywodraeth Cymru
Huw Bryer	Busnes Cymru
Mel Brown	Llywodraeth Cymru
Mark Hambly	Banc Busnes Prydain
Steve Conibear	Banc Busnes Prydain
Melanie Goward	Maven
Warren Lewis	HSBC
Jessica Shipman	NatWest
Katherine Broadhurst	Baldwins